# Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mr Richard Parry Jones, MA.
Prif Weithredwr/Managing Director

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| **RHYBUDD O GYFARFOD** | | **NOTICE OF MEETING** |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR ARCHWILIO** | | **AUDIT COMMITTEE** |
| **DYDD MAWRTH, 23 GORFFENNAF 2013 am 2.00 o'r gloch y prynhawn** | | **TUESDAY, 23 JULY, 2013 at 2:00 p.m.** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI** | | **COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI** |
| **Swyddog Pwyllgor** | **Ann Holmes 01248 752518** | **Committee Officer** |

**<u>AELODAU / MEMBERS</u>**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Annibynnol/Independent**

Jim Evans, P.S.Rogers, D.Rhys Thomas

**Llafur / Labour**

Raymond Jones

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

T Ll Hughes (Is-Gadeirydd/Vice-Chair), John Griffith a Vaughan Hughes

**Heb Ymaelodi/Unaffiliated**

R Ll Jones (Cadeirydd/Chair)

**Aelodau Lleyg/Lay Members**

Richard Barker, Sharon Warnes

# R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw aelod neu swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION CYFARFOD 5 CHWEFROR, 2013** (Tudalennau 1 - 8)

Cyflwyno cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar y dyddiadau a ganlyn –

- 5 Chwefror, 2013.
- 30 Mai, 2013

3 **DATGANIAD CYFRIFON 2012/13 - PRIF BENDERFYNIADAU AC AMCANGYFRIFON** (Tudalennau 9 - 26)

Cyflwyno adroddiad ynglyn â'r uchod.

4 **DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL DRAFFT 2012/13** (Tudalennau 27 - 40)

Cyflwyno drafft o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol am 2012/13.

5 **ARCHWILIO ALLANOL - ADOLYGU TREFNIADAU LLYWODRAETHU GAN AWDURDOD LLEOL 2013** (Tudalennau 41 - 52)

Cyflwyno adborth gan Archwilio Allanol ynglyn â Datganiad Llywodraethu Cyngor Sir Ynys Môn.

6 **ARCHWILIO ALLANOL - DIWEDDARIAD AR RAGLEN WAITH PERFFORMIAD** (Tudalennau 53 - 54)

Cyflwyno diweddariad gan Archwilio Allanol ar waith perfformiad.

7 **ARCHWILIO ALLANOL - CYNNYDD AR YR ARCHWILIAD ALLANOL** (Tudalennau 55 - 60)

Cyflwyn adroddiad Archwilio Allanol ar gynnydd ar yr Archwiliad Ariannol.

8 **ARCHWILIO ALLANOL - AMLINELLIAD O'R ARCHWILIAD ARIANNOL BLYNYDDOL** (Tudalennau 61 - 78)

Cylfwyno amlinelliad o'r archwiliad ariannol blynyddol.

9 **ARCHWILIO ALLANOL - ARDYSTIO GRANTIAU A FFURFLENNI 2011/12** (Tudalennau 79 - 116)

Cyflwyno adroddiad Archwilio Allanol ynglyn ag ardystio grantiau a ffurflenni am 2011/12.

10 **RHEOLI RISG AC YSWIRIANT** (Tudalennau 117 - 124)

Derbyn diweddariad ynglyn â Rheoli Risg ac Yswiriant.

11 **RHEOLI GWYBODAETH A DIOGELWCH DATA** (Tudalennau 125 - 126)

Cyflwyno diweddariad ar gynnydd.

12 **ARCHWILIO MEWNOL - ADRODDIAD BLYNYDDOL 2012/13** (Tudalennau 127 - 134)

Cyflwyno Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol am 2012/13.

13 **ARCHWILIO MEWNOL - STRATEGAETH AM A CHYNLLUN CYFNODOL 2012/15** (Tudalennau 135 - 148)

Cyflwyno Strategaeth Archwilio Mewnol a'r Cynllun Cyfnodol 2012/15.

14 **ARCHWILIO MEWNOL - ADRODDIAD CYNNYDD CHWARTER 1 2013/14** (Tudalennau 149 - 156)

Cyflwyno adroddiad ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am Chwarter 1 2013/14.

15 **ADRODDIAD BLYNYDDOL RHEOLI TRYSORLYS 2012/13** (Tudalennau 157 - 170)

Cyflwyno Adroddiad Blynyddol Rheoli Trysorlys am 2012/13.

16 **DYDDIADAU CYFARFODYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO AM 2013/14**

- Dydd Mawrth, 23 Gorffennaf, 2013 am 2:00 p.m.
- Dydd Mawrth, 24 Medi, 2013 am 2:00 p.m.
- Dydd Mercher, 11 Rhagfyr, 2013 am 2:00 p.m.
- Dydd Mawrth, 4 Chwefror, 2014 am 2:00 p.m.

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR ARCHWILIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Chwefror 2013

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd T. H. Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Eric Roberts (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr E. G. Davies, Jim Evans, Vaughan Hughes, Alun Mummery.<br><br>Aelodau Lleyg: Mr. Richard Barker a Mrs Sharon Warnes |
| **WRTH LAW**: | Prif Weithredwr<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) (ar gyfer 4.5)<br>Rheolwr Archwilio (JF)<br>Cyfrifydd (Mr Ben Davies)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU** | Cynghorwyr Keith Evans, G O Jones, Ieuan Williams |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Mrs Gill Lewis (Uwch Ymgynghorydd Cyllid), Andy Bruce (Swyddfa Archwilio Cymru), James Quance (Uwch Reolwr Archwilio – PwC), Lynn Pamment (Partner Ymgysylltiad – PwC) |

---

Rhoddodd y Cadeirydd groeso i bawb oedd yn bresennol i'r cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Archwilio ac estynnodd groeso arbennig i Miss Clare Williams i'w chyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Archwilio ers ei phenodiad yn Bennaeth Swyddogaeth (Adnoddau).

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr, 2012.

Materion yn codi –

- Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod, dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) wrth y Pwyllgor - oherwydd cyfyngiadau amser yn y cyfarfod o'r Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn a gynhaliwyd ar 24 Ionawr, roedd adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth (Hamdden a Diwylliant) yn ymwneud a chyrhaeddiad a pherfformiad Oriel Ynys Môn yn 2011/12 wedi ei gyfeirio i is-bwyllgor o'r Ymddiriedolaeth Elusennol ar gyfer ystyriaeth a sgriwtini pellach.
- Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod, cadarnhaodd yr Uwch Ymgynghorydd Cyllid bod gwaith ynglŷn â'r Uned Cynnal a Chadw Adeiladau (BMU), yn parhau a bod y Pennaeth Gwasanaeth Tai mewn trafodaethau ynglŷn â moderneiddio'r Uned. Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi derbyn adroddiadau mewn perthynas â'r Uned Gynnal a Chadw yn dilyn adolygiad gan Swyddfa Archwilio Cymru o drefniadau darparu gwasanaeth yr Uned, a hefyd yn dilyn adolygiad archwilio

DRAFT

mewnol o drefniadau caffael yr Uned. Mae Archwilio Mewnol yn gwneud gwaith pellach a dargedwyd mewn perthynas â'r mater hwn.

**CAMAU GWEITHREDU YN CODI: Gofyn i'r Pennaeth Gwasanaeth Tai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf ar y cynnydd gyda mynd i'r afael â materion llywodraethu yng nghyswllt yr uned Cynnal a Chadw Adeiladau.**

- Gyda chaniatâd y Pwyllgor, cyflwynwyd Cynllun Gweithredu Llywodraethu/Rheoli Gwybodaeth er ystyriaeth gychwynnol yr Aelodau yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor yn ei gyfarfod blaenorol ei fod yn derbyn atborth gan y Grŵp Rheoli Gwybodaeth.

**CAMAU GWEITHREDU YN CODI: Y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) i roi diweddariad i'r Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod nesaf ar y cynnydd gyda rhoi'r Cynllun Gweithredu Llywodraethu/Rheoli Gwybodaeth ar waith ag unrhyw faterion eraill oedd yn codi ynglŷn â hynny.**

**3 COFRESTR RISG GORFFORAETHOL**

Cyflwynwyd i ystyriaeth y Pwyllgor adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) yn crynhoi'r cynnydd a wnaed gyda gweithredu'r Fframwaith Rheoleiddio Risg ynghyd â Chofrestr Risg Gorfforaethol newydd fel Atodiad A i'r adroddiad.

Roedd yr Uwch Ymgynghorydd Ariannol am atgoffa'r Pwyllgor bod y Strategaeth Rheoli Risg a'r Cyfarwyddyd wedi eu cymeradwyo a bod hyfforddiant ar y testun wedi ei ddarparu ac mai'r unig agwedd oedd yn parhau ar ôl oedd darparu diweddariad i'r Gofrestr Risg. Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r gwaith a wnaed hyd yn hyn yn cynnwys adolygiad gan Dim Uwch Arweinyddiaeth yr Awdurdod o ddiffiniadau'r risg, sbardunau a lefelau risg a hefyd nodi'r pum prif risg oedd yn wynebu'r Cyngor fel oedd i'w weld ym mharagraff 3.3 yr adroddiad. Roedd y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn nodi nifer o feysydd risg eraill yn ychwanegol i'r pump uchaf a bydd y matrics yn cael ei gwblhau unwaith y bydd y mesurau rheoli ychwanegol/triniaethau sydd eu hangen o ran gweithredu, swyddog(ion) cyfrifol a dyddiad targed wedi eu penderfynu a'u diffinio. Cadarnhaodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) y byddai diweddariad pellach yn cael ei ddarparu i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Archwilio.

Ystyriodd Aelodau'r Pwyllgor gynnwys yr adroddiad a'r Gofrestr Risg Gorfforaethol oedd ynghyd ag ef a gwnaethpwyd sylwadau ar y materion canlynol a/neu ceisiwyd cael eglurhad pellach -

- Y meini prawf a ddefnyddiwyd i benderfynu beth oedd pum prif risg y Cyngor.
- A oedd yn cael ei ystyried bod risg YM36 oedd yn cael ei diffinio fel methiant i gynllunio ar gyfer effaith diwygio'r sector iechyd wedi ei gyfyngu yn bennaf i'r Gwasanaethau Cymdeithasol neu a fyddai ei effaith yn fwy eang ar draws gwasanaethau'r Cyngor.
- Y sail dros beidio cynnwys risg YM23 (methiant i weithredu cynnwys y cynllun arolygu ôl Estyn a gwella perfformiad yn erbyn dangosyddion allweddol), fel un o brif risgiau'r Cyngor o ystyried termau disgrifio canlyniad y methiant hwn yn y Gofrestr Risg. Roedd teimlad bod peidio â chynnwys y risg hon ymysg y pump uchaf yn tynnu'n groes i'r hyn oedd yn cael ei ddweud yn y Gofrestr ynglyn â difrifoldeb y canlyniadau.
- Ategwyd mai canlyniad nifer o'r meysydd risg fyddai'r posibilrwydd o niweidio enw da. Awgrymwyd bod y potential o weld niwed i enw da ymhlyg ym mhopeth ac nid oes angen ei ailddweud ac yn fwy na hynny, fe ymddengys fod y cyfeiriadau yn rhai ar hap. Awgrymwyd bod angen lleihau'r cyfeiriadau at niwed i enw da o fewn y Gofrestr.

Ymatebodd y Swyddogion i'r cwestiynau a ofynnwyd trwy gynnig esboniadau fel oedd yn briodol.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a'r Gofrestr Risg Gorfforaethol oedd ynghyd ag ef ac i nodi eu cynnwys.**

DRAFT

**CAMAU GWEITHREDU YN CODI**

- **Y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) i gynnwys diweddariad ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol fel eitem sefydlog ar raglen y Pwyllgor Archwilio ynghyd â chofnodion y Grŵp Rheoli Risg lle byddai hynny yn briodol.**

- **Y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) i godi'r pwyntiau canlynol gyda'r Tîm Uwch Arweinyddiaeth:**

    - **Y methiant i gynnwys YM23 fel un o'r pum prif risg gorfforaethol fel rhywbeth oedd yn anghymarus gyda'r lefel risg a'r canlyniadau oedd yn cael eu disgrifio.**
    - **Lleihau'r cyfeiriadau at niwed i enw da'r Cyngor o fewn y Gofrestr Risg Gorfforaethol.**
    - **Y Rheolwr Archwilio i drefnu i'r Pwyllgor dderbyn y Cynllun Gweithredu Datganiad Llywodraethu Blynyddol maes o law.**

**4. ARCHWILIO ALLANOL**

4.1 Rhoddodd Mr Andy Bruce, Arweinydd Archwilio Perfformiad, Swyddfa Archwilio Cymru, ddiweddariad i'r Pwyllgor ar statws y gwaith a ddechreuwyd o dan y Rhaglen Waith Perfformiad fel oedd i'w weld yn yr adroddiad yn 4.1 ynghyd â chrynodeb ar ffurf tabl o'r gwaith oedd yn parhau a'r prosiectau a gynlluniwyd ar sail genedlaethol ac yn ymwneud a'r holl Gynghorau a hefyd ar sail Ynys Môn fel oedd i'w weld yn yr adroddiad yn 4.2. Cyfeiriodd y Swyddog at yr Adolygiad Llywodraethu Corfforaethol oedd yn digwydd ym mhob awdurdod unigol yng Nghymru ac a fydd yn eitem newydd i'r rhaglen fydd yn digwydd bob 4 blynedd. Ni chafwyd y manylion ynglyn â pha bryd y bydd yr adolygiad Llywodraethu Corfforaethol yn cael ei gynnal ym Môn er nad oes disgwyl y bydd yr Awdurdod yn destun adolygiad ym Mlwyddyn 1.

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth oedd wedi ei chyflwyno a chafwyd trafodaeth ar y rhestr Adolygu Llywodraethu Corfforaethol o safbwynt lle mae Ynys Môn yn debygol o ffitio i mewn i'r cylch a hefyd ynglyn â gweithredu'r Cynllun Gweithredu Archwilio ôl Estyn o ran ceisio cael eglurhad o sut mae'r Bwrdd Adfer Addysg yn cysylltu i mewn i'r rhaglen reoleiddio.

**Penderfynwyd nodi'r wybodaeth a ddarparwyd yn yr adroddiadau yn 4.1 a 4.2**

4.3 Cafwyd diweddariad gan Mr James Quance, PwC ar y cynnydd gyda'r archwilio ariannol yn erbyn y cerrig milltir allweddol yn Amlinelliad Archwilio Ariannol 2012/13 ac yng nghyswllt gwaith ardystio grantiau am 2010/11 a 2011/12. Roedd yr adroddiad yn nodi'r llinell amser ar gyfer cyfnodau allweddol y broses Archwilio Cyfrifon 2012/13, sefyllfa gydag ardystio datganiad cyfrifon 2011/12 yn ogystal â hawliadau grant a hefyd y trefniadau cysylltu gydag Archwilio mewnol, Rheolwyr a Swyddfa Archwilio Cymru.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys**

4.4 Cyflwynodd Mrs Lynn Pamment, Swyddog Ymgysylltiad, PwC yr amlinelliad Archwilio Ariannol Blynyddol i'r Pwyllgor ar gyfer blwyddyn archwilio 2012/13. Roedd yr adroddiad yn nodi'r cyfrifoldebau archwilio o dan y ddeddfwriaeth a rheoliadau perthnasol, yr agwedd archwilio a gymerir tuag at y gwaith o archwilio'r datganiadau ariannol; y prif risgiau ariannol a gweithredol a wynebir gan yr Awdurdod ac a allai gael effaith ar yr archwiliad fel oedd i'w weld o dan Arddangosyn 1; cyfrifoldebau'r archwiliwr o safbwynt gwerthuso trefniadau'r Awdurdod i sicrhau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau a hefyd ffi y gwaith archwilio a'r hyn oedd yn dod o fewn y gwaith hwnnw.

Ystyriodd Aelodau'r Pwyllgor gynnwys yr adroddiad ag fe ofynnwyd y cwestiynau canlynol a chafwyd ymatebion a manylion pellach gan y Swyddogion.

- Y cysyniad o berthnasedd a sut y deuir i gasgliad am yr hyn a olygir trwy hynny.

- A oedd asesiad yr Archwilydd o drefniadau'r Awdurdod ar gyfer sicrhau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau wedi ei gyfyngu i archwilio'r gweithdrefnau neu a

oedd yn cynnwys agwedd yr Awdurdod tuag at nodi a sicrhau arbedion a'r cyd-destun corfforaethol cyffredinol y gellir cynhyrchu arbedion o 'i fewn.

- Ffyrdd y gall yr Awdurdod liniaru'r risgiau wrth weithredu'r sustemau newydd.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys**

4.5 Cyflwynodd Mr Andy Bruce, Arweinydd Archwilio Perfformiad, Swyddfa Archwilio Cymru Lythyr Asesiad Gwella yr Archwilydd Cyffredinol (2) oedd yn crynhoi'r gwaith yng nghyswllt adrodd ar welliannau o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ac yn benodol ganlyniad yr archwiliad a'r gwaith asesu i nodi a oedd Cyngor Sir Ynys Môn wedi cyflawni ei ddyletswyddau ac wedi bodloni gofynion y Mesur, pa mor ddibynadwy oedd ei hunan-arfarnu ac unrhyw gynigion pellach i wella ac/neu argymhellion.

Dywedodd Mr Andy Bruce wrth y Pwyllgor bod yr Archwilydd Cyffredinol wedi dod i'r farn bod y Cyngor wedi cydymffurfio yn llawn gyda'i ddyletswyddau adrodd am wella o dan y Mesur ond y gallai cynnwys a strwythur Adroddiad Perfformiad y Cyngor 2011/12 gynnwys mwy o wybodaeth ansoddol er mwyn darparu sail tystiolaeth fwy cyflawn i alluogi'r Cyngor asesu ei berfformiad. Wrth ymhelaethu ar y casgliadau y daethpwyd iddynt cyfeiriodd at y pwynt eglurhaol ar dudalen 2 y Llythyr oedd yn dangos y ffyrdd yr oedd yr Adroddiad yn bodloni'r holl elfennau oedd eu hangen. Roedd tudalen 3 y Llythyr yn egluro ym mha ffyrdd y gallai cynnwys a strwythur yr Adroddiad Gwella Perfformiad gynnwys mwy o wybodaeth ansoddol i ddarparu sail tystiolaeth fwy cyflawn. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnwys dau gynnig i wella mewn perthynas â sicrhau cysondeb ar draws gwasanaethau yn ansawdd yr hunan-arfarnu a gyda sicrhau gwell rheolaeth olygyddol ar yr adroddiad.

Dywedodd y Swyddog bod adroddiad perfformiad y Cyngor yn gyffredinol am 2011/12 yn un gadarnhaol ac yn ddarn o waith calonogol iawn.

**Penderfynwyd derbyn y Llythyr Asesu a nodi ei gynnwys**

**5 ARCHWILIO MEWNOL**

Cyflwynodd y Rheolwr Archwilio er ystyriaeth y Cyngor adroddiad cynnydd ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Ebrill i 31 Rhagfyr 2012.

Roedd y Rheolwr Archwilio am amlygu'r pwyntiau allweddol canlynol o'r adroddiad -

- Ni fu unrhyw adolygiadau yn y cyfnod lle cafwyd barn Sicrwydd Coch.
- Roedd y canfyddiadau allweddol o'r tri adroddiad adolygu archwilio a ryddhawyd i'w gweld yn adran 2.2 yr adroddiad.
- Roedd perfformiad o ran cyfartaledd y Cynllun Archwilio a gwblhawyd i fyny o 46% i 53% ond mae'n parhau i fod lawer yn is na'r targed o 90%. Un ffactor sy'n cyfrannu at hyn yw'r un ar ddeg o atgyfeiriadau a gwblhawyd ac yr adroddwyd arnynt yn y cyfnod ac sydd wedi dargyfeirio adnoddau oddi wrth waith archwilio mewnol a gynlluniwyd.
- Mae'r perfformiad yn gweithredu ar argymhellion yn y cyfnod yn parhau yn is na'r targed gyda 68% o argymhellion Uchel a Chanolog wedi eu cofnodi fel rhai y gweithredwyd arnynt. Roedd y dadansoddiad o'r argymhellion a gyflawnwyd gan y gwasanaethau i'w weld yn Atodiad A yr adroddiad.

  Ystyriodd yr Aelodau yr adroddiad a gofynnwyd i'r Swyddog egluro rhai pwyntiau ynglyn â'r trefniadau ar gyfer sgriwtineiddio taliadau uniongyrchol y Gwasanaethau Cymdeithasol mewn ffyrdd ar wahân i archwilio mewnol, a hefyd ynghylch materion llywodraethu a rheoli o fewn ysgolion a gofynnwyd a oedd unrhyw ystyriaeth wedi ei roi i gyflogi person i gadw llyfr ac i ddarparu cymorth peripatetig i ysgolion yn hyn o beth. Ymatebodd y Swyddogion i'r pwyntiau a wnaed.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad cynnydd a nodi ei gynnwys.**

DRAFT

**6 GWELLA'R PWYLLGOR ARCHWILIO**

Cyflwynodd y Rheolwr Archwilio er ystyriaeth y Pwyllgor, adroddiad yn manylu ar ganlyniad yr Hunanasesiad Effeithlonrwydd 2013 (Atodiad B i'r adroddiad) ynghyd a Chynllun Gweithredu Gwella ar gyfer 2013/14 (Atodiad C i'r adroddiad).

Tynnodd y Rheolwr Archwilio sylw at y prif ystyriaethau a ganlyn o'r adroddiad –

- Meysydd gwella a nodwyd yng ngweithdy Ionawr 2013 i Aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn cynnwys gwella hyfforddiant anwytho a dadansoddiad o anghenion hyfforddiant unigol i Aelodau; eglurhad o rolau'r Pwyllgorau Archwilio a Sgriwtini mewn perthynas â rheoli risg, mabwysiadu canllawiau Atal Twyll a Llygredd, gwell cyswllt mewn perthynas â chynllunio a pherfformiad Archwilio Allanol.
- Trefniadau Atal Twyll - mae angen gweithredu er mwyn i'r Pwyllgor gael sicrwydd bod trefniadau atal twyll cyfredol y Cyngor yn effeithiol ac yn cael eu gweithredu yn unol â chyfarwyddwyd CIPFA - Rheoli'r Risg o Dwyll - Camau i Atal Twyll a Llygredd. Argymhellir cynnal Sesiwn Ymwybyddiaeth Twyll i Aelodau'r Pwyllgor er mwyn iddynt dderbyn gwybodaeth am y trefniadau a'r materion cyfredol yn ogystal â chael gwybod beth yw anghenion cyfarwyddyd CIPFA.

  Ystyriodd yr Aelodau yr adroddiad ac fe wnaed y pwynt y dylai'r Pwyllgor Archwilio, yn ogystal â chynnal hunanasesiad blynyddol, ystyried dulliau o sicrhau barn allanol ar ei berfformiad a'i effeithlonrwydd fel Pwyllgor.

**Penderfynwyd –**

- **Cymeradwyo canlyniad yr hunanasesiad a wnaed o effeithlonrwydd y Pwyllgor ynghyd â'r Cynllun Gweithredu Gwella fel oedd i'w weld yn Atodiad C.**

- **Bod y sesiynau hyfforddi ymwybyddiaeth twyll yn cael eu cynnwys yn rhestr hyfforddiant y Pwyllgor ar gyfer 2013/14 er mwyn rhoi gwybodaeth am effeithlonrwydd trefniadau cyfredol y Cyngor i Atal Twyll a Llygredd.**

- **Bod hunanasesiad newydd ar effeithlonrwydd y Pwyllgor yn cael ei gynnwys yn ei gynllun gweithredu ar gyfer 2013/14 ac ychwanegu y dylid cael darpariaeth yn cael ei wneud i sicrhau y gellid cael barn allanol.**

  **PWYNTIAU GWEITHREDU YN CODI :**

- **Y Rheolwr Archwilio i wneud trefniadau ar gyfer sesiwn hyfforddi ymwybyddiaeth twyll i'r Pwyllgor yn y dyfodol fel rhan o'i Raglen Hyfforddi 2013/14.**
- **Y Rheolwr Archwilio i gymryd camau i gynnwys o fewn cynllun gwaith y Pwyllgor hunanasesiad newydd ar effeithlonrwydd y Pwyllgor.**
- **Y Rheolwr Archwilio i ymgynghori gyda RSM Tenon gyda golwg ar ddwyn yn ol i'r Pwyllgor opsiynau i gael agwedd allanol ar berfformiad ag effeithlonrwydd y Pwyllgor.**

**7 ADRODDIAD BLYNYDDOL PWYLLGOR ARCHWILIO 2012/13**

Cyflwynodd y Cadeirydd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio ar gyfer blwyddyn ddinesig 2012/13. Roedd yr adroddiad yn rhoi crynodeb o waith a gweithgareddau'r Pwyllgor Archwilio yn ystod y flwyddyn yn cynnwys y cyfarfodydd a gynhaliwyd a'r presenoldeb ynddynt; y meysydd/materion allweddol yr ymdriniwyd â hwy a'r hyfforddiant a drefnwyd ac a ddarparwyd.

Ceisiodd y Cadeirydd gael cymeradwyaeth y Pwyllgor i gynnwys, fel rhan o'r Adroddiad Blynyddol, gofnod presenoldeb yr Aelodau yn y cyfarfodydd o'r Pwyllgor ac mewn digwyddiadau hyfforddi yn ystod y flwyddyn. Roedd yr Aelodau yn gefnogol i gynnwys manylion am bresenoldeb yr Aelodau fel elfen yn yr adroddiad ac fel arfer dda gyda'r amod bod y rhestr presenoldeb hyfforddi yn Atodiad B yn cael ei diwygio i ddangos bod y Cynghorydd Alun Mummery yn bresennol yn y sesiwn ar 16 Hydref 2012.

DRAFT

**Penderfynwyd cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol 2012/13 i'w chyflwyno i'r Cyngor Sir yn ei gyfarfod ym Mai, 2013, gyda'r gwelliant a nodwyd.**

**CAMAU GWEITHREDU YN CODI :**

- **Rheolwr Archwilio i newid y rhestr presenoldeb mewn cyrsiau hyfforddi yn Atodiad B i adlewyrchu bod y Cynghorydd Alun Mummery yn bresennol yn y sesiwn ar 16 Hydref 2012.**
- **Rheolwr Archwilio i wneud y trefniadau angenrheidiol i gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol i'r Cyngor Llawn ym mis Mai.**

**8 RHEOLI TRYSORLYS**

8.1 Cyflwynwyd adroddiad Rheoli Trysorlys am y Trydydd Chwarter o flwyddyn ariannol 2012/13 er ystyriaeth y Pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn rhoi diweddariad i'r Aelodau ar weithgareddau rheoli trysorlys yn Chwarter 3 o fewn cyd-destun y cefndir a'r rhagolygon economaidd ehangach.

Cyfeiriodd y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) at y sefyllfa mewn perthynas â gweithgareddau benthyca'r Awdurdod a'i bortffolio buddsoddiadau gan gyfeirio yn arbennig at ailfuddsoddi gyda RBS ar aeddfedu yn ystod y chwarter, buddsoddiad tymor penodol o £5m am 364 diwrnod ar raddfa o 1.58%. Ni wnaed unrhyw fuddsoddiadau tymor sefydlog eraill nac unrhyw fenthyca newydd nac aildrefnu dyled. Dywedodd y Swyddog bod y Cyngor yn ystod y chwarter wedi parhau o fewn ei Gyfyngiadau Pwyllog a Thrysorlys fel oeddent wedi eu nodi yn Atodiad 2 yr adroddiad. Roedd y cynlluniau ar gyfer gweddill y flwyddyn wedi eu hamlinellu o dan baragraff 7 yr adroddiad.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys**

8.2 Cyflwynwyd Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2013/14 i'r Pwyllgor ei ystyried fel rhan o'r ymgynghori ar faterion cyllideb cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith. Roedd y strategaeth ar gyfer 2013/14 yn delio a dau brif faes, sef materion cyfalaf a materion rheoli trysorlys yn cynnwys ymysg agweddau eraill, y strategaeth fenthyca, strategaeth fuddsoddi ac aildrefnu dyled.

Tynnodd y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) sylw arbennig at y materion a ganlyn –

- Y Polisi Buddsoddi fel oedd i'w weld o dan adran 4.2 yr adroddiad yn cynnwys darpariaeth fel oedd wedi ei amlygu oedd yn caniatáu i'r Awdurdod lle bo hynny'n briodol, fuddsoddi neu i roi arian ar adneu mewn undeb credyd neu debyg i bwrpas darparu ei wasanaeth gyda'r nod pan fyddai'r newidiadau diwygio lles arfaethedig yn cael eu gweithredu y bydd yna ar gael i'r rhai a effeithir gan y newidiadau, ffynhonnell ddiogel a heb fod yn ddrud o fenthyca arian. Tra roedd hyn yn bosibilrwydd ar hyn o bryd roedd y strategaeth wedi ei haddasu fel oedd wedi ei amlinellu mewn termau amhenodol yng nghyswllt gwrthbartion, er mwyn caniatáu i hyn ddigwydd.
- Atodiad 5 - Y Rhestr Fenthyca Gymeradwy yn ol Credyd. Bydd angen diwygio Adran 4.1 (buddsoddiadau penodol) i egluro bod Banciau'r DU sydd wedi eu cenedlaetholi neu led genedlaetholi y tu allan i'r meini prawf penodol, ac mai eu statws o fod wedi eu gwladoli neu eu gwladoli'n rhaddol sy'n rhoi eu sgôr credyd.
- Cynllun Morgais yr Awdurdod Lleol lle mae'r Awdurdod yn ystyried cymryd rhan. Pe bai hyn yn digwydd, byddai angen diwygio'r Strategaeth i nodi hynny.

Rhoddwyd cyfle i'r Aelodau ofyn cwestiynau a cheisio cael eglurhad ar unrhyw agweddau o'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys.

**Penderfynwyd derbyn y Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys am 2013/14 a nodi ei chynnwys.**

**CAMAU GWEITHREDU YN CODI : Y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) i ddiwygio Atodiad 5 y Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys fel a amlinellwyd, cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith.**

**Y Cynghorydd Thomas Jones**
**Cadeirydd**

DRAFT

# PWYLLGOR ARCHWILIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Mai, 2013

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorwyr Jim Evans, John Griffith, Vaughan Hughes,Raymond Jones, R.Llewelyn Jones, D.Rhys Thamas<br><br>Aelodau Lleyg: Mr Richard Barker, Mrs Sharon Warnes |
| **WRTH LAW**: | Prif Weithredwr<br>Pennaeth Swyddogaeth (Gwasanaethau Cyfreithiol a Gweinyddol)/ Swyddog Monitro<br>Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes |
| **HEFYD YN BRESENNOL**: | Cynghorydd Gwilym O.Jones (Cadeirydd y Cyngor Sir) |

---

**1. DATGAN DIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**2. CADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd R.Llewelyn Jones yn Gadeirydd y Pwyllgor hwn.

**3. IS-GADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor hwn.

**Cynghorydd Gwilym O.Jones**
**(fel Cadeirydd y Cyngor Sir)**

DRAFFT

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD:** | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| **DYDDIAD:** | **23 GORFFENNAF 2013** |
| **PWNC:** | **DATGANIAD CYFRIFON 2012/13 PRIF BENDERFYNIADAU AC AMCANGYFRIFON** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **DIWEDDARU AELODAU'R PWYLLGOR ARCHWILIO AR Y PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL YN Y DATGANIAD CYFRIFON 2012/13** |
| **DEILYDD(ION)PORTFFOLIO:** | **CYNGHORYDD H E JONES** |
| **SWYDDOG(ION) ARWEINIOL:** | **CLARE J WILLIAMS** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **TONY FURBER** |
| **GWEITHREDIAD:** | **NODI'R CYNNWYS A PHENDERFYNU OS FYDDAI RHAGOR O HYFFORDDIANT AR Y DATGANIAD CYFRIFON YN DDYMUNOL** |

**RHAGARWEINIAD**

Cafodd Datganiad Cyfrifon Drafft y Cyngor ar gyfer 2012/13 ei lofnodi gan y Swyddog Adran 151 ar 28 Mehefin 2013 ac erbyn yr amser cau statudol, sef diwedd mis Mehefin.

Mae cyfrifon yn ymwneud a'r cyfnod o 1/4/2012 - 31/3/2013. Maent yn ddatganiadau mawr a chymhleth a nid ydynt bob tro'n hawdd i'w dadansoddi gan rheini nad ydynt yn arbenigwyr. Maent hefyd yn cael eu paratoi ar adeg benodol ac o'r herwydd, mae angen gwneud penderfyniadau ynghylch y modd y gweithredir polisïau cyfrifo, a gwneud rhagdybiaethau ar gyfer y dyfodol ac ynghylch materion pwysig eraill y mae ansicrwydd yn eu cylch.

Pwrpas yr adroddiad hwn ydi rhoddi mwy o eglurder i aelodau a swyddogion ynglŷn â'r penderfyniadau hynny a dylid ei ddarllen ochr yn ochr â'r Datganiad Cyfrifon drafft. Cyhoeddwyd y cyfrifon yma ar wefan y Cyngor ar ddechrau Gorffennaf.

Caiff y cyfrifon eu paratoi yn unol â'r arferion priodol a nodir yng Nghôd Ymddygiad CIPFA/LASAAC ar Gyfrifon Awdurdod Lleol yn y Deyrnas Gyfunol 2012/13.

**DATGANIAD CYFRIFON**

Rhoddir isod eglurhad bur o'r Datganiad cyfrifon. Fel sy'n arferol, byddai'r Swyddogion Cyllid eiiau i aelodau o'r Pwyllgor Archwilio ganolbwyntio ar rai meysydd allweddol penodol:-

- Y Rhagymadrodd Eglurhaol, sy'n cysylltu'r canlyniad yn ôl i'r gyllideb am y flwyddyn a'r monitor yn y flwyddyn (Atodiad A);

- Y Datganiad o'r Symudiad Mewn Cronfeydd Wrth Gefn (Atodiad B) – sy'n crynhoi'r arian wrth gefn sydd ar gael i'r Cyngor, wedi ei ranu i gategorïau defnyddiadwy a rhai na ellir eu defnyddio, a'r symudiadau ynddynt yn ystod y flwyddyn.

Y prif rannau o'r Datganiad y Cyfrifon yw:-

**Cynnwys (tudalennau 1-2)**

Yn crynhoi cynllun y cyfrifon ac yn hwyluso'r defnydd ohonynt.

**Geirfa (tudalennau 82-88)**

Mae defnyddio byrfoddau yn angenrheidiol yn aml er mwyn lleihau maint y ddogfen fawr hon. Caiff y termau technegol hefyd eu hegluro yn yr eirfa i gynorthwyo defnyddiwr y cyfrifon.

**Rhagymadrodd Eglurhaol (tudalennau 3-10)**

Mae hon yn rhan bwysig o'r cyfrifon oherwydd mae'n egluro mewn termau ariannol sut mae'r flwyddyn wedi mynd. Mae'n crynhoi'r wybodaeth sydd yn y prif ddatganiadau a'r nodiadau i'r cyfrifon. Dylai'r rhifau yn y rhagair adlewyrchu'r ffigyrau allweddol sydd wedi eu cynnwys yn y datganiadau ariannol.

Dyma brif rannau'r rhagair:

- Adolygiad o'r flwyddyn – yn cynnwys sylwadau ar berfformiad refeniw y Cyngor yn erbyn cynlluniau cyllidebol a rhagolygon yn ystod y flwyddyn gydag eglurhad o'r rhesymau am orwario a thanwario;
- Cyfalaf, Prosiectau Cyfalaf Mawr a Gwariant a Chyllido Cyfalaf;
- Cyfrif Refeniw Tai (CRT) – yn cynnwys sylwadau ar yr arian CRT wrth gefn y gellir ei defnyddio;
- Benthyciadau a Buddsoddiadau – cynnwys sylwadau ar fenthyciadau a buddsoddiadau yn ystod y flwyddyn;
- Sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2012 - cynnwys sylwadau ar y symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn a Darpariaethau y mae modd eu defnyddio.
- Sylwebaeth ar eitemau sylweddol penodol o fewn y cyfrifon.

**Y prif ddatganiadau ariannol**

**Y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn ar gyfer y flwyddyn gyfredol a blwyddyn gymharol (tudalen 12)**

Dyluniwyd y datganiad hwn fel un y dylid ei ddarllen o'r top i lawr yn hytrach nag ar draws. Mae'n cynnwys gwerth dwy flynedd o symudiadau gan gychwyn o falansau'r cronfeydd wrth gefn ar 1 Ebrill 2011 ac yn gorffen yn y gwaelod gyda balansau'r arian wrth gefn ar 31 Mawrth 2013. Mae'n dangos pob un o'n cronfeydd wrth gefn y mae modd eu defnyddio ynghyd â chrynodeb o arian wrth gefn na fedrir ei ddefnyddio.

Mae **Cronfeydd Wrth gefn na ellir eu defnyddio** mewn gwirionedd yn gronfeydd a grëwyd ar gyfer addasiadau technegol ac nid ydynt ar gael i'r Cyngor eu gwario. Er enghraifft, roedd y Gronfa Ailbrisio yn £29.768m ar 31 Mawrth 2013. Fodd bynnag, mae hyn yn cynnwys enillion 'papur' o gynnydd yng ngwerth ei Asedau o ran Cyfarpar, Offer, Eiddo ac Asedau Anniriaethol. Ni fyddai arian ond ar gael i'w ddefnyddio ar adeg gwerthu'r asedau hyn.

Mae **Cronfeydd Wrth gefn Defnyddiadwy** yn arian y gall y Cyngor ei wario. Mae rhai cronfeydd wrth gefn wedi cael eu clustnodi ar gyfer pwrpas penodol ac ni fedrir ond eu gwario i'r pwrpas hwnnw. Er enghraifft, ni fedrir ond defnyddio cronfeydd wrth gefn yr Ysgolion gan yr ysgolion ac ni fedrir ond defnyddio'r Cyfrif Refeniw Tai ar dai cyngor.

Mae **Cronfeydd Wrth gefn Defnyddiadwy** yn cynnwys Cronfa'r Cyngor a Chronfa Wrth Gefn y CRT, Cronfeydd wrth gefn Clustnodedig a'r Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Derbyniadau Cyfalaf.

Dylid nodi mai ciplun yn unig yw hwn o'r balansau ar 31 Mawrth ac nad yw'r cyfan o'r balansau hyn 'ar gael' i'w gwario. Er enghraifft, efallai y bydd gwasanaethau wedi cynllunio i wario rhywfaint o'u harian wrth gefn clustnodedig fel rhan o gynlluniau cyllidebol y flwyddyn gyfredol (neu'r flwyddyn/blynyddoedd i ddod).

Mae'r Datganiad hefyd yn cynnwys yr addasiadau sy'n angenrheidiol i sicrhau fod yr hyn a godir yn erbyn Cronfa'r Cyngor yn cael ei gyfyngu i'r cyfanswm a ganiateir yn ôl y gyfraith i gael ei godi yn erbyn y Dreth Gyngor. Delir â'r mater yma mewn fwy o fanylder isod.

**Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES – tudalen 13)**

Dengys y datganiad hwn gostau cyfrifo yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau'r Cyngor yn unol a safonau cyfrifo, yn hytrach na'r symiau a gyllidir o'r trethiant. Mae'n ofynnol dan safonau cyfrifo fod costau penodol, e.e. dibrisiant (dros £10m yn 2012/13) yn cael eu codi i wasanaethau, ond achos nad yw hyn yn gost 'wirioneddol', h.y. nid yw arian yn newid dwylo mewn gwirionedd, nid yw rheoliadau statudol yn caniatau iddo gael ei godi yn erbyn Cronfa'r Cyngor. Felly, er ei fod yn ffurfio rhan o'r diffyg net ar wasanaethau yr adroddwyd arno, mae'n cael ei symud allan o'r hyn a godir yn erbyn trethiant gan yr addasiadau a ddangosir yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn (gweler uchod). Dangosir restr llawn o'r holl addasiadau o'r fath yn Nodyn 7 ar tudalen 34.

Gall y ffigyrau technegol hyn gael effaith reit ddramatig ar falans llinell waelod y CIES. Er enghraifft, mae yna golled actiwaraidd o £18.6m ar asedau/rhwymedigaethau pensiynau yn 2012/13, sy'n gwneud i fyny y rhan fwyaf o'r diffyg cyffredinol a ddangosir o £18.9m.

Caiff y sefyllfa o ran treth net ei dangos yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Arian Wrth Gefn. Dengys hyn warged net o £212k yng nghronfa'r Cyngor yn hytrach na'r £18.9m a ddangosir ar y CIES.

**Mantolen (tudalen 14)**

Mae'r Fantolen ar gyfer y Cyngor yn dangos gwerth asedau a rhwymedigaethau'r Cyngor fel ar 31/3/13. Mae asedau net yr Awdurdod (asedau llai rhwymedigaethau) yn cyd-fynd â'r Cronfeydd wrth Gefn sy'n cael eu dal gan yr Awdurdod. Caiff y rhain eu rhannu'n gronfeydd wrth gefn y mae modd eu defnyddio (gydag amodau) a chronfeydd wrth gefn na fedrir eu defnyddio sydd, yn bennaf, yn addasiadau technegol.

**Datganiad Llif Arian (tudalen 15)**

Dengys y Datganiad Llif Arian newidiadau mewn Arian Parod a Chyfwerthoedd Arian yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn. Dengys y datganiad sut mae'r Awdurdod yn cynhyrchu a defnyddio Arian Parod a Chyfwerthoedd Arian trwy ddosbarthu llif arian i'r 3 maes isod:-

Llif arian net o weithgareddau gweithredu – fe'u cyllidir trwy incwm grant a threthiant neu gan dderbynyddion y gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod.

Llif arian net o weithgareddau buddsoddi - cynrychioli'r graddau mae'r llif arian wedi eu gwneud o'r adnoddau y bwriedir eu defnyddio i gyfrannu tuag at ddarpariad gwasanaeth y Cyngor yn y dyfodol.

Llif arian sy'n codi o weithgareddau cyllido – maent yn ddefnyddiol i ragweld yr hawl sydd gan ddarparwyr cyfalaf ar lif arian yr Awdurdod yn y dyfodol e.e. benthyciadau.

**Nodiadau i'r Cyfrifon yn cynnwys Nodyn 1, Polisïau Cyfrifo (tudalennau 16 - 77)**

Mae'r nodiadau i hwyluso dealltwriaeth defnyddiwr y cyfrifon. Yn gyffredinol, gosodir allan yn y nodiadau beth mae'r cyfrifon yn fesur ac o ble y mae'n deillio. Yn ogystal, mae'n bwynt cychwyn arferol o ddarllen y prif ddatganiadau. Petai rhif nad ydych yn ei ddeall, yna gobeithio y cewch fwy o wybodaeth drwy gyfeirio i'r nodyn cysylltiedig fel y manylir yn y prif ddatganiad.

**Cyfrif Refeniw Tai (tud 78 – 81)**

**Penderfyniadau Beirniadol ac Ansicrwydd Amcangyfrif (Tud 32 – 33)**

Yn aml mae defnyddwyr cyfrifon yn pryderu am eu cywirdeb. Fel arfer, mae'r prawf o hyn yn cael ei adlewyrchu yng nghanlyniadau'r archwiliad allanol anibynnol a gychwynodd, eleni, ar 11 Gorffennaf. Mae'n ofynnol dan statud i gyflwyno canlyniadau'r archwiliad allanol yma i'r Pwyllgor Archwilio ac i gyflwyno'r Cyfrifon Terfynol i'w cymeradwyo erbyn 30 Medi.

Mae nodiadau penodol i'r cyfrifon sydd i fod i egluro'n well neu grynhoi'r penderfyniadau beirniadol ac ansicrwydd amcangyfrif pan ddarparwyd y cyfrifon, fel y dangosir yn Nodiadau 3 a 4, ac fe'u hatgynhyrchir yn Atodiadau C a CH o'r adroddiad yma.

Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried yr elfennau yma o'r Datganiad Cyfrifon i baratoi ar gyfer y cyflwyniad ffurfiol o'r cyfrifon archwiliedig ym Medi. Yn ogystal, mae wedi dod yn arferiad i ddarparu gweithdy i aelodau'r pwyllgor gael paratoi. Croesawn farn yr aelodau ar y trefniadau ar gyfer eleni.

**CRONFEYDD WRTH GEFN CLUSTNODEDIG**

Mae nifer o gronfeydd wrth gefn a ddangosir yn y Datganiad Cyfrifon sydd wedi eu neilltuo ar gyfer pwrpas penodol – gelwir y rhain yn gronfeydd wrth gefn clustnodedig. Dangosir yn Atodiad D y symiau a ddelir ym mhob un yn ogystal â'r trosglwyddiadau blwyddyn ar ôl blwyddyn. Gweler isod ddisgrifiad byr o pob un ynghyd â'i bwrpas :

**Gwariant Cyfalaf –** i ariannu gwariant cyfalaf mewn blynyddoedd i ddod. Crëwyd hwn i sicrhau bod gwariant cyfalaf ymrwymedig, yn cynnwys gwariant sydd wedi llithro o flynyddoedd blaenorol, yn cael ei gyllido'n llawn.

**Cronfa wrth Gefn Safle Tirlenwi Gwastraff Penhesgyn –** Crëwyd y gronfa wrth gefn hon o asedau arian parod net, llai costau dirwyn i ben a chapio, Cwmni Gwastraff Môn-Arfon Cyf sydd yn y broses o'i ddirwyn i ben. Defnyddir y gronfa wrth gefn i gyfrannu tuag at unrhyw rwymedigaethau i'r dyfodol sy'n deillio o reolaeth safle Penhesgyn.

**Cronfeydd wrth Gefn Gwasanaethau -** dan Reolau Gweithdrefnau Ariannol y Cyngor mae gôr- a thanwariant yn cael ei gario mlaen fel cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i'r lefel a osodir gan y Pwyllgor Gwaith.

**Cronfeydd wrth Gefn Gwasanaethau Cyfyngedig –** cyllidebau a glustnodwyd o fewn meysydd gwasanaeth sy'n parhau heb eu gwario ar ddiwedd y flwyddyn.

**Tâl Cyfartal, Statws Sengl ac Arfarnu Swyddi -** O ganlyniad i'r cytundeb 'Statws Sengl', mae'n ofynnol ar yr Awdurdod, fel y rhan fwyaf o awdurdodau lleol eraill, gyflwyno system gyflog a graddau newydd i ddod i rym o 1 Ebrill 2007. Mae'r graddau y bydd hyn yn cynnwys rhwymedigaeth i ôl-gyflog yn ansicr. Mae trafodaethau'n mynd yn eu blaenau ar strwythur cyflog a graddau diwygiedig. Gosodwyd swm o'r neilltu yn y Gronfa wrth Gefn Arfarnu Swyddi tuag at gost gyffredinol yr ymarfer, yn cynnwys costau gweinyddol, cost graddfeydd cyflog newydd, unrhyw ddiogelwch cyflog ac unrhyw ôl gyflog. Er na ellir amcangyfrif elfennau unigol gydag unrhyw radd o sicrwydd, barn yr Awdurdod yw bod y symiau a osodwyd o'r neilltu'n ddigonol.

**Ailgylchu -** arbedion costau tirlenwi a grëwyd trwy ddargyfeirio gwastraff i ailgylchu. Bydd y gronfa wrth gefn yn cael ei defnyddio tuag at fentrau ailgylchu.

**Cronfa wrth Gefn Rheoli Perfformiad –** symiau a glustnodwyd tuag ar fesurau gwella perfformiad o'r Grant Cytundeb Canlyniad.

**Cronfa Wrth Gefn Cyweiriadau Sylwedol (CRT)** – Symiau wedi'i neulltuo o'r balans CTY i gyllido gwariant cyfalaf a'r dai cyngor.

**Cronfa Yswiriant -** Mae'r Cyngor yn rhedeg cyfrif yswiriant mewnol sy'n talu am golledion hunan yswiriedig ac sy'n derbyn 'premiymau' o gyfrifon gwasanaeth. Darperir ar gyfer y colledion y gwyddys amdanynt ar ddiwedd y flwyddyn. Y gronfa wrth gefn hon yw'r gwarged ar y cyfrif yswiriant mewnol ynghyd â llog ar falansau, a bwriedir iddi gynnwys hawliadau yr aethpwyd iddynt ond nad adroddwyd arnynt.

**Eraill –** Mae'r balans hwn yn cynnwys cyfuno balansau 7 o gronfeydd wrth gefn unigol, sydd, bob un ohoynt, yn dal balansau o lai na £0.5m, ac nad ydynt, fe ystyrir, yn symiau sylweddol.

## DARPARIAETHAU

Darpariaethau yw symiau o arian a roddwyd o'r neilltu ar gyfer digwyddiadau hysbys a thebygol, h.y. mae'r tebygrwydd iddynt ddigwydd yn uchel. Dangosir yn Atodiad B y symiau a delir ym mhob un ynghyd â'r trosglwyddiadau blwyddyn ar ôl blwyddyn ar ôl blwyddyn. Dangosir isod disgrifiad byr o bob un ynghyd â'i pwrpas :

### Darpariaeth Hawliadau Yswiriant

Mae didyniadau ym mholisïau yswiriant allanol y Cyngor sy'n golygu bod y Cyngor ei hun yn talu rhan gyntaf unrhyw golled neu hawliad dan y polisïau hyn ac yn cael ei ddiogelu trwy ddull cyfyngiad-colled. Nid oes yswiriant allanol ar gyfer eiddo cyffredinol ac addysg y Cyngor i'r peryglon canlynol: dŵr sydd yn dianc o danc neu beipen, llifogydd, trawiad, lladrad, difrod damweiniol, ymsuddiad, ymchwyddiad tir, tirlithriad. Ar wahân i ladrad a difrod damweiniol, mae colledion o ganlyniad i'r peryglon hyn fel arfer yn cael eu cyllido o'r gronfa yswiriant wrth gefn. Y balans ar y ddarpariaeth yswiriant yw'r rhwymedigaeth debygol ar gyfer yr elfen wedi ei hyswirio'n fewnol o'r hawliadau sy'n hysbys ond nad ydynt wedi eu setlo ar ddiwedd y flwyddyn.

### Safle Gwastraff Penhesgyn

Darpariaeth ar gyfer ôl-ofal a gwaith adfer ar y rhannau o'r safle yr arferid ei ddefnyddio ar gyfer tirlenwi.

### Buddiannau Terfynu

Darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau hysbys i'r dyfodol sy'n deillio o leihad mewn staff ar ôl ailstrwythuro.

### Municipal Mutual Insurance (MMI)

Yn Ionawr 1994, sefydlodd yswirwyr yr awdurdodau a ragflaenodd y Cyngor, Municipal Mutual Insurance (MMI), gynllun trefnu gyda'i gredydwyr. Hysbyswyd y Cyngor ar 13 Tachwedd 2012 nad oedd y cynllun trefnu a sbardunwyd fel 'solvent run off' yn ddisgwyliedig bellach. Amcangyfrifir bod y rhwymedigaethau cyfredol yn 15% o'r hawliadau a dalwyd ar ran y Cyngor ers Ionawr 1994, sy'n cyfateb i £0.17m. Mae'r Cyngor yn awr yn gwneud darpariaeth ar gyfer y swm hwn ac fe delir amdano yn y lle cyntaf o'r gronfa yswiriant er mwyn sicrhau ei fod yn cwrdd â'i gyfrifoldebau dan y Cynllun Trefnu.

## ARGYMHELLION

- Fod aelodau yn cysidro yr eitemau allweddol a amlinellir uchod; a
- Bod aelodau yn cadarnhau pa ddarpariaeth pellach sydd ei angen o flaen llaw cyn cyfarfod o'r pwyllgor hwn ym mis Medi.

**CLARE J WILLIAMS**
**PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU)** **16 GORFFENNAF 2013**

## RHAGYMADRODD EGLURHAOL

### 1. RHAGARWEINIAD

Mae Datganiad Cyfrifon 2012/13 wedi cael ei baratoi gan ddefnyddio'r arferion cyfrifo gorau a bennwyd gan Y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA). Mae'r rhagair yn cynnig canllawiau dealladwy ar y materion pwysicaf yr adroddir arnynt yn y Cyfrifon ynghyd â throsolwg o sefyllfa ariannol y Cyngor yn gyffredinol.

Mae Cyfrifon Cyngor Sir Ynys Môn am 2012/13 yn cynnwys yr isod-

- **Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon –** mae'n nodi cyfrifoldebau'r Cyngor a Swyddog Adran 151 y Cyngor, y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau);

- **Datganiad Llywodraethu Corfforaethol** – mae'n nodi'r fframwaith ar gyfer rheoli ac adolygu llywodraethiant corfforaethol, gan gynnwys trefniadau ar gyfer archwilio mewnol.

- **Datganiadau Ariannol** – mae'r Datganiad Cyfrifon yn cynnwys pedwar o ddatganiadau ariannol sylfaenol, sef:-

  a) **Datganiad o'r Symudiad mewn Arian Wrth Gefn (MIRS)** – sy'n dangos y symudiad yn ystod y flwyddyn yn y gwahanol gronfeydd wrth gefn sydd gan y Cyngor wedi ei ddadansoddi yn ôl arian wrth gefn y gellir ei ddefnyddio ac arian wrth gefn nad yw ar gael i'w ddefnyddio;

  b) **Y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES)** – sy'n dangos y gost o ddarparu gwasanaethau yn ystod y flwyddyn gan ddefnyddio arferion cyfrifo a dderbynnir yn hytrach na'r swm fydd yn cael ei gyllido o drethiant a grantiau cyffredinol yn unol â rheoliadau statudol;

  c) **Y Fantolen** - sy'n nodi sefyllfa ariannol y Cyngor ar 31 Mawrth 2013 fel y cafodd ei hadlewyrchu yn lefel y balansau a'r arian wrth gefn sydd ar gael i'r Cyngor ynghyd â lefel yr asedau a'r ymrwymiadau a ddelir gan y Cyngor;

  ch) **Datganiad Llif Arian** – sy'n crynhoi'r llif arian i mewn ac allan yn ystod y flwyddyn, yn codi o drafodion gyda thrydydd bartïon i ddibenion refeniw a chyfalaf.

- **Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol –** y bwriedir iddynt egluro'r ffigyrau allweddol a ddangosir yn y datganiadau ariannol. Mae'r nodiadau'n cynnwys y Datganiad ar Bolisïau Cyfrifon sy'n cefnogi ac yn egluro sail y ffigyrau yn y Cyfrifon ac yn nodi'r polisïau cyfrifo pwysicaf a'r technegau amcangyfrifo a ddefnyddir i baratoi'r Cyfrifon.

### 2. FFRAMWAITH STATUDOL

Yn unol â Rheoliad 7 Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 (OS 2005/368 (W.34), fel y cafodd ei ddiwygio), rhaid i awdurdodau lleol yng Nghymru baratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â'r arferion priodol.

Rheoliad 25 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifo) mae Rheoliad 2003 (OS 2003/3239 (W.319), fel y cafodd ei ddiwygio), yn nodi mai'r Côd Ymarfer ar Gyfrifon Cynghorau Lleol 2012/13 a gyhoddwyd gan CIPFA, sy'n cynrychioli arferion priodol.

## 3. NEWIDIADAU YN Y DRINIAETH GYFRIFO

Nid oedd angen gwneud unrhyw newidiadau i'r driniaeth gyfrifo yn 2012/13 ac o'r herwydd, ni wnaed unrhyw newidiadau i'r polisïau cyfrifo sy'n cael eu defnyddio yn y Cyngor.

## 4. GWARIANT AC INCWM REFENIW 2012/13

### Beth yw Gwariant ac Incwm Refeniw?

Yn gyffredinol, mae gwariant ac incwm refeniw yn cyfeirio at eitemau a ddefnyddir mewn blwyddyn ariannol. Cyn cychwyn blwyddyn ariannol, mae'r Cyngor yn paratoi ei gyllideb refeniw blynyddol sy'n adlewyrchu'r gwariant a'r incwm y disgwylir y bydd eu hangen yn ystod y flwyddyn i ddarparu gwasanaethau.

### Y swm yr oeddem yn bwriadu ei wario

Roedd cyfanswm y gyllideb refeniw a gymeradwywyd gan y Cyngor ar gyfer 2012/13 yn £119m, ar ôl cynnwys grant cyffredinol o £0.729m a defnyddio £1.2m o'r balansau. Roedd hyn i'w gyllido o Grant Cymorth Refeniw'r Cyngor gan Lywodraeth Cymru, sef £73.544m, derbyniadau o'r Gronfa Trethi Cenedlaethol Annomestig, sef £18.787m, a derbyniadau Treth Gyngor o £26.704m.

### Y swm a wariwyd mewn gwirionedd

#### a) Gwasanaethau Cronfa'r Cyngor

Roedd y gyllideb refeniw net am 2012/13 yn £119m a oedd yn cynnwys gostyngiadau o £3.7m mewn gwariant a defnyddio £1.2m o'r arian wrth gefn. Roedd y rhagamcanion ar gyfer chwarter 3 a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 18 Chwefror 2013 yn nodi y byddai gorwariant sylweddol yn bennaf oherwydd y pwysau ar y cyllidebau Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol. Bryd hynny, nodwyd camau gweithredu i gyfyngu'r gorwariant i £1m erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Derbyniodd Pwyllgor Gwaith y Cyngor adroddiad ar y canlyniadau dros dro yn ei gyfarfod ar 10 Mehefin 2013 a oedd yn nodi tanwariant net o £1.1m, gwelliant o £2.1m o gymharu â'r sefyllfa yr adroddwyd arni yn chwarter 3. Y ffactor mwyaf a oedd yn cyfrannu at y gwelliant hwn oedd y gwelliant sylweddol a welwyd yn y sefyllfa gyllidebol o ran Addysg, lle daeth gorwariant rhagdybiedig o £0.774m yn chwarter 3 yn danwariant o £0.09m ar adeg cyhoeddi'r canlyniadau. Y tu draw i hyn, yn hytrach na nifer fechan o symudiadau mawr, gwelwyd patrwm cyson o symudiadau mwy cyfyngedig ar draws yr holl benawdau cyllidebol oherwydd:

- Moratoriwm gwario ar rai mathau o wariant yn ystod rhan olaf y flwyddyn;
- Cyfyngiadau cyffredinol ar wariant gan wasanaethau mewn ymateb i sefyllfa ariannol rhagamcanedig y Cyngor;
- Dull pwyllgor o ragamcanu'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn gan y sawl a oedd yn dal cyllidebau a staff cyllid er mwyn osgoi gorwariannau annisgwyl yn ystod y flwyddyn.

Ceir mwy o fanylion am wariant gwasanaethau unigol yn y paragraffau canlynol.

**Dysgu Gydol Oes**

- Rhagwelir gorwariant o £0.358m yng Nghyllideb Integreddio'r Adran Addysg;
- Grant ychwanegol o £0.230m wedi ei dderbyn i gyllido lleoedd chweched dosbarth;
- Tanwariant o £0.093m yn y Gwasanaeth Ieuenctid;
- Gwelliant yng nghost net y gwasanaeth prydau ysgol, sydd £0.2m yn well na'r gyllideb.

**Gwasanaethau Cymunedol**

- Gorwariant net o £0.303m yn yr Adain Plant a Theuluoedd. Mae hyn oherwydd cynnydd yn nifer a chostau'r Plant y Gofelir Amdanynt sy'n achosi gorwariant o £0.663m, a chostau ychwanegol staff asiantaeth o £0.160m. Mae'r gorwariant wedi cael ei wrthbwyso gan arbedion o £0.532m - £0.179m mewn costau maethau a mabwysiadu, £0.203m mewn Gweithgareddau a Gwasanaethau Eraill i Deuluoedd a £0.150m yn sgil cau Canolfan Queen's Park;
- Gorwariant net o £0.381m yn yr Uned Ddarparu yn bennaf oherwydd cynnydd yng nghostau cartrefi preswyl, cyfleusterau Teleofal a Thai Gwarchod;
- Gorwariant net o £0.068m yn y Gwasanaethau Hamdden a Chymuned yn bennaf oherwydd gorwariant o £0.097m mewn perthynas â'r Parciau a Chyfleusterau Agored, £0.049m yn yr Archifau a £0.065m yn yr Amgueddfeydd. Mae'r gorwariannau hyn wedi cael eu gwrthbwyso gan arbediad o £0.111m yng nghostau rhedeg y canolfannau hamdden.

**Datblygiad Cynaliadwy**

- Mae arbediad o £0.143m yng ngostau'r gwasanaeth Cynllunio a Gwasanaethau Amgylcheddol i'w briodoli'n bennaf i'r ffaith fod rhai ffrydiau incwm yn y gwasanaeth wedi gor-gyflawni;
- Gwarged net o £0.180m yn y Gwasanaethau Eiddo yn codi o arbedion o £0.096m yn y contract glanhau a £0.074m mewn gweithgareddau eraill yn ymwneud ag eiddo;
- Arbedion o £0.254m yn yr Adran Briffyrdd a Drafnidiaeth yn bennaf oherwydd arbedion o £0.191m yng nghostau goleuadau stryd a £0.102m yn y Cyfrif Gweinyddu Gwaith;
- Arbedion o £0.270m yn y Gwasanaethau Gwastraff oherwydd gostyngiadau o £0.198m yng ngost net rheoli Safle Penhesgyn ac arbediad net bychan o £0.072m mewn gwasanaethau gwastraff eraill.

**Dirprwy Brif Weithredwr**

- Arbediad o £0.254m yng ngostau gweithredol y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu oherwydd arbedion staffio.

**Risgiau Corfforaethol**

- Gostyngiad sylweddol yng ngost darparu lleoedd Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol yn all-sirol sydd wedi arwain at arbedion o £0.149m a £0.333m yn y drefn honno;
- Gostyngiad o £0.183m yng nghostau budd-daliadau tai oherwydd newid yn lefel ddisgwyliedig y cymhorthdal i'w dderbyn mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2011/12.

Roedd y gwelliant cyffredinol yn y canlyniadau dros dro ar gyfer 2012/13 yn golygu y byddai'r angen i ddefnyddio arian wrth gefn clustnodedig a balansau cyffredinol o £1.2m ar gyfer y flwyddyn yn gostwng i £0.092m gan felly ryddhau adnoddau i helpu'r Gyngor gwrdd ag unrhyw ddiffyg cyllidol yn codi o'r cyfyngiadau cyfredol ar arian y sector cyhoeddus.

Ers hynny, mae'r ffigyrau wedi cael eu cwblhau ac maent yn dangos gwelliant pellach gyda'r balans cyffredinol yn codi gan £0.212m.

**b) Cyfrif Refeniw Tai**

Mae'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT) yn nodi costau ac incwm a wariwyd ac a dderbyniwyd mewn perthynas â stoc dai y Cyngor ei hun. Yn 2012-13, llwyddwyd i gyllido'r holl wariant gweithredol o'r cyfrif a gwnaed cyfraniadau cyfalaf o £2m tuag at y gwaith o gynnal a chadw ac uwchraddio'r stoc yn y tymor hir tra'n cadw balans gweithio o £0.250m.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar y CRT ar gael yn y Datganiadau Atodol i'r Cyfrifon ar dudalen 78.

**Defnydd o arian wrth gefn refeniw a balansau**

**Cronfa'r Cyngor**

Rhagdybiwyd yng nghyllideb 2012/13 y byddid yn cymryd £0.9m o falansau Cronfa'r Cyngor i gefnogi gwasanaethau. Dengys y canlyniadau fod Cronfa'r Cyngor ar 31 Mawrth 2013 wedi cynyddu gan £0.212m o £5.796m i £6.008m. Gellir gweld symudiadau yn ystod y flwyddyn yng Nghronfa'r Cyngor yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Arian Wrth gefn ar dudalen 12.

**Cronfeydd wrth Gefn a Clustnodedig**

Ar 1 Ebrill 2012, roedd gan y Cyngor £12.882m o Gronfeydd wrth Gefn Clustnodedig. Rhagdybiodd cyllideb 2012/13 y byddai £0.3m yn cael ei dynnu o'r Cronfeydd wrth gefn Clustnodedig i Gefnogi'r Gyllideb refeniw. Mae'r canlyniadau gwell wedi arwain at godiad sylweddol yng ngwerth y cronfeydd wrth gefn clustnodedig sydd bellach werth £17.402m, cynnydd o £4.520m yn y flwyddyn. Mae'r gwelliant i'w briodoli'n bennaf i newid technegol yn y categoreiddiad o £2.1m o incwm grant wedi ei neilltuo i bwrpas penodol (fe'i dangoswyd eisoes yn y cyfrif fel blaen dderbyniadau), cynnydd net o £1.1m yng nghronfeydd wrth gefn gwasanaethau eraill a chreu cronfa wrth gefn o £0.860m ar gyfer gwaith trwsio mawr yn y Cyfrif Refeniw Tai.

**Balansau Ysgolion**

Mae defnydd o gronfeydd wrth gefn yr ysgolion yn cael ei gyfyngu i'r defnydd hwnnw a gymeradwywyd gan yr ysgolion unigol ac mae'r sefyllfa'n amrywio o ysgol i ysgol. Roedd gan deg o ysgolion ddiffyg ar ddiwedd y flwyddyn ariannol (undeg pedwar ar ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf) ac mae nifer o ysgolion eraill yn rhagweld diffyg yn y blynyddoedd i ddod.

Yn ystod y flwyddyn, arweiniodd gwariant net gan ysgolion at ostyngiad yn eu cronfeydd wrth gefn (cyfanswm) gan £0.068m, fel bod cyfanswm cronfeydd wrth gefn ysgolion ar 31 Mawrth 2013 yn £1.18m (£1.25m yn 2011/12). Gweler manylion ynghylch gwerth y cronfeydd wrth gefn fesul y math o ysgol yn nodyn 9 y Cyfrifon ar dudalen 37.

**Balans y CRT**

Roedd balans y CRT yn £0.25m ar 31 Mawrth 2013, cynnydd o £0.003m o gymharu â'r balans o £0.247m ar 31 Mawrth 2012, sydd yn lefel dderbyniol ar gyfer balans y CRT.

## GWARIANT CYFALAF 2012/13

**Beth yw Gwariant Cyfalaf?**

Mae gwariant cyfalaf yn golygu cost darparu neu wella asedau neu wariant arall lle mae'r manteision yn parhau y tu draw i'r flwyddyn ariannol dan sylw.

**Yr hyn yr oeddem wedi bwriadu ei wario**

Cymeradwyodd y Cyngor raglen gyfalaf o £32.274m ar gyfer 2012/13, yn bennaf i gwrdd ag ymrwymiad y Cyngor i ddod a'i stoc dai i fyny i Safonau Ansawdd Tai Cymru (SATC) ac i weithredu prosiectau pwysig sef ail-leoli Ysgol y Bont, menter adfywio'r 3 tref a gwaith gwella ar y mân-ddaliadau.

**Yr hyn a wariwyd gennym mewn gwirionedd**

Rhoes y Pwyllgor Gwaith sylw i adroddiad ar ganlyniadau cyfalaf yn ei gyfarfod ar 10 Mehefin 2013, a ddangosodd bod y Cyngor wedi gwario £25.4m mewn gwirionedd ar brosiectau cyfalaf yn 2012/13. Mae manylion gwariant yn erbyn cyllidebau prosiect unigol fel a ganlyn:

| Prosiect | Cyllideb ar gyfer 2012/13 £000 | Gwariant Gwirioneddol yn 2012/13 £000 | Amrywiad yn y Flwyddyn £000 | Gwariant Cronnol £000 | Cyfanswm y Gyllideb ar gyfer Prosiectau £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ail-leoli Ysgol Y Bont, | 6,203 | 4,335 | (1,868) | 4,562 | 10,932 |
| Y Stoc Dai – SATC | 6,650 | 7,378 | 728 | 28,470 | 35,000 |
| Prosiectau Tai Cyngor Eraill | 3,150 | 1,373 | (1,777) | 1,373 | 3,150 |
| Tai Cronfa'r Cyngor | 2,315 | 1,088 | (1,227) | 1,088 | 2,315 |
| Adfywio'r 3 Tref | 1,601 | 669 | (932) | 4,765 | 8,248 |
| Yr amgylchedd arfordirol | 502 | 538 | 36 | 4,718 | 4,590 |
| Safle Mwynderau Dinesig Penhesgyn | 992 | 986 | (6) | 986 | 1,000 |
| Mân-ddaliadau – gwaith gwella | (546) | 1,043 | 1,589 | 3,489 | 6,300 |
| Menter Benthyca Llywodraeth Leol | 1,700 | 1,795 | 95 | 1,796 | 5,300 |
| Isadeiledd Strategol Eraill ar Ynys Môn | 150 | 0 | (150) | 0 | 2,013 |
| Arall | 9,557 | 6,223 | (3,334_ | 3,334 | 9,557 |
| **Cyfanswm** | **32,274** | **25,428** | **(6,846)** | **54,581** | **88,405** |

Roedd cyfanswm y gwariant cyfalaf, sef £25.428m, yn llai gan £6.846m na'r gyllideb a gymeradwywyd ar gyfer y rhaglen gyfalaf. Y prif resymau am y tan/gorwariant yw:

- Mae'r gwaith o godi'r adeilad newydd yn Ysgol y Bont ar ei hôl hi oherwydd oedi yn sgil yn dywydd mawr. Disgwylir yn awr y bydd yr adeilad wedi'i gwblhau ym mis Ionawr 2014;
- Mae gwaith effeithlonrwydd ynni yn nhai'r Cyngor ar ei hôl hi a bydd yn llithro i 2013/14 oherwydd oedi contractyddol gyda chyflenwyr allanol;
- Mae oedi gyda chymeradwyo strategaeth adfywio newydd y Cyngor a ddigwyddodd at ddiwedd 2012, wedi arwain at lithriad sylweddol yn y rhaglen grantiau gwella;
- Mae estyniad amser ar gyfer Cynllun y Tair Tref i 2015/16 wedi arwain at lithriad sylweddol o ran gwariant ar y prosiect;
- Mae gwaith gwella ar y mân-ddaliadau yn dangos gorwariant sylweddol o gymharu â'r gyllideb. Mae hun oherwydd y ffaith y bwriedir i'r rhaglen fod yn hunangyllidol a chael ei chyllido o werthu'r eiddo. Disgwylir y bydd y sefyllfa yn cywiro ei hun yn ystod 2013/14 pryd disgwylir i'r incwm fod yn llawer uwch na chost y gwaith;
- Roedd y gyllideb ar gyfer Cynlluniau Eraill yn cynnwys £0.9m ar gyfer y rhaglen ysgolion yr 21ain ganrif sydd wedi cael ei gohirio hyd 2013/14. Mae'r tanwariannau eraill yn ymwneud â llithriad ar Gynlluniau Priffyrdd (£0.523m), Gwasanaethau eiddo (£0.676m) a Chynlluniau Adrannol eraill (£1.248m) i 2013/14.

**Sut y talwyd am y rhaglen gyfalaf**

Mae cyllido'r Rhaglen Gyfalaf yn dibynnu ar adnoddau grantiau, derbyniadau cyfalaf a ragwelir ac ar lefel o fenthyca sy'n agos at y lefel a dybiwyd gan Lywodraeth Cymru wrth weithio allan y gefnogaeth refeniw.

Mae nifer fechan o brosiectau wedi cael eu cymeradwyo ar gyfer benthyciadau di-gefnogaeth i'w cyllido drwy gyllidebau neu ffynonellau incwm newydd. Y mwyaf nodedig o'r rhain yw'r prosiect SATC Tai sydd wedi cael ei gyllido'n rhannol yn y modd hwn ers 2010.

| | Cronfa'r Cyngor £000 | Cyfrif Refeniw Tai £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|
| **Gwariant Cyfalaf** | **16,677** | **8,751** | **25,428** |
| | | | |
| Grantiau a Chyfraniadau | 8,518 | 2,600 | 11,118 |
| Cyfraniadau Refeniw | 1,209 | 2,000 | 3,209 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 929 | 30 | 959 |
| Benthyca gyda Chefnogaeth | 3,084 | 0 | 3,084 |
| Benthyca Di-gefnogaeth | 2,937 | 4,121 | 7,058 |
| **Cyfanswm y Cyllid** | **16,677** | **8,751** | **25,428** |
| | | | |
| **Yr Adnoddau oedd ar gael ar 31 Mawrth 2013** | | | |
| Cronfa Wrth Gefn ar gyfer Gwariant Cyfalaf | 1,000 | 0 | 1,000 |
| Cronfa Wrth Gefn ar gyfer Gwella Cyfleusterau | 196 | 0 | 196 |
| Hamdden | 2,901 | 0 | 2,901 |
| Benthyca gyda chefnogaeth a ddygwyd ymlaen | **4,097** | **0** | **4,097** |
| **Cyfanswm ar gael** | | | |

Roedd gwerth £6.8m o ymrwymiadau cyfalaf yn weddill ar ddiwedd y flwyddyn. Mae cronfeydd wrth gefn cyfalaf o £1m a chapasiti benthyca a gymeradwywyd ac sydd heb ei ddefnyddio o £2.9m wedi cael eu rhoddi o'r neilltu i gwrdd yn rhannol â'r ymrwymiadau hyn. Rhagwelir y bydd balans gweddilliol yr ymrwymiadau cyfalaf cyfredol a chostau prosiectau newydd sy'n cael eu dwyn ymlaen yn y blynyddoedd i ddod yn cael eu cyllido o grantiau cyfalaf, derbyniadau a ragwelir o werthu asedau a benthyciadau.

## BENTHYCIADAU A BUDDSODDIADAU

Ni aeddfedodd unrhyw fenthyciadau yn ystod y flwyddyn ac ni chymerwyd unrhyw fenthyciadau tymor hir newydd oherwydd penderfynwyd mai defnyddio balansau arian oedd y peth gorau i'w wneud yn yr hinsawdd economaidd gyfredol. Arweiniodd hyn at fenthyciadau allanol o £96.1m ar ddiwedd y flwyddyn, dim newid i'r balans ar 31 Mawrth 2012 gan arwain at fenthyca allanol ar gyfartaledd yn 2012/13 o 5.53% - dim newid i'r sefyllfa fel yr oedd yn 2011/12.

O ganlyniad i'r trafodion hyn a newidiadau mewn dyledwyr, credydwyr ac eitemau eraill, roedd gostyngiad yng nghyfanswm y buddsoddiadau a'r arian parod ar ddyddiad y fantolen o £3.8m i £12.4m erbyn diwedd y flwyddyn, a hynny'n rhannol o ganlyniad i gynnydd yn dyledwyr tymor byr.

## Y FANTOLEN AR 31 MAWRTH 2013

Mae gwerth net y Cyngor yn y fantolen wedi gostwng gan £18.9m dros y flwyddyn, yn bennaf oherwydd cynnydd o £18.4m yn rhwymedigaethau pensiwn net y Cyngor (cynnydd o £17.1m yn 2011/12). Mae'r datganiad yn datgelu rhwymedigaeth net dybiedig o £82.1m (£63.7m yn 2011/12) o ran pensiynau. Mae'r amcangyfrif hwn yn ddibynnol iawn ar y rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd ac roedd modd priodoli'r rhan fwyaf o'r gostyngiad yn ystod y flwyddyn i logau is ar fondiau a dychweliadau gwael ar fuddsoddiadau. Mae'r gwariant rhagdybiedig ar bensiynau ar gyfer y flwyddyn nesaf hefyd wedi codi am yr un rhesymau ac yn golygu gostyngiad yn y dychweliadau a ddisgwylir ar asedau.

**EITEMAU O BWYS**

Yr asesiad gorau o gadernid ariannol yw y graddau y mae'r Awdurdod wedi gwneud darpariaeth ar gyfer ymrwymiadau y gwyddys amdanynt a maint yr arian wrth gefn dosbarthadwy sydd ar gael i ddarparu ar gyfer risgiau ac ansicrwydd arall. Mae'r Cyngor wedi gwneud darpariaeth lawn ar gyfer yr holl ymrwymiadau a nodwyd lle bynnag y mae arferion cyfrifo priodol yn mynnu hynny. Mae'r amgylchiadau y mae angen gwneud darpariaeth benodol ar eu cyfer yn cael eu nodi yn eitem 13 dan Nodyn 1 y Datganiad. Mae cronfeydd wrth gefn clustnodedig wedi cael eu sefydlu lle mae eu hangen i gwrdd â gofynion statudol neu reoleiddiol, oherwydd amodau grant, yn unol â chynlluniau penodol y Cyngor neu lle mae'n beth doeth gwneud hynny er mwyn caniatáu ar gyfer risgiau ac aniscrwydd. Fel y dywedwyd uchod, roedd y Cyngor yn wreiddiol wedi cynllunio i ddefnyddio £1.2m o'r balansau i gefnogi gwariant yn 2012-13 ond oedd y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn mewn gwirionedd yn dangos cynnydd o £0.212m yn y balansau i ychydig dros £6m a oedd yn cryfhau'n sylweddol sefyllfa ariannol sylfaenol y Cyngor. Er y byddem yn croesawu'r newyddion hwn ar unrhyw adeg, mae'n newyddion da iawn ar adeg pan mae'r Cyngor yn ymgymryd â rhaglen o drawsnewid corfforaethol ac yn cynllunio i gwrdd â sefyllfa economaidd ac ariannol sy'n gynyddol heriol.

Yn yr Arian Wrth Gefn Clustnodedig o £17.4m (£12.8m ar 31 Mawrth 2012), mae £2.7m (£2.0m ar 31 Mawrth 2012) wedi cael ei roddi o'r neilltu ar gyfer costau yn sgil gweithredu Statws Sengl ac Arfarnu Swyddi, er nad yw hyn yn amcangyfrif o rwymedigaeth gwirioneddol. Yn ychwanegol at hyn, mae £9.4m pellach wedi cael ei nodi i ddibenion penodol (e.e. Cronfa Yswiriant o £2.4m) neu arian sydd wedi ei glusnodi'n benodol oherwydd amodau grant. Mae balansau'r ysgolion yn £1.1m (£1.2m ar 31 Mawrth 2012) ac mae balans y CRT yn £0.25m (dim newid ers Mawrth 2012).

**PENSIYNAU**

- **CYNLLUN PENSIYNAU ATHRAWON**

  Mae athrawon a gyflogir gan y Cyngor yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Athrawon a weinyddir gan yr Adran Addysg. Mae'r cynllun yn rhoddi i athrawon fuddion penodol ar adeg eu hymddeoliad ac mae'r Cyngor yn cyfrannu tuag at y costau drwy wneud cyfraniadau yn seiliedig ar gyfran o gyflog pensiynadwy'r aelodau.

- **CYNLLUN PENSIWN LLYWODRAETH LEOL**

  Fel rhan o delerau ac amodau cyflogi ei swyddogion a gweithwyr eraill, mae'r Cyngor yn cynnig buddion ymddeoliad drwy fod yn rhan o Gynllun Pensiwn Gwynedd a weinyddir gan Gyngor Sir Gwynedd. Mae hwn yn gynllun a gyllidir, sy'n golygu bod y Cyngor a'r gweithwyr yn talu cyfraniadau i gronfa, wedi ei glandro ar lefel y bwriedir iddi falansio'r ymrwymiadau pensiwn gydag asedau buddsoddi. Ni fydd buddion yn daladwy mewn gwirionedd hyd oni fydd swyddogion yn ymddeol ond mae'r Cyngor wedi ymrwymo i wneud y taliadau i'r gronfa bensiwn y mae angen eu datgelu ar yr adeg y bydd y gweithwyr yn cael y buddion yn y dyfodol.

  Safon Gyfrifo Rhyngwladol (IAS) 19 – Buddion Gweithwyr sy'n berthnasol i bob awdurdod lleol ac sy'n berthnasol i Gronfa Bensiwn Llywodraeth Leol Gwynedd a weinyddir gan Gyngor Sir Gwynedd. Caiff yr ymrwymiad pensiwn net ei gydnabod yn y fantolen ac mae wedi cynyddu gan £18.4m o £63.7m i £82.1m yn ystod 2012/13. Caiff ymrwymiad gwirioneddol y Cyngor ei adolygu bob tri blynedd fel rhan o'r prisiad a gynhelir bob tri blynedd o'r Gronfa Bensiwn a phenderfynir ar strategaeth buddsoddi sy'n anelu at adennill y diffyg dros gyfnod penodol (25 o flynyddoedd ar hyn o bryd). Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad yw hyn yn galw am gyfraniad ar unwaith o arian wrth gefn y Cyngor gan mai swm tybiannol ydyw sy'n dangos faint yn fwy yw ymrwymiadau pensiwn y Cyngor nag asedau'r Gronfa.

Mae'r Datganiad Symudiadau yn yr Arian wrth Gefn a'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn dangos y buddion pensiwn a gafwyd yn y flwyddyn wedi eu haddasu yn ôl yr angen i adlewyrchu'r rhan honno o'r costau pensiwn nad ydynt yn cael eu talu gan drethdalwyr y Cyngor.

**DARPARIAETHAU**

Roedd cyfanswm y darpariaethau yr oedd y Cyngor yn eu dal yn £6.438m ar 1 Ebrill 2012. Yn ystod y flwyddyn, cynyddodd y balans gan £0.523m i £6.961m yn bennaf oherwydd yr angen i ddarparu darpariaeth ychwanegol i gwrdd ag ymrwymiadau mewn perthynas â Chynllun Trefniant MMI ac i gwrdd â chyfrifoldebau cynyddol o ran cyflogau cyfartal.

Ceir manylion am y symudiadau yn y darpariaethau yn nodyn 27 y Cyfrifon ar dudalen 50.

**YMRWYMIADAU WRTH GEFN**

Caiff nifer o ymrwymiadau wrth gefn eu datgan yn y cyfrifon mewn perthynas â digwyddiad a all olygu ymrwymiad i'r Cyngor ond na fydd yr ymrwymiadau hynny ond yn cael eu cadarnhau pan fydd y digwyddiad wedi cymryd lle neu fel arall ddigwyddiadau nad oes sicrwydd yn eu cylch yn y dyfodol ac nad ydynt yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth y Cyngor. Mae gwerth yr ymrwymiadau posibl hyn a'r tebygolrwydd y bydd angen arian i gwrdd â'r ymrwymiadau hyn yn ansicr ar hyn o bryd. Ar gyfer 2012/13, roedd y datganiadau'n cynnwys:

- Hawliadau Tâl Cyfartal, Statws Sengl ac Arfarnu Swyddi;
- Adennill taliadau a wnaed gan y Cyngor dan Adran 117 Deddf Iechyd Meddwl 1983;
- Ymrwymiad contractyddol o bosib yn codi o atgyweirio Pier Biwmares.

Ceir manylion llawn am yr ymrwymiadau wrth gefn hyn yn nodyn 42 y Cyfrifon ar dudalen 69.

**ASEDAU WRTH GEFN**

Mae'r Cyngor yn cadw nifer o bridiannau cyfreithiol dros eiddo preswyl preifat lle rhoddodd gefnogaeth i'r prynwyr dan gynlluniau ar gyfer cymorth i brynu cartrefi, gyda hawl gan y Cyngor i gyfran o'r derbyniadau ar adeg gwerthu'r eiddo. Ceir manylion pellach yn nodyn 43 y Cyfrifon ar dudalen 70.

## DATGANIAD O'R SYMUDIAD MEWN CRONFEYDD WRTH GEFN AR GYFER Y FLWYDDYN SY'N GORFFEN 31 MAWRTH 2013

Dengys y Datganiad hwn y symudiad o fewn y flwyddyn mewn gwahanol gronfeydd wrth gefn a ddelir gan y Cyngor, wedi eu dadansoddi'n 'Gronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy' (h.y. y rhai hynny y gellir eu defnyddio i ariannu gwariant neu leihau trethi lleol) a chronfeydd wrth gefn eraill. Mae'r llinell 'Gwarged neu (Diffyg) ar ddarpariaeth gwasanaethau' yn dangos y gwir gost economaidd o ddarparu gwasanaethau'r Cyngor, gyda manylion pellach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae'r hwn yn wahanol i'r symiau statudol y mae'n rhaid eu codi ar Falans Cronfa'r Cyngor i bwrpas pennu'r Dreth Gyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai i bwrpas pennu rhenti. Mae'r llinell 'Cynnydd/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i gronfeydd statudol ac wrth gefn eraill' yn dangos balans statudol Cronfa'r Cyngor a'r Gronfa Refeniw Tai cyn gwneud unrhyw drosglwyddiadau dewisol i neu o'r cronfeydd statudol ac wrth gefn eraill a gyflawnir gan y Cyngor.

| | Balans Cronfa'r Cyngor | Cronfeydd wrth Gefn Cronfa'r Cyngor a Glustnodwyd (Nodyn 8) | Balans Cyfrif Refeniw Tai (Nodyn CRT) | Cronfa wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf (Nodyn 23) | Balansau Ysgolion (Nodyn 23) | Cronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd (CRT) | **Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Deffiniad** | **Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Na ellir eu defnyddio** | **Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn yr Awdurdod** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| **Balans ar 1 Ebrill 2011** | **6,743** | **11,645** | **255** | **0** | **2,246** | **0** | **20,889** | **168,264** | **189,153** |
| **Symudiad yn y Cronfeydd wrth Gefn yn ystod y flwyddyn** | | | | | | | | | |
| Gwarged/(Diffyg) ar ddarparu gwasanaethau | (3,520) | 0 | (4,957) | 0 | 0 | 0 | **(8,477)** | **0** | **(8,477)** |
| Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | **(17,080)** | **(17,080)** |
| **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | **(3,520)** | **0** | **(4,957)** | **0** | **0** | **0** | (8,477) | (17,080) | (25,557) |
| Addasiadau rhwng y Sail gyfrifo a sail gyllido dan y rheoliadau (nodyn X) | 2,816 | 0 | 4,949 | 0 | 0 | 0 | **7,765** | **(7,765)** | **0** |
| **Cynnydd/(Gostyngiad) Net cyn Trosglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd** | **(704)** | **0** | **(8)** | **0** | **0** | **0** | (712) | (24,845) | (25,557) |
| Trosglwyddiadau i/(o) Gronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd | (243) | 1,237 | 0 | 0 | (994) | 0 | **0** | **0** | **0** |
| **Cynnydd/(Gostyngiad) yn y flwyddyn** | **(947)** | **1,237** | **(8)** | **0** | **(994)** | **0** | (712) | (24,845) | (25,557) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2012** | **5,796** | **12,882** | **247** | **0** | **1,252** | **0** | **20,177** | **143,419** | **163,596** |
| **Symudiad yn y Cronfeydd wrth Gefn yn ystod y flwyddyn** | | | | | | | | | |
| (Diffyg) ar ddarparu gwasanaethau | 4,766 | 0 | (4,474) | 0 | 0 | 0 | **292** | **0** | **292** |
| Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | **(19,204)** | **(19,204)** |
| **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | **4,766** | **0** | **(4,474)** | **0** | **0** | **0** | 292 | (19,204) | (18,912) |
| Addasiadau rhwng y Sail gyfrifo a sail gyllido dan y rheoliadau (nodyn 7) | (1,118) | 0 | 5,493 | 14 | 0 | 0 | **4,389** | **(4,389)** | **0** |
| **(Gostyngiad) Net cyn Trosglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd** | **3,648** | **0** | **1,019** | **14** | **0** | **0** | 4,683 | (23,595) | (18,912) |
| Trosglwyddiadau i / (o) Cronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd | (3,436) | 3,504 | (1,016) | 0 | (68) | 1,016 | **0** | **0** | **0** |
| **Cynnydd/(Gostyngiad) yn y flwyddyn** | **212** | **3,504** | **3** | **14** | **(68)** | **1,016** | 4,683 | (23,595) | (18,912) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2013** | **6,008** | **16,386** | **250** | **14** | **1,184** | **1,016** | **24,858** | **119,826** | **144,684** |

## NODYN 3 - BARNAU ALLWEDDOL WRTH WEITHREDU'R POLISÏAU CYFRIFO

Wrth weithredu'r polisïau cyfrifo a restrir yn Nodyn 1, mae'r Cyngor wedi gorfod gwneud barnau penodol ynglŷn â thrafodion cymhleth neu rheini sydd yn cynnwys ansicrwydd am ddigwyddiadau yn y dyfodol. Y barnau allweddol sydd wedi eu gwneud yn y Datganiad Cyfrifon yw:

- Mae'r Cyfrifon wedi cael eu paratoi mewn modd sy'n tybio y bydd y swyddogaeth a'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor yn parhau i fod yn weithredol am y dyfodol rhagweladwy;
- Mae'r Cyngor wedi penderfynu nad yw asedau a ddefnyddir i ddibenion datblygu economaidd, e.e. stadau diwydiannol, yn cael eu dal i bwrpas creu incwm neu gynyddu cyfalaf yn unig ac o'r herwydd nid ydynt yn cael eu hystyried fel eiddo buddsoddiad. O ganlyniad, caiff yr asedau hyn eu nodi fel Eiddo, Cyfarpar ac Offer ar y Fantolen;
- Yn unol â'r canllawiau cyfredol ynghylch y modd yr ymdrinnir â rhai mathau o ysgolion, dim ond gwerth tir ysgolion a reolir yn wirfoddol ac ysgolion sefydledig sy'n cael ei gynnwys ar y Fantolen. Oherwydd nad yw'r Cyngor yn berchen ar ysgolion o'r fath ac oherwydd nad oes ganddo fynediad iddynt i bwrpas eu prisio, nid yw gwerth yr adeiladau wedi ei gynnwys ar y Fantolen;
- Caiff grantiau cyfalaf a refeniw eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn penderfynu a oedd unrhyw amodau ynghlwm wrth y grantiau yn dweud y bydd rhaid eu had-dalu oni fydd modd bodloni'r amodau hynny. Mae hyn wedi cael effaith ganlyniadol ar y symiau a ddelir ar y Fantolen ac wedi cael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr;
- Mae lefel uchel o ansicrwydd am lefelau cyllido i lywodraeth leol yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi penderfynu nad yw'r ansicrwydd yn ddigonol i roi arwydd y bydd amhariad ar asedau'r Cyngor o ganlyniad i'r angen i gau cyfleusterau a gostwng lefelau o ran darparu gwasanaeth.

## NODYN 4 - RHAGDYBIAETHAU A WNAED YNGHYLCH ANSICRWYDD YN Y DYFODOL O RAN AMCANGYFRIFON A FFYNONELLAU ERAILL O ANSICRWYDD

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cynnwys ffigyrau wedi eu hamcangyfrif yn seiliedig ar dybiaethau wedi eu gwneud gan yr Awdurdod am y dyfodol neu sydd yn ansicr fel arall. Gwneir amcangyfrifon trwy ystyried profiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan na ellir pennu rhai balansau yn bendant, gall y canlyniadau terfynol fod yn wahanol i'r tybiaethau ac amcangyfrifon.

Gellir ystyried yr eitemau canlynol ar Fantolen y Cyngor ar 31 Mawrth 2013 fel rhai sydd fwyaf agored i risg o gamgymeriad amcangyfrif yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod:

**Eiddo, Offer a Chyfarpar** - Mae asedau yn cael eu dibrisio dros eu hoes fuddiol yn unol ag arferion safonol cyfrifo. Caiff unrhyw wahaniaeth rhwng y dibrisiant a gwir ddirywiad yr ased ei adlewyrchu ym mhatrymau gwariant y dyfodol. Mae gwybodaeth ynglŷn ag Eiddo, Offer a Chyfarpar wedi ei gynnwys yn Nodyn 15 ar dudalen 42.

Yn y polisi cyfrifo ar gyfer dibrisiant o Eiddo, Offer a Chyfarpar (tudalen 20) mae'n nodi:

"Pan fo gan eitem o ased Eiddo, Offer a Chyfarpar cydrannau mawr y mae eu cost yn sylweddol mewn cysylltiad â chost gyfan yr eitem, dibrisir y cydrannau ar wahân."

I weithredu hyn yn ymarferol, mae'n ofynnol llunio barn ar ddau fater, i sefydlu:

- Cyfran cost ased a ystyrir i gynrychioli rhan sylweddol o'r ased, a
- Trothwy cost, islaw hyn ni fyddai clandriad ar wahân o ddibrisiant ar ran o ased yn cael effaith sylweddol ar swm y dibrisiant yn ei gyfanrwydd.

Mae'r Cyngor wedi gosod y ffigyrau yma fel 20% o gost gyfan yr ased a £2m yn y drefn honno. Fel nodir uchod ynglŷn â dibrisiant yn gyffredinol, gall dirywiad ffisegol o rannau unigol o ased, dros amser, arwain at batrymau gwario nad ydynt wedi eu hadlewyrchu'n llawn yn y lefelau dibrisiant a ddarparwyd yn flaenorol.

**Tai Cyngor -** Mae Stoc Dai'r Cyngor yn cael ei brisio drwy ddefnyddio methodoleg safonol, sydd yn rhannol angen defnyddio ffactor addasu, i ganiatáu am y gwahaniaethau rhwng cynnyrch a rhent ar dai cymdeithasol a'r sector breifat. Ar hyn o bryd, nid oes ffactor addasu wedi ei chyhoeddi ar gyfer Cymru, felly dewisodd y Cyngor ffactor addasu sydd wedi ei chyhoeddi ar gyfer yr ardaloedd mwyaf cymharol yn Lloegr, y ffactor a ddefnyddiwyd oedd 31%. (Petai ffactor penodol yn cael ei gyhoeddi, un ai ar gyfer Cymru yn ei gyfanrwydd neu ar sail ranbarthol, yna gweithredir ar hyn. Byddai pob 1% o unrhyw newid o ganlyniad i hyn yn cynyddu neu ostwng gwerth y stoc adroddwyd arno o tua £3.4m).

**Darpariaethau** – Mae nifer o ddarpariaethau ar wahân, ble mae'r sail unigol wedi cael ei hasesu, wedi eu cynnwys yn y cyfrifon hyn, gweler Nodyn 27 ar dudalen 50 am y manylion.

**Rhwymedigaeth Pensiynau** - Mae sefyllfa'r Rhwymedigaeth Bensiwn a adlewyrchir yn y cyfrifon yn seiliedig ar nifer o asesiadau a dyfarniadau cymhleth yn unol â'r wybodaeth a ddarparwyd gan yr actwari a benodwyd gan yr awdurdod gweinyddu. Mae gwybodaeth bellach ar gael yn Nodiadau 40 a 41 ar dudalen 65.

**Amhariad Dyledion Drwg / Lwfans** - Mae lefel benodol o amhariad dyledion drwg wedi ei gynnwys yn y cyfrifon, wedi ei seilio ar bolisi penodol. Caiff unrhyw wahaniaeth rhwng lefel yr amhariad a ddefnyddiwyd a'r gwir sefyllfa ôl-ddyledion ei adlewyrchu ym mhatrwm gwariant y dyfodol. Mae'r ffigwr amhariad dyledion drwg wedi ei gynnwys yn y ffigyrau Dyledwyr Tymor Byr yn Nodyn 24 ar dudalen 49.

## NODYN 8 – CRONFEYDD WRTH GEFN A GLUSTNODWYD

| | Balans ar 01/04/11 £000 | Trosglwydd-iadau Mewn 2011/12 £000 | Trosglwydd-iadau Allan 2011/12 £000 | Balans ar 31/03/12 £000 | Trosglwydd-iadau Mewn 2012/13 £000 | Trosglwydd-iadau Allan 2012/13 £000 | Balans ar 31/03/13 £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwariant Cyfalaf | 988 | 478 | (466) | 1,000 | 1,209 | (1,209) | 1,000 |
| Cronfa wrth Gefn Safle Tirlenwi Gwastraff Penhesgyn | 886 | 0 | 0 | 886 | 0 | (111) | 775 |
| Cronfeydd wrth Gefn Gwasanaethau | 1,918 | 1,115 | (1,526) | 1,507 | 1,540 | (1,156) | 1,891 |
| Cronfeydd wrth Gefn Gwasanaethau Cyfyngedig | 1,333 | 827 | (379) | 1,781 | 4,037 | (754) | 5,064 |
| Tâl Cyfartal, Statws Sengl ac Arfarnu Swyddi | 1,222 | 776 | (32) | 1,966 | 701 | 0 | 2,667 |
| Ailgylchu | 1,161 | 312 | 0 | 1,473 | 302 | (986) | 789 |
| Cronfa wrth Gefn Rheoli Perfformiad | 1,170 | 196 | (312) | 1,054 | 412 | (26) | 1,440 |
| Cronfa Wrth Gefn Cyweiriadau Sylweddol (CRT) | 0 | 0 | 0 | 0 | 860 | 0 | 860 |
| Cronfa Yswiriant | 2,145 | 417 | (33) | 2,529 | 0 | (178) | 2,351 |
| Eraill | 822 | 110 | (246) | 686 | 0 | (121) | 566 |
| **Cyfanswm** | **11,645** | **4,231** | **(2,994)** | **12,882** | **9,061** | **(4,541)** | **17,402** |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| **DYDDIAD:** | 23 GORFFENNAF 2013 |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL DRAFFT AM 2012-13 |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | TRAFOD DRAFFT CYCHWYNNOL Y DATGANIAD LLYWODRAETHU |
| **ADRODDIAD GAN:** | DIRPRWY BRIF WEITHREDWR |
| **GWEITHREDU:** | HERIO A GWNEUD SYLWADAU |

1. **Cefndir**

1.1 Hwn yw'r adroddiad i alluogi trafodaeth ar y Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Drafft i bwrpas ymgynghori a herio ydyw ar hyn o bryd a bydd yn cael ei gyflwyno i swyddogion ac aelodau etholedig am sylwadau cyn iddo ddod yn ôl i'r Pwyllgor hwn i'w gymeradwyo yn ei gyfarfod ym mis Medi.

2. **Yr Angen am Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol**

2.1 Rhaid i'r Cyngor adolygu, o leiaf unwaith y flwyddyn, effeithiolrwydd ei system o reolaeth fewnol a threfniadau llywodraethu a chyhoeddi datganiad ar yr adolygiad ar yr un pryd â'r Datganiad o Gyfrifon.

2.2 Mae'r gofyniad hwn yn seilieidg ar y Datganiad gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth/SOLACE o 2007 ar Lywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol. Mae bellach yn ofyniad cyfreithiol yn Lloegr ac ers 2011, bu ganddo bron yr un statws yng Nghymru. Y disgwyl yw y bydd pob awdurdod lleol yn mabwysiadu côd llywodraethu lleol yn seiliedig ar fframwaith y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth/SOLACE ac yn cynnal adolygiad yn erbyn y fframwaith a'r côd lleol.

3. **Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2011-12**

3.1 Mae'r Adolygiad Llywodraethu'n cyd-fynd â'r gofynion asesu dan y Mesur Llywodraeth Leol a rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol archwilio trefniadau o fewn awdurdodau lleol - eu nod yw dibynnu ar asesiad y Cyngor ei hun. Er mwyn cael sicrwydd ynglŷn â'r asesiad, cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad yn 2012 o'r broses a'r ddogfennaeth ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru. Nid yw'r adroddiad cenedlaethol ar gael hyd yma ond cafwyd atborth cadarnhaol gan SAC. Roedd tair prif neges yn y drafodaeth:-

- Ein bod yn adrodd yn rhy fanwl ac nad ydym yn canolbwyntio ar "y materion llywodraethu cyfredol sylweddol mewn perthynas â'r awdurdod yn cyflawni ei

weledigaeth" - awgrymwyd ein bod yn mynd yn ôl at y model ac yn ystyried mabwysiadau dulliau awdurdodau a chanddynt arferion da

- Bod angen ehangu'r trefniadau i roi rhagor o sicrwydd ar weledigaeth y Cyngor a'r canlyniadau i'r cyhoedd
- Bod sgôp i bwyso a mesur effeithiolrwydd ein systemau rheoli.

3.2 Rydym wedi ceisio rhoi sylw i'r pwynt cyntaf ac wedi edrych yn agos ar drefniadau rhai o'r awdurdodau yng Ngogledd Cymru a rhai eraill a amlygwyd mewn adolygiad cenedlaethol yn Lloegr.

3.3 Mae'r ail bwynt yn cael sylw rhannol trwy alinio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol gyda'r Hunanasesiad Corfforaethol, y Cynllun Trawsnewid a'r Gofrestr Risg a thrwy ddefnyddio'r Grŵp Adolygu Perfformiad i sicrhau cynllunio corfforaethol a mewnbwn perfformio digonol.

3.4 Bydd angen mwy o amser i roi sylw i'r trydydd pwynt; mae enghreifftiau o declynnau y gellid eu defnyddio ar gyfer yr asesiad yn y dyfodol.

## 4. Rôl y Pwyllgor Archwilio

4.1 Mae cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (cyn iddo gael ei arwyddo gan yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr) o fewn Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio.

"3.4.8.1.1. (viii) sicrhau bod gan yr awdurdod system gadarn o reolaeth fewnol sy'n ei gwneud hi'n haws iddo gyflawni ei swyddogaethau ac sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg a rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol. Adolygu effeithiolrwydd y rheolaeth fewnol o leiaf unwaith y flwyddyn a chymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer ei gynnwys gyda Datganiad Cyfrifon yr awdurdod."

## 5. Ystyriaethau

A oes unrhyw fylchau sylweddol yn y disgrifiad o drefniadau llywodraethu ac a oes unrhyw wendidau yn y trefniadau?

Ydi'r casgliad ar y Materion Llywodraethu Sylweddol yn swnio'n iawn?

Unrhyw sylwadau ar y camau y bwriedir eu cymryd?

## 6. Argymhelliad

Bod y Pwyllgor Archwilio yn ystyried y ddogfen ddrafft ac yn gwneud sylwadau.

Bod y Pwyllgor Archwilio yn gofyn am ddiweddariadau rheolaidd ar y cynllun gweithredu sy'n datblygu ar gyfer materion llywodraethu.

# DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL– 2012-13 Drafft

## 1 CEFNDIR

Yn dilyn Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol yn 2009, cymerodd yr Archwilydd Cyffredinol fesurau i ymyrryd ym materion Cyngor Sir Ynys Môn o dan adran 15 Deddf Llywodraeth Leol 1999. O Fawrth 2011 i Fedi 2012, Comisiynwyr wedi'u penodi gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau ar y pryd oedd yn cyflawni swyddogaeth weithredol y Cyngor. Yn Hydref 2012 dychwelwyd pwerau gwneud penderfyniadau i'r Arweinydd a'i Bwyllgor Gwaith gyda rhai mesurau diogelwch. Yn dilyn etholiadau ar gyfer aelodau i'r Cyngor Sir ym mis Mai 2013 ac apwyntio gweinyddiaeth newydd yn dilyn hynny, dygwyd yr ymyrraeth i ben ar ddiwedd Mai.

Yn ystod cyfnod yr ymyrraeth, gweithiodd y Cyngor gyda deg thema gwella'r Comisiynwyr oedd yn cynnwys nifer o feysydd i gryfhau llywodraethu corfforaethol. Wrth baratoi ar gyfer Cyngor newydd gyda deg ar hugain o gynghorwyr yn lle deugain fel o'r blaen, diweddarwyd cyfansoddiad y Cyngor Sir ac yn benodol y trefniadau sgriwtini. Mabwysiadwyd Cynllun Trawsffurfio ar gyfer yr awdurdod yn Ionawr 2013 yn gosod rhaglen waith hyd at 2016. Mae'n rhaglen sydd wedi'i sbarduno gan y Cyngor ei hun.

## 2 CWMPAS Y CYFRIFOLDEB

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei gynnal yn unol gyda'r gyfraith a safonau iawn, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a chadw cyfrif iawn ar ei gyfer, yn cael ei ddefnyddio'n economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol. Hefyd mae dyletswydd ar y Cyngor o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i wneud trefniadau i sicrhau bod gwella parhaus yn digwydd yn y ffordd mae'n gweithredu ei swyddogaethau, gan ystyried cyfuniad o economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

Wrth weithredu'r cyfrifoldeb cyffredinol hwn, mae'r Cyngor hefyd yn gyfrifol am roi yn eu lle drefniadau iawn ar gyfer llywodraethu ei faterion, gan hwyluso gweithredu ei swyddogaethau yn effeithiol, ac mae hynny'n cynnwys trefniadau i reoli risg, a rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.

Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo a mabwysiadu cod lleol llywodraethu corfforaethol sy'n gyson gydag egwyddorion Fframwaith CIPFA/SOLACE 'Delivering Good Governance in Local Government'. Ceir copi o'r cod lleol ar ein gwefan yn http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/perfformiad-a-llywodraethu/llywodraethu-corfforaethol/ neu gellir ei gael o […].Mae'r datganiad hwn yn egluro sut mae'r Cyngor wedi cydymffurfio a'r cod a'i fod yn cwrdd ag anghenion ymarfer priodol an-statudol sy'n annog cyhoeddi Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLIB) ac yn ateb gofynion rheoliad 4(2) Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 mewn perthynas â chyhoeddi datganiad ar reolaeth fewnol.

## 3 PWRPAS Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y systemau a phrosesau, a'r diwylliant a gwerthoedd, sy'n cyfarwyddo a rheoli'r awdurdod a'i weithgareddau, a thrwy rheiny mae'n atebol i'r gymuned, yn ymgysylltu gyda'r gymuned ac yn ei harwain. Dylai alluogi'r awdurdod i fonitro pa mor dda mae'n cyflawni ei amcanion strategol ac ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau priodol, cost effeithiol.

Mae'r system o reolaeth fewnol yn rhan sylweddol o'r fframwaith honno, ac wedi'i dylunio i reoli risg hyd at lefel resymol. Does dim modd iddi gael gwared â phob risg o fethu cyflawni polisïau, nodau ac amcanion a dim ond sicrwydd rhesymol, yn hytrach na sicrwydd llwyr, o effeithiolrwydd mae'n gallu ei ddarparu. Mae'r system o reolaeth fewnol wedi'i seilio ar broses sy'n parhau i fynd ymlaen, wedi'i dylunio i ganfod a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau,

nodau ac amcanion y Cyngor, arfarnu pa mor debygol yw i'r risgiau hynny ddigwydd a'r effaith os byddant yn digwydd, a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd.

Y fframwaith llywodraethu sy'n cael ei ddisgrifio isod sydd wedi bod yn ei le yn y Cyngor am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2012, ac mae'n parhau'n gymwys hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon. Nodir yn y ddogfen lle cyflwynwyd trefniadau newydd yn ystod y flwyddyn, neu yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai.

## 4 Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

Disgrifir y fframwaith cyfredol fel mae'n berthnasol i bob un o'r chwe egwyddor Llywodraethu Corfforaethol yn yr atodiadau i'r Cod Llywodraethu Lleol sydd ar gael yn http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/perfformiad-a-llywodraethu/llywodraethu-corfforaethol/ .

Mae'r crynodeb sy'n dilyn yn pwysleisio'r gwendidau a'r gwaith i ddatblygu a chryfhau'r fframwaith yn ystod blwyddyn ariannol 2012-13. Fe'i cysylltir yn ôl i'r Thema Trawsnewid hefyd.

**Egwyddor Un: Canolbwyntio ar bwrpas yr awdurdod ac ar ddeilliannau i'r gymuned a chreu gweledigaeth i'r ardal leol.**

**Thema Trawsnewid: Canolbwyntio ar y Cwsmer, y Dinesydd a'r Gymuned Wedi Ymrwymo i Bartneriaeth; Cyflawni**

Roedd Strategaeth Gymunedol yn ei le yn ystod y flwyddyn gyda Chynllun Strategol Integredig Lleol yn cael ei ddatblygu yn ei le dan oruchwyliaeth y Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Canlyniad y fenter genedlaethol i gyfuno partneriaethau a chynlluniau oedd hyn. Rhoddwyd cymeradwyaeth i'r Cynllun Strategol Integredig Lleol yn fuan wedi diwedd y flwyddyn.

Roedd Cynllun Corfforaethol 2012-15 mewn lle trwy'r flwyddyn ac fe'i hatgyfnerthwyd gan waith yn ystod y flwyddyn. Adroddiad strategol a lefel uchel oedd Cynllun Cyflawni yr Ynys Môn newydd a gafodd ei gytuno gan y Cyngor ym mis Medi 2012. Mae'r Cynllun Trawsnewid a ddatblygwyd gan yr UDA a'i fabwysiadu yn Ionawr 2013 yn adnabod y rhaglen waith yn codi o'r Cynllun Cyflawni a'i integreiddio gyda rhaglenni gwaith eraill y Cyngor.

Rhoddwyd cymeradwyaeth i gyllideb flynyddol a Strategaeth Cyllideb Refeniw Tymor Canol ym Mawrth 2012 a'i ddiweddaru ym Mawrth 2013 yn dilyn ymgynghori cyhoeddus. Roedd y broses gyllideb yn cynnwys trafodaeth gyhoeddus ar ddigonolrwydd arian wrth gefn; cadernid amcangyfrifon a threfniadau rheoli trysorlys yn ol y disgwyl. Mae angen datblygu Strategaeth Ariannol Tymor Canol.

Cyhoeddwyd Datganiad Cyfrifon 2011-12 yn amserol gyda draft cyhoeddus ar gael ar ddiwedd Mehefin a'r cyfrifon terfynol wedi eu cyhoeddi gyda barn archwilio diamod erbyn diwedd Medi fel sydd angen. Chafwyd ddim tystysgrif cwblhau i'r archwiliad [nes ???] o ganlyniad i wrthwynebiad i'r cyfrifon gan etholwr. Mae trefniadau mewn lle i gyhoeddi cyfrifon 2012-13 yn gyson a'r amserlen statudol.

Rhoddwyd cymeradwyaeth i Gynllun Gwella (Adolygu Perfformiad) gan y Cyngor Sir yn Hydref 2012. Roedd y Cynllun yn edrych yn ol er mwyn asesu sut y bu i ni berfformio yn erbyn y blaenoriaethau a'r targedau a osodwyd yng Nghynllun Corfforaethol 2011/12. Aseswyd hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ei Lythyr Asesu Gwelliant gyda'r canlyniad fod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio ar gyfer gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) ac wedi gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru; ond

gallai cynnwys a strwythur yr adroddiad gynnwys mwy o wybodaeth ansoddol er mwyn creu gwell sail tystiolaeth. Cwblhawyd Hunan Arfarniad Corfforaethol yn Ebrill 2013.

Mae trefniadau partneriaeth yn eu lle fesul achos a does dim fframwaith cynhwysol mewn lle. Mae hyn wedi ei adnabod fel gwendid.

Gwnaed cynnydd wrth osod a mesur safonau ansawdd mewn gwasanaethau ac mae'r anghenion gwybodaeth i'w hasesu a'u gwella. Yn ystod Hydref 2012, gynhaliwyd cyfres o Adolygiadau Gwasanaeth yn cynnwys cyllidebau a pherfformiad ac a fu'n fodd i oleuo'r broses gyllideb.

Roedd Fframwaith Rheoli Perfformiad mewn lle trwy'r flwyddyn gyda her chwarterol i Wasanaethau gydag adroddiadau i'r Pwyllgor Gwaith ac i Sgriwtini. Parheir i ddatblygu'r fframwaith i bwysleisio meysydd allweddol o risg a thrawsnewid.

Roedd trefniadau Rheolaeth Ariannol mewn lle trwy'r flwyddyn, er bod gwendidau wedi eu hadnabod yn yr hen lejer ariannol a systemau cysylltiedig. Bydd datrysiad i'r gwendidau gyda chyflwyno'r systemau ariannol a ddefnyddiwyd gyntaf yn Ebrill 2013.

## Egwyddor Dau: Aelodau a swyddogion yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni pwrpas cyffredin gyda swyddogaethau a rolau wedi'u diffinio'n glir.

## Thema Trawsnewid: Proffesiynol a Threfnus

Mae'r trefniadau ar gyfer pwyllgorau a'r cynllun dirprwyo i swyddogion ac aelodau wedi eu cynnwys yng nghyfansoddiad y Cyngor. Gwnaed newidiadau o sylweddol i'r strwythur pwyllgorau ac i'r swyddogaeth sgriwtini dros y blynyddoedd diwethaf. Yn ystod 2012-13 datblygwyd trefniadau newydd wrth baratoi ar gyfer etholiadau Mai 2013 a'r lleihad yn nifer yr aelodau o ddeugain i ddeg ar hugain fel o'r blaen ac ar gyfer wardiau aml-aelod.

Cytunwyd ar Brotocol Perthynas newydd rhwng Aelodau a Swyddogion ym Mai 2012 ac yn ystod 2013 cytunwyd ar raglen, gyda chefnogaeth CLILC i gynorthwyo datblygu'r Pwyllgor Gwaith a'r ffordd mae aelodau ac uwch swyddogion yn cydweithio; mae hyn yn cynnwys swyddogaethau allweddol yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr.

Cwblhawyd strwythur uwch reoli'r Cyngor yn ystod y flwyddyn wrth i'r Dirprwy Brif Weithredwr gychwyn mewn swydd ym Mehefin 2012, Cyfarwyddwyr Dysgu Gydol Oes a Chymuned yng Ngorffennaf a Medi a Phennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) yn Ionawr 2013. Mae'r strwythur Uwch Reoli yn cynnwys Prif Weithredwr sydd wedi ei ddynodi'n Bennaeth y Gwasanaeth Tal; Dirprwy Brif Weithredwr sy'n gyfrifol am arwain ar swyddogaethau mewnol y Cyngor ac am sicrhau llywodraethu corfforaethol da; a thri Chyfarwyddwr sy'n arwain y rhaglenni ar gyfer eu grwp o wasanaethau, gan gymryd cyfrifoldeb am bolisi, cynllunio a pherfformiad y swyddogaethau hynny. Y pum swyddog sy'n gweithredu fel Uwch Dim Arweiniol (UDA) yr Awdurdod.

Y ddau Bennaeth Swyddogaeth ar gyfer Adnoddau ac ar gyfer Cyfreithiol a Gweinyddol yw'r Prif Swyddog Cyllid (PSC) dynodedig a'r Swyddog Monitro. Mae'r ddwy'n adrodd i'r Dirprwy Brif Weithredwr sy'n gyfrifol am reoli eu perfformiad ac am gydlynu eu swyddogaethau llywodraethu o fewn y fframwaith llywodraethu corfforaethol, perfformiad a rheoli newid.

Y model rheoli a gytunwyd yw bod yr UDA yn arwain ar ddatblygu gweledigaeth a chyfeiriad strategol y Cyngor ac yn cael eu dal i gyfrif yn y swyddogaeth hynny; a bod rôl gyflawni gan y tim rheoli ehangach. Mae'r PSC a'r Swyddog Monitro yn aelodau allweddol o'r tim rheoli ehangach a chanddynt fynediad i'r Prif Weithredwr a'r UDA a'i aelodau unigol.

Mae'n ofynnol bod pob awdurdod lleol yn asesu eu trefniadau yn flynyddol yn erbyn Datganiad CIPFA ar Swyddogaeth y Prif Swyddog Cyllid mew Llywodraeth Leol ac yn adrodd ar ei gydymffurfiaeth neu yn egluro unrhyw drefniadau gwahanol. Hyd at Ionawr 2013 roedd y PSC interim yn aelod o'r UDA yn adrodd i'r Dirprwy Brif Weithredwr ond gyda mynediad at y Prif Weithredwr. Ers Ionawr, mae'r model rheoli sydd yn ei le yn fodel gwahanol i'r hyn a ragwelir gan Ddatganiad CIPFA. Mae protocol yn cael ei greu i sicrhau fod trefniadau'r Cyngor yn creu impact cyfatebol; bydd hyn yn cynnwys mynediad i gyfarfodydd a phapurau'r UDA ynghyd a mesurau diogelwch eraill. Mae effeithlonrwydd trefniadau'r protocol ar gyfer papurau pwyllgor dan adolygiad er mwyn sicrhau gallu'r swyddogion hyn i roi cyngor ar yr adeg briodol. Adolygir effeithlonrwydd yr holl drefniadau yn flynyddol.

Telir lwfansau i aelodau yn ol trefn leol sy'n seiliedig ar benderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Cyhoeddwyd adroddiadau penodol i'r Cyngor hwn ynglyn â'r flwyddyn dan sylw. Y Cyngor Llawn sy'n penderfynu ar faterion dewisol ac mae'r cynlluniau, a'r taliadau a wnaed i aelodau o dan y cynllun, wedi eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Mabwysiadwyd Datganiad Polisi Tâl am y tro cyntaf ym Mawrth 2012 fel y disgwyl ac fe'i diweddarwyd yn 2013.

**Egwyddor Tri: Hyrwyddo gwerthoedd yr awdurdod ac arddangos gwerthoedd llywodraethu da trwy gynnal safonau uchel o ymddygiad.**

**Thema Trawsnewid: Proffesiynol a Threfnus**

Mae'r Cynllun corfforaethol 2012-15 yn gosod allan gwerthoedd y Cyngor a daeth y rheini'n rhan greiddiol o Weledigaeth y Cynllun Trawsnewid a'r Diwylliant Trawsnewid.

Mabwysiadwyd Cod Lleol Llywodraethu Corfforaethol yn Hydref 2012, gan ffurfioli a thynnu ynghyd y trefniadau llywodraethu cyfredol. Nid oes trefn wedi ei ddatblygu i asesu effeithlonrwydd y fframwaith.

Mae nifer o godau ymddygiad a phrotocolau mewn lle fel rhan o'r Cyfansoddiad i sicrhau safonau uchel o ymddygiad ac ymarweddiad. Mae Polisi i Rwystro Twyll a Llygredd yn y Cyfansoddiad gyda chynlluniau atodol yn bodoli.

Mae Pwyllgor Safonau gweithgar ac effeithiol yn eu lle ac fe adroddodd ar ei waith ar ddiwedd y flwyddyn.

**Egwyddor Pedwar: Cymryd penderfyniadau tryloyw sydd ar sail tystiolaeth ac yn cael eu sgriwtineiddio'n effeithiol a rheoli risg.**

**Thema Trawsnewid: Arloesol, Uchelgeisiol ac Iach**

Mae'r cyfansoddiad a'r gweithdrefnau cysylltiedig yn sefydlu'r cyfrifoldebau dros wneud penderfyniadau. Gwneir penderfyniadau ar sail cyngor proffesiynol priodol gan gynnwys cyngor cyfreithiol a chyllidol. Cyhoeddir penderfyniadau gweithredol. Nid yw'r trefniadau ar gyfer dirprwyo penderfyniadau gweithredol yn ddealledig ar draws yr awdurdod ac mae cynlluniau i egluro'r anghenion.



DRAFT

Yn Nhachwedd, cyflwynodd y Cyngor systemau newydd i sicrhau mynediad hawdd i bapurau a chofnodion y Cyngor ac o fis Mai mae aelodau a'r cyhoedd wedi cael budd llawn y mynediad at bapurau pwyllgor a'r wybodaeth gefndirol. Mae gan aelodau fynediad uniongyrchol i'r systemau electronic yn ystod y cyfarfodydd. Cryfhawyd y swyddogaeth sgriwtini fel rhan o raglen waith y Comisiynwyr a chyhoeddwyd Adroddiad Blynyddol ym mis Mai yn gosod allan y gwaith a wnaed gan y Pwyllgorau yn ystod y flwyddyn. [Cynnwys rhywbeth am gasgliadau'r adolygiad ar ddechrau 2013.] Ers Mehefin 2013 lleihawyd nifer y pwyllgorau sgriwtini o bump i ddau.

Bu trefniadau Rheoli Risg yn datblygu dros y ddwy flynedd diwethaf ac fe ail-gadarnhawyd a mabwysiadu'n ffurfiol y polisiau a'r arweiniad ym mis Medi 2012. Parheir i fewnosod y trefniadau yn y gwasanaethau ac yn gorfforaethol.

Bu rheoli newid yn wan o fewn yr awdurdod a doedd rheoli prosiect ddim wedi ei sefydlu. Ers diwedd y flwyddyn, cymerwyd camau breision i ddatblygu fframwaith rheoli rhaglen a phrosiect newydd ac i greu capasiti i gefnogi'r Cynllun Trawsnewid.

Mae Pwyllgor Archwilio Effeithiol mewn lle. Cwblhaodd y pwyllgor hunan-asesiad yn ystod y flwyddyn gan adrodd ar ei waith ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae trefniadau tryloyw a hygyrch ar gyfer delio gyda chwynion a daeth Polisi Pryderon a Chwynion i rym yn Ebrill 2013 yn seiliedig ar y polisi safonol a ddatblygwyd gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Hefyd mae gennym drefniadau ffurfiol ar gyfer rhannu pryderon.

## Egwyddor Pump: Datblygu capasiti a gallu Aelodau a swyddogion i fod yn effeithiol.

## Thema Trawsnewid: Gwerthfawrogi a Datblygu'n Pobl

Bu'r Cyngor yn gweithio tuag at gyflawni'r Siartr Aelodau a gyflwynir gan GLILC. Mae disgrifiadau swydd mewn lle i aelodau ers 2012 ac adolygiadau datblygu personol a chynlluniau datblygu yn cael eu cyflwyno. Cyflwynwyd rhaglen anwytho i aelodau newydd ym Mehefin ymlaen. Y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd sy'n goruchwylio'r meysydd hyn ac mae'r Cadeirydd yn gweithredu fel Pencampwr Datblygu Aelodau.

Cwblhawyd Strategaeth Adnewyddu Democrataidd yn ystod y flwyddyn wrth baratoi ar gyfer yr etholiadau a gynhaliwyd ym Mai 2013. Cyfrannodd y Strategaeth at gynnydd yn y niferoedd yn sefyll etholiad a'r canran yn pleidleisio.

O ganlyniad i weithgaredd ymgysylltu a'r cyhoedd dros y blynyddoedd diwethaf, mae nifer o ddinasyddion sydd wedi gwirfoddoli i gynorthwyo'r Cyngor yn y dyfodol.

Mae gennym Strategaeth Pobl a chadwyd yr achrediad Buddsoddwyr Mewn Pobl yn ystod y flwyddyn.

Roedd rhaglen anwytho staff yn ei le i staff trwy'r flwyddyn ac fe lansiwyd rhaglen anwytho rheolwyr yn Ebrill 2013.

Yn ystod y flwyddyn datblygwyd ac mewnblannwyd y cynllun Adolygiad Datblygu Personol Corfforaethol oedd wedi ei gyflwyno yn 2011-12. Mae'r cynllun yn cynnwys yr holl staff yn cynnwys Uwch Reolwyr. Derbyniodd dros 60% o staff eu gwerthusiad, lefel tebyg i'r llynedd. Gosodwyd targedau i sicrhau graddfa uwch yn ystod 2013-14. Mae trefniadau wedi eu

gwneud i dargedu hyfforddiant a datblygu ar sail mwy cyson a gyda ffocws pendant, gan gysylltu efo'r gwerthusiad, wrth i gyllidebau leihau.

Yn ystod 2012 mabwysiadwyd Strategaeth Datblygu Gweithlu a Strategaeth Cynllunio Dilyniant. Roedd Strategaeth Talent yn cael ei ddatblygu yn ystod y flwyddyn ac mae gwaith yn parhau er mwyn ei fewnosod i'r broses werthuso cymhwysedd. Mae i'w fabwysiadu'n llawn yn 2013.

Bwriedir adolygu Strategaeth Pobl 2012-15 yn ystod 2013 gan ymgorffori anghenion y Cynllun Trawsnewid a deilliannau'r holiadur staff a wnaed ym Mai a Mehefin 2013.

Fel rhan o weithgaredd y Cynllun Trawsnewid a gweithgaredd ymgysylltu a staff, rhoddwyd cyfle i unigolion ar draws yr awdurdod i weithio ar brosiectau a strategaethau corfforaethol.

## Egwyddor Chwech: Ymgysylltu gyda phobl leol a budd-ddeiliaid eraill er mwyn sicrhau atebolrwydd cadarn.

## Thema Trawsnewid: Canolbwyntio ar y Cwsmer, y Dinesydd a'r Gymuned

Roedd y Strategaeth Ymgysylltu a'r Gymuned a baratowyd yn 2011 yn ei le o hyd ac fe'i cefnogir gan y Canllawiau ar Ymgynghori ac Ymgysylltu i Staff. Mae'r strategaeth wedi dyddio bellach a bwriedir rhoi Strategaeth Gofal Cwsmer yn ei le ynghyd a'r Strategaeth Cyfathrebu Corfforaethol newydd.

Yn ystod y flwyddyn parhawyd i ddatblygu trefniadau ymgysylltu gyda grwpiau o gydranddeiliaid gyda Siartr Cynghorau Cymuned wedi ei ddatblygu yn ystod y flwyddyn a Compact Sector Wirfoddol wedi ei gytuno'n ffurfiol ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae trefniadau mewn lle i ymgysylltu a Llywodraeth Cymru, Archwilio Allanol, rheoleiddwyr allanol a ChLILC. Cryfhawyd y rhain yn ystod y cyfnodau diweddar o ymyrraeth ac mae angen eu cynnal fel rhan o'r trefniadau llywodraethu i'r dyfodol.

Roedd Strategaeth Gyfathrebu a grewyd ar gyfer 2012-15 mewn lle ar gyfer y flwyddyn ac fe'i cytunwyd yn ffurfiol yn ystod y flwyddyn. Mae pedair rhan i'r strategaeth: Ymgysylltu a'r Dinesydd a'r Gymuned; Y Wasg; Brand y Cyngor; a Chyfathrebu Mewnol. Daeth Cyfathrebu Mewnol yn faes creiddiol i'w ddatblygu yn y Cynllun Trawsnewid.

Roedd cynllunio corfforaethol ar gyfer y flwyddyn wedi ei seilio'n gadarn ar ymgysylltu efo bobl leol a chydranddeiliaid ynglyn â'r Cynllun Corfforaethol a'r Cynllun Integredig Sengl. Cysylltwyd Cynllunio Corfforaethol gyda chynllunio ariannol trwy ymgynghori ar y cyd ar Flaenoriaethau Gwella a'r Strategaeth Gyllideb.

Cyhoeddwyd adroddiadau blynyddol ar eu gwaith gan Sgriwtini yn ogystal â'r Pwyllgorau Safonau ac Archwilio.

Mae trefniadau sefydlog ar gyfer ymgysylltu â staff: gyda'r Undebau Llafur trwy'r Cyd-bwyllgor Ymgynghorol Lleol a chyfarfodydd llai ffurfiol, a chyfathrebu gyda staff yn gyffredinol trwy, er enghraifft bwletinau staff misol. Mae ymgynghori a rheolwyr a staff a chant eu cynnwys yn y penderfyniadau fel rhan o'r Rhaglen Trawsnewid.

## 5 ADOLYGU EFFEITHIOLRWYDD

Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn gyfrifoldeb am gynnal, o leiaf yn flynyddol, adolygiad o effeithlonrwydd ei fframwaith llywodraethu gan gynnwys y drefn rheolaeth fewnol. Mae'r adolygiad o effeithlonrwydd wedi ei oleuo gan waith rheolwyr o fewn yr awdurdod sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu, gan adroddiad blynyddol Pennaeth archwilio mewnol, a hefyd gan sylwadau a wnaed gan archwilwyr allanol ac asiantaethau arolygu ac archwilio eraill.

Mae effeithlonrwydd y fframwaith llywodraethu wedi ei werthuso trwy gyfuniad o:
- canlyniadau adolygiadau a monitro cyson o fewn y flwyddyn gan swyddogion a phwyllgorau;
- adolygiad o ddogfennau perthnasol a baratowyd o fewn y flwyddyn neu yn ymwneud a'r flwyddyn;
- adroddiadau'r Comisiynwyr yn arwain at ddirwyn yr ymyrraeth i ben ar ddiwedd Mai 2013;
- yr adroddiad Hunan Arfarnu Corfforaethol dros y cyfnod Tachwedd 2012 i Ebrill 2013 a'r symud yn ol i reolaeth leol, gan gynnwys adolygu adborth gan Estyn ac AGGCC a'r byrddau adfer perthynol ar y gwaith gwella ynglyn ag Addysg a Gwasanaethau Plant;
- cyfres o gyfweliadau gyda swyddogion perthnasol;
- trafodaeth gyda, a chael sylwadau gan, grwpiau o swyddogion ac aelodau gan gynnwys yr UDA a'r Pwyllgor Gwaith.

Mae adolygiadau a monitro cyson yn golygu:
- adolygiadau o'r Cyfansoddiad a threfniadau llywodraethu moesegol gan y Swyddog Monitro, ynghyd ag adolygiad o gydymffurfio efo Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio;
- gweithgaredd rheoli risg ffurfiol, gan gynnwys ystyriaeth benodol i'r risgiau hynny sy'n gysylltiedig â phrosesau llywodraethu;
- Archwilio Mewnol, sydd a'u gwaith yn cymryd ystyriaeth o risgiau sydd wedi eu hadnabod, trwy archwiliadau cyson o'n prif systemau, sefydliadau, prosiectau o sylwedd a phrif brosesau llywodraethu gan gynnwys rheoli risg, yn gyson efo'r cynllun archwilio mewnol, ac yn cynnwys gwaith 'dilyn-i-fyny' i sicrhau fod uwch swyddogion yn cyflwyno'r argymhellion sydd wedi eu cytuno;
- asesiad blynyddol Archwilio Mewnol gan archwilwyr allanol y Cyngor;
- gwaith pwyllgorau sgriwtini ac eraill y Cyngor gan gynnwys ei bwyllgorau Archwilio a Safonau,
- barn ac argymhellion archwilwyr allanol y Cyngor ynghyd ag asiantaethau adolygu ac arolygwyr eraill,
- monitro cyson gan aelodau ac uwch-reolwyr o wella perfformiad yn erbyn y Cynllun Corfforaethol a'r cynlluniau a'r strategaethau cefnogol,
- asesiadau'r swyddogion statudol, yn cynnwys y Prif Swyddog Cyllid a'r Swyddog Monitro yn erbyn anghenion rheoleiddio ac ymarfer da.

Cytunir y polisiau allweddol, ac unrhyw addasiadau iddynt gan y Pwyllgor Gwaith, a'u mabwysiadu yn ffurfiol gan y Cyngor Sir fel bo'r angen.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor Archwilio am farn ar effeithlonrwydd a chyflawnrwydd y fframwaith a sylwadau ar fersiwn ddrafft o'r DLIB hwn cyn cyflwyno drafft terfynol i'r Pwyllgor Archwilio i'w gytuno.

## 6 MATERION LLYWODRAETHU O SYLWEDD

Gwnaed cynnydd rhagorol ar draws nifer o themau llywodraethu yn ystod y flwyddyn gan arwain at Adroddiad Gwella Blynyddol gan Swyddfa Archwilio Cymru oedd yn casglu "mae gan y Cyngor gynllun cynhwysfawr ar gyfer gwella a fydd yn heriol i'w gyflawni, ond sydd â rhagolygon realistig i sicrhau gwelliannau sylweddol i wasanaethau a phobl Ynys Môn. [daethant] i'r casgliad canlynol:

- mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio ar gyfer gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) ac wedi gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru;
- mae'r Cyngor yn parhau i wneud cynnydd graddol o ran mynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd mewn asesiadau blaenorol;
- mae gan y Cyngor gynlluniau ariannol clir a chadarn ond mae'n wynebu nifer o heriau ariannol yn sgil mesurau caledi parhaus; ac
- mae'r Cyngor wedi datblygu cynllun datblygu sefydliadol i gefnogi gwelliannau hirdymor a moderneiddio'r ffordd y mae'r Cyngor yn gweithio."

Yn dilyn hynny, dygwyd yr ymyrraeth i ben ar ddiwedd Mai 2013.

Mae adroddiad Pennaeth Archwilio Mewnol yn rhoi sicrwydd ar y fframwaith am reolaeth fewnol. Mae'n adnabod tri adolygiad a wnaed yn ystod y flwyddyn a dderbyniodd raddfa aswiriant "coch". Mae'r adroddiadau yn ymwneud a Pharhad Busnes, Diogelwch Data a Rheoli Cofnodion Modern. Crynhoir argymhellion yr holl adroddiadau mewn Cynllun Gweithredu Rheolaeth Gwybodaeth Corfforaethol. Mae'r adroddiad hefyd yn adnabod pedwar maes lle y byddai gwendidau o sylwedd mewn rheolaeth yn rhwystro'r Cyngor rhag dibynnu'n rhesymol ar y systemau o reolaeth fewnol ynglyn â'r systemau a gafodd eu hadolygu yn ystod y flwyddyn. Y meysydd hyn oedd:

- Parhad Busnes;
- Rheoli Risg;
- Llywodraethu: cydymffurfio gyda pholisiau a gweithdrefnau corfforaethol allweddol;
- Rheoli Gwybodaeth.

Gwnaed cynnydd da ar nifer o weithredoedd yn codi o DLIB 2011-12:

- Mabwysiadodd y Cyngor God Llywodraethu lleol gan gytuno'n derfynol y Cynllun Integredig Cyfun yn gynnwys y strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles;
- Cyhoeddwyd cyfrifon wedi eu tystio'n ddi-amod erbyn y terfyn statudol;
- Roedd gwaith yn mynd yn ei flaen ar y Cynlluniau Gweithredu yn dilyn adroddiadau beirniadol ar wasanaethau'r Cyngor gan Estyn ac AGGCC;
- Rhoddwyd mwy o frys ar brosesau Arfarnu Swyddi a Thal Cyfartal yn ystod y flwyddyn.

Mae cynnydd yn arafach ar rai o'r meysydd eraill:

- Rheoli Risg, er bod y fframwaith wedi ei gytuno'n ffurfiol bellach;
- Parhad Busnes;
- Cydymffurfio efo polisiau corfforaethol allweddol, gan gynnwys gwerthuso staff;
- Diogelwch Data a Rheoli Gwybodaeth.

Adlewyrchir yr eitemau hyn yn adroddiad Pennaeth Archwilio Mewnol a'u cynnwys yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Llywodraethu 2013-14.

Yn seiliedig ar yr adolygiad a amlinellir uchod, ac yn benodol, adroddiad blynyddol Pennaeth archwilio Mewnol; canfyddiadau'r Comisiynwyr diweddar yn Adroddiadau'r Comisiynwyr; Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru Wales Audit Office; a gwaith yr UDA wrth ddatblygu Cynllun Trawsnewid y Cyngor, mae'r materion canlynol wedi eu hadnabod fel y materion llywodraethu o sylwedd ynglyn â chyflawni gweledigaeth yr awdurdod:

| **Materion Llywodraethu o Sylwedd** | |
|---|---|
| **Mater** | **Gweithredu sydd wedi ei adnabod** |
| *Yr angen i sicrhau cyflawni'r Cynllun Trawsnewid fel sydd wedi ei gynllunio gan barhau i gyflwyno gwasanaethau yn effeithiol* | *Sefydlu Byrddau Trawsnewid; Swyddfa Rheoli rhaglen a threfniadau llywodraethu.*<br><br>*Datblygu capasiti mewnol i gefnogi trawsnewid a gwella.* |
| *Yr angen i gynllunio a chyflawni'r arbedion sydd eu hangen gan y Cyngor* | *Datblygu Strategaeth Cyllideb Tymor Canol yn seiliedig ar y cynlluniau cyfredol a'r rhagamcanion*<br><br>*Sefydlu Strategaeth Effeithlonrwydd fel rhan o gynlluniau strategol creiddiol y Cyngor*<br><br>*Cyflwyno Polisi a strategaeth Comisiynu a Chaffael* |
| *Cymryd y camau technegol a strwythurol yn erbyn prosesu data personol heb ganiatâd neu yn anghyfreithlon ac yn erbyn colli neu ddifrodi data personol ar ddamwain* | *Mae'r Cyngor wedi cytuno archwiliad cydsyniol gan y Comisiynydd Gwybodaeth.*<br><br>*Creu bwrdd prosiect i weithredu cynlluniau gwaith presennol ynghyd ag argymhellion y Comisiynydd Gwybodaeth* |

## 7 ARDYSTIO'R DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Rydym wedi ein cynghori ar oblygiadau canlyniad yr **adolygiad o effeithlonrwydd y fframwaith llywodraethu** gan y Pwyllgor Archwilio a bod y trefniadau **yn parhau i'w hystyried yn addas i bwrpas yn gyson a'r fframwaith llywodraethu**. Mae'r meysydd sydd wedi cael ymateb a'r rhai sydd i'w trin yn benodol trwy weithredu o'r newydd wedi eu hamlinellu yn y ddogfen.

Rydym yn bwriadu cymryd camau priodol i ymdrin gyda'r gwendidau hyn a'r rhai eraill a enwyd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac i wella ymhellach ein trefniadau llywodraethu yn y flwyddyn sydd i ddod. Fe fyddwn yn monitro gweithrediad gwelliannau trwy'r Pwyllgor Archwilio ac fel rhan o'n hadolygiad blynyddol nesaf.

-------------------------------------- --------------------------------------

**Arweinydd y Cyngor** **Prif Weithredwr**

**Dyddiad:** **Dyddiad:**

**Ar ran Cyngor Sir Ynys Môn**

**Atodiad**

| Cynllun Gweithredu Llywodraethu 2013-14 | |
|---|---|
| **Mater** | **Gweithredu sydd wedi ei adnabod** |
| **Materion Llywodraethu o Sylwedd** | |
| *Yr angen i sicrhau cyflawni'r Cynllun Trawsnewid fel sydd wedi ei gynllunio gan barhau i gyflwyno gwasanaethau yn effeithiol* | *Sefydlu Byrddau Trawsnewid; Swyddfa Rheoli rhaglen a threfniadau llywodraethu.*<br><br>*Datblygu capasiti mewnol i gefnogi trawsnewid a gwella.* |
| *Yr angen i gynllunio a chyflawni'r arbedion sydd eu hangen gan y Cyngor* | *Datblygu Strategaeth Cyllideb Tymor Canol yn seiliedig ar y cynlluniau cyfredol a'r rhagamcanion*<br><br>*Sefydlu Strategaeth Effeithlonrwydd fel rhan o gynlluniau strategol creiddiol y Cyngor*<br><br>*Cyflwyno Polisi a strategaeth Comisiynu a Chaffael* |
| *Cymryd y camau technegol a strwythurol yn erbyn prosesu data personol heb ganiatâd neu yn anghyfreithlon ac yn erbyn colli neu ddifrodi data personol ar ddamwain* | *Mae'r Cyngor wedi cytuno archwiliad cydsyniol gan y Comisiynydd Gwybodaeth.*<br><br>*Creu bwrdd prosiect i weithredu cynlluniau gwaith presennol ynghyd ag argymhellion y Comisiynydd Gwybodaeth* |
| **Materion Fframwaith Llywodraethu a'i Adolygu** | |
| *Trefniadau i Fonitro'r Fframwaith Llywodraethu a'r Cynllun Gweithredu* | *Gwahodd y Pwyllgor Archwilio i gymryd adroddiadau monitro cyson*<br><br>*Adolygu Cylch Gorchwyl y pwyllgor Archwilio i sicrhau y gellir casglu aswiriant ar gyfer y DLIB trwy'r flwyddyn* |
| *Cyflawni Fframwaith Llywodraethu Cydlynol* | *Lledu'r fframwaith i gynnwys aswiriant ar Weledigaeth y Cyngor a'r deillianau ar gyfer y cyhoedd*<br><br>*Dogfennu'r fframwaith gan sicrhau fod pob polisi, strategaeth, gweithdrefn ac adroddiad perthnasol a chyfredol ar gael yn hawdd*<br><br>*Rhoi hyfforddiant i reolwyr a staff* |
| *Cysoni'r Hunan Arfarniadau* | *Penderfynu sut i gysoni prosesau datblygu'r Hunan Arfarniad, y DLIB a'r Adroddiad Gwella* |
| *Gwerthuso effeithlonrwydd rheolaeth* | *Mapio trefn aswiriant y Cyngor dros ei holl feysydd llywodraethu allweddol a'i ddefnyddio i fwydo'r DLIB a'i gysylltu i gynllun aswiriant Archwilio Mewnol a'r hunan arfarniad corfforaethol blynyddol* |
| **Meysydd Datblygu** | |
| *Sicrhau trefniadau Uwch-reolwyr cydlynol ac effeithiol* | *Cwblhau'r Adolygiad Penaethiaid Gwasanaeth.*<br><br>*Dogfennu a mewnblannu rôl y Penaethiaid Gwasanaeth a'u perthynas efo'r UDA.*<br><br>*Cytuno Protocol ar gyfer Swyddogion Statudol i sicrhau y gall y Cyngor ddangos ei fod yn cydymffurfio a'r Datganiad ar rôl y Prif Swyddog Cyllid.* |

DRAFT

| **Cynllun Gweithredu Llywodraethu 2013-14** | |
|---|---|
| **Mater** | **Gweithredu sydd wedi ei adnabod** |
| *Datblygu Aelodau* | *Cyflawni gofynion "*Breinlen Cynorthwyo a Datblygu Cynghorwyr Cymru*".*<br><br>*Cwblhau'r rhaglen ar ddatblygu'r Pwyllgor Gwaith a gyllidir gan GLILC.* |
| *Datblygu a mewnblannu'r drefn Rheoli Perfformiad Corfforaethol, rheoli Rhaglen a Rheoli Risg a sicrhau Gwybodaeth rheoli addas* | *Cytuno a chyflwyno Fframwaith Rheoli Perfformiad Newydd*<br><br>*Adolygu'r trefniadau ar gyfer system reoli perfformiad ar y we.*<br><br>*Adnabod systemau gwybodaeth cyfredol gan ddeall sut y maent yn integreiddio a'i gilydd gan adnabod unrhyw fylchau*<br><br>*Mewnblannu trefniadau Rheoli Risg*<br><br>*Cyflwyno fframwaith newydd ar gyfrer Rheoli Rhaglen a Rheoli Prosiect*<br><br>*Cyflwyno Grŵp Swyddogion i adolygu a gwneud argymhellion ar faterion yn ymwneud a pherfformiad, prosiectau, cynlluniau gweithredu a risgiau* |
| *Cryfhau Trefniadau Rheolaeth Ariannol* | *Cwblhau cyflwyno'r systemau ariannol newydd.*<br><br>*Cwblhau strwythur staffio newydd ar gyfer Cyllid.*<br><br>*Diweddaru Rheolau Gweithdrefn Ariannol.* |
| *Sicrhau fod blociau adeiladu sylfaenol ar gyfer llywodraethu yn eu lle yn gyson ar draws adrannau a sicrhau cydymffurfio* | *Sicrhau rheoli cyson ar absenoldeb a salwch*<br><br>*Cynyddu canran cwblhau'r adolygiadau perfformiad unigol*<br><br>*Cyflawni'r Blaenoriaethau Datblygu yn y Strategaeth Gyfathrebu Corfforaethol*<br><br>*Paratoi a chyflwyno Strategaeth Gofal Cwsmer* |
| *Yr angen parhaus i adolygu a gwella'r trefniadau llywodraethu ar gyfer partneriaethau a chydweithio ac i greu ymwybyddiaeth a sicrhau cydymffurfiaeth gan swyddogion* | *Adnabod y trefniadau partneriaeth perthnasol*<br><br>*Paratoi arweiniad i staff ac aelodau ar sefydlu a rheoli partneriaethau*<br><br>*Sefydlu pwyllgor sgriwtini newydd wedi ei ar Bartneriaethau ac Adfywio*<br><br>*Diweddaru Rheolau Gweithdrefn Ariannol, Rheolau Gweithdrefn Contractau, Cynlluniau Dirprwyo a rhannau eraill y Cyfansoddiad*<br><br>*Cyflwyno Polisi a Strategaeth Gomisiynu* |

DRAFT

| Cynllun Gweithredu Llywodraethu 2013-14 | |
|---|---|
| **Mater** | **Gweithredu sydd wedi ei adnabod** |
| *Yr angen i reoli adroddiadau gan archwilio allanol a rheoleiddwyr eraill ar sail gorfforaethol gan sicrhau ymateb priodol* | *Cyflwyno system ar gyfer adnabod gwaith y rheoleiddwyr ar draws y Cyngor*<br><br>*Cyflwyno cofrestr o argymhellion rheoleiddwyr gan sicrhau monitro cynnydd yn gyson efo'r drefn ar gyfer argymhellion archwilio mewnol*<br><br>*Cyflwyno Grwp Swyddogion i adolygu a chynnig sylwadau ar raglenni'r rheoleiddwyr a'r cynnydd ar y gweithredu a gytunwyd* |
| *Nid oes gan y Cyngor Gynllun Parhad Busnes na Chynllun Adfer TGC cyflawn ac wedi eu cytuno'n ffurfiol.* | *Creu Cynlluniau Parhad Busnes i'r Gwasanaethau*<br><br>*Datblygu Cynllun Adfer TGC i'w gytuno* |

DRAFT

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Cyngor Sir Ynys Môn

## Adolygu Trefniadau Llywodraethu gan Awdurdod Lleol
## Gorffennaf 2013

# Cefndir

## Adolygu Trefniadau Llywodraethu gan Awdurdod Lleol – Astudiaeth Gwella

- Mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol baratoi Datganiad Llywodraethu Blynyddol ers 2010-11
- Mae'r gwaith o Adolygu Trefniadau Llywodraethu wedi'i alinio â gofynion asesu o dan y Mesur Llywodraeth Leol
- Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol archwilio'r trefniadau yn yr Awdurdodau Lleol i ddiwallu dyletswyddau'r Mesur Llywodraeth Leol
- Parodrwydd i ymddiried yn asesiad yr Awdurdod Lleol ei hun
- Astudiaeth i roi sicrwydd dros yr asesiad a helpu i gryfhau hynny
- Canolbwyntio ar ganfod pwyntiau dysgu ar gyfer y gwaith o adolygu trefniadau llywodraethu 2012-13

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Cwmpas yr astudiaeth

Cwestiwn allweddol:

**“Wrth gynhyrchu ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol, a yw’r Cyngor wedi gwerthuso effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraethu’n gynhwysfawr ac yn drylwyr?”**

Is-gwestiynau:

- **A yw adolygiad y Cyngor o’i drefniadau llywodraethu wedi bod yn ddigon eang ei gwmpas?**
- **A yw adolygiad y Cyngor o’i drefniadau llywodraethu wedi bod yn drylwyr ac yn gadarn?**
- **Wrth gynhyrchu’r Datganiad, a yw’r Cyngor wedi nodi meysydd y mae angen eu gwella yn ei drefniadau llywodraethu ac wedi gwneud cynlluniau i fynd i’r afael â hwy?**

# Casgliad cyffredinol

Tudalen 44

- Mae adolygiad y Cyngor o'i drefniadau llywodraethu yn datblygu ac mae wedi'i seilio ar egwyddorion cadarn. Fodd bynnag, mae angen ehangu'r trefniadau i roi mwy o sicrwydd ynghylch gweledigaeth y Cyngor a'r canlyniadau i'r cyhoedd.

- Mae adolygiad y Cyngor o'r trefniadau llywodraethu yn rhoi rhywfaint o sicrwydd, ond mae yna le i werthuso effeithiolrwydd ei reolaethau.

- Mae'r Cyngor wedi nodi materion pwysig sy'n codi o'i drefniadau llywodraethu ac yn cymryd camau cadarnhaol i wella'i drefniadau.

# Adolygu Trefniadau Llywodraethu gan Awdurdod Lleol



## A yw adolygiad y Cyngor o'i drefniadau llywodraethu wedi bod yn ddigon eang ei gwmpas?

Mae adolygiad y Cyngor o'i drefniadau llywodraethu yn datblygu ac mae wedi'i seilio ar egwyddorion cadarn. Fodd bynnag, mae angen ehangu'r trefniadau i roi mwy o sicrwydd ynghylch gweledigaeth y Cyngor a'r canlyniadau i'r cyhoedd.

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# A yw adolygiad y Cyngor o'i drefniadau llywodraethu wedi bod yn ddigon eang ei gwmpas?

- Mae'r adolygiad yn adlewyrchu egwyddorion allweddol fframwaith y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth a deg thema llywodraethu corfforaethol y Comisiynwyr.
- Mae'r adolygiad yn esbonio'r prosesau a'r gweithdrefnau sydd ar waith i alluogi'r Cyngor i gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol.
- Mae'r Cyngor yn datblygu rheolaethau llywodraethu ar gyfer gweithio mewn partneriaeth a chomisiynu, ond nid ydynt eto wedi'u cysylltu'n glir â'r prosesau rheoli risg a chynllunio busnes.
- Mae'r Cyngor yn datblygu cynllun gweithredu i fonitro materion a chynnydd i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, sydd wedi'i gefnogi gan fframwaith corfforaethol newydd a phwyllgorau aelodau i wella'r broses adolygu.

# Adolygu Trefniadau Llywodraethu gan Awdurdod Lleol

## A yw adolygiad y Cyngor o'i drefniadau llywodraethu wedi bod yn drylwyr ac yn gadarn?

Mae adolygiad y Cyngor o'r trefniadau llywodraethu yn rhoi rhywfaint o sicrwydd, ond mae yna le i werthuso effeithiolrwydd ei reolaethau.

# A yw adolygiad y Cyngor o'i drefniadau llywodraethu wedi bod yn drylwyr ac yn gadarn?

- Mae trefniadau priodol ar waith i herio canlyniadau'r adolygiad o drefniadau llywodraethu, ac mae yna broses glir a ffurfiol ar gyfer llunio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
- Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu cod llywodraethu ac mae ganddo broses ar gyfer clirio a chymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
- Er y cymerwyd nifer o gamau i wella ei drefniadau, nid oes proses ffurfiol i werthuso effeithiolrwydd ei reolaethau llywodraethu.

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adolygu Trefniadau Llywodraethu gan Awdurdod Lleol



**Wrth gynhyrchu'r Datganiad, a yw'r Cyngor wedi nodi meysydd y mae angen eu gwella yn ei drefniadau llywodraethu ac wedi gwneud cynlluniau i fynd i'r afael â hwy?**

Mae'r Cyngor wedi nodi materion pwysig sy'n codi o'i drefniadau llywodraethu ac yn cymryd camau cadarnhaol i wella'i drefniadau.

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Wrth gynhyrchu'r Datganiad, a yw'r Cyngor wedi nodi meysydd y mae angen eu gwella yn ei drefniadau llywodraethu ac wedi gwneud cynlluniau i fynd i'r afael â hwy?

- Cydnabod bod y Datganiad yn ddogfen fawr ac ynddi ddisgrifiadau hir o brosesau a allai achosi i'r Cyngor fethu â chydnabod risgiau sy'n fwy difrifol, er yn annhebygol.
- Mae angen canolbwyntio mwy ar wybodaeth am gynllunio a pherfformiad, ond hefyd mae angen gwybodaeth ariannol.
- Datblygu cynllun gweithredu i ddarparu diweddariadau ar y cynnydd a wnaed a sicrhau bod cyn lleied â phosibl o risgiau a gwybodaeth darfodedig ar ôl yn ei fframwaith llywodraethu.
- Mae gwneud penderfyniadau ar lefelau Pwyllgor a Chraffu yn dod yn fwy clir a manwl, gan dreulio llai o amser ar faterion llywodraethu.

## Wrth gynhyrchu'r Datganiad, a yw'r Cyngor wedi nodi meysydd y mae angen eu gwella yn ei drefniadau llywodraethu ac wedi gwneud cynlluniau i fynd i'r afael â hwy?



- Treialu system meddalwedd rheoli perfformiad newydd i wella gwaith dadansoddi ac adrodd ar ddata perfformiad.
- Codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o lywodraethu a lleihau'r canfyddiad ohono fel datganiad ariannol yn unig.
- Darparu nifer o weithdai datblygu i swyddogion ac aelodau er mwyn codi ymwybyddiaeth o lywodraethu.
- Cryfhau ei strwythurau pwyllgor a chraffu trwy benodi aelodau â'r sgiliau priodol.
- Cydnabod yr angen i gynllunio, yn ofalus, gapasiti a gallu'r rhai sydd â'r cyfrifoldebau llywodraethu. Er enghraifft, yr effaith wedi lleihau nifer yr aelodau ar ôl yr etholiad ym mis Mai 2013 ac adolygiadau o wasanaethau'r Cyngor.

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Beth nesaf?

- Caiff canlyniadau holl adolygiadau'r Cyngor eu cyfosod yn ganolog

- Eu datblygu'n adroddiad cenedlaethol sy'n edrych ar dueddiadau a themâu cyffredin



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Diweddariad ar raglen waith perfformiad ar gyfer y Pwyllgor Archwilio Gorffennaf 2013

## Cyngor Sir Ynys Môn

### Llythyr 1 Asesu Gwelliant - Cynllunio gwelliant

Mae hwn yn adolygiad o drefniadau cynllun gwella y Cyngor i sicrhau gwelliant parhaus. Mae'r llythyr, yn cael ei gynhyrchu yn gyffredinol, yn dilyn cyhoeddi cynllun gwella y Cyngor. Mae gwaith wedi dechrau ac bydd y llythyr drafft yn barod erbyn diwedd mis Gorffennaf 2013. Gan fod yna etholiad y flwyddyn hon, mae'r Cyngor wedi oedi cyn cynhyrchu ei gynllun gwella tan yr Hydref 2013. Mae hyn yn debyg i'r trefniadau flwyddyn ddiwethaf gydag awdurdodau eraill yng Nghymru. Bydd y llythyr felly yn darparu asesiad o gynnydd.

### Llythyr 2 Asesu Gwelliant - Profi ac Archwilio Cyhoeddi Asesu Perfformiad y Cyngor

Mae hwn yn adolygiad o ba mor dda mae'r Cyngor wedi adrodd ar ei berfformiad yn y flwyddyn ddiwethaf. Bydd y llythyr hefyd yn darparu sylwebaeth yr Archwiliad Ansawdd Data. Bydd y llythyr yn cael ei gynhyrchu erbyn mis Tachwedd 2013.

### Adroddiad Gwella Blynyddol

Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol yn crynhoi'r holl waith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru, yn ogystal â'r hyn a wnaed gan reoleiddwyr perthnasol, megis Estyn, AGGCC a Chomisiynydd yr Iaith Gymraeg. Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol yn cael ei gynhyrchu ym mis Ionawr / Chwefror 2014.

### Adolygu ansawdd data

Roedd yr adolygiad yn cael ei adnabod yn flaenorol fel yr ‘archwiliad dangosyddion perfformiad’. Mae'n adolygiad o systemau i sicrhau cywirdeb y wybodaeth am berfformiad ac yn cynnwys detholiad o ddangosyddion perfformiad. Mae gwaith wedi dechrau a bydd yn cael ei adrodd trwy adborth lleol ac yn ymddangos yn Llythyr 2 Asesu Gwelliant ym mis Tachwedd.

### Astudiaeth Gwella - Diogelu

Adolygiad o drefniadau llywodraethu a rheoli awdurdod cyfan ar gyfer diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Bydd yr astudiaeth yn darparu adborth lleol ac adroddiad cenedlaethol. Amseru i’w gadarnhau.

### Astudiaeth Cenedlaethol Llywodraeth Leol – Diwygio Lles

Adolygiad o drefniadau i reoli effaith diwygio lles. Bydd yr astudiaeth hon yn cael eu cynnal mewn nifer o Gynghorau dethol a gall olygu dychwelyd data ar gyfer yr holl awdurdodau. Mae adroddiad cenedlaethol a phapur briffio fel arfer yn cael ei gynhyrchu. Amseru i’w gadarnhau.

### Astudiaeth Cenedlaethol Llywodraeth Leol – Cyflawni gyda llai – yr effaith ar wasanaethau a dinasyddion

Cyntaf mewn cyfres o astudiaethau cenedlaethol i feysydd gwasanaeth penodol i archwilio sut mae defnydd gorau yn cael ei wneud o adnoddau sy'n lleihau. Bydd yr astudiaeth hon yn cael eu cynnal mewn nifer o Gynghorau dethol a gall olygu dychwelyd data ar gyfer yr holl awdurdodau. Mae adroddiad cenedlaethol a phapur briffio fel arfer yn cael ei gynhyrchu. Amseru i’w gadarnhau.

## Gwaith sy'n benodol i Ynys Môn

| Digartrefedd |
| --- |
| Cafodd adolygiad byr o Ddigartrefedd ei gynnal cyn yr etholiad. Bydd y canfyddiadau yn cael eu hadrodd trwy adborth lleol a'u cynnwys yn y Llythyr 1 Asesu Gwelliant. |

| Adolygiad lleol |
| --- |
| Adolygiad o effeithiolrwydd y berthynas rhwng cynghorwyr, a rhwng cynghorwyr a swyddogion, yn dilyn yr etholiadau yn 2013. Bydd y gwaith yn cael ei gynnal mis Tachwedd / Rhagfyr 2013 a bydd yn cael ei adrodd trwy adborth lleol ac yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol. |

www.pwc.co.uk/wales

# *Cyngor Sir Ynys Môn*
# Adroddiad ar gynnydd yr archwiliad ariannol i'r Pwyllgor Archwilio

*Gorffennaf 2013*

23 Gorffennaf 2013

***Y Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu a'r Datganiad o Gyfrifoldebau Archwilwyr a Chyrff Archwiliedig***

*Rydym yn cynnal ein harchwiliad yn unol â Chod Ymarfer Archwilio (y Cod) Archwilydd Cyffredinol Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2010. Caiff hwn ei ategu gan y Datganiad o Gyfrifoldebau Archwilwyr a Chyrff Archwiliedig, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2005. Mae'r ddwy ddogfen ar gael gan Brif Weithredwr pob corff archwiliedig. Diben y datganiad hwn yw cynorthwyo archwilwyr a chyrff archwiliedig drwy esbonio cwmpas cyfrifoldebau archwilwyr, a'r hyn a ddisgwylir gan gyrff archwiliedig mewn meysydd penodol. Paratoir ein hadroddiadau a'n llythyrau yng nghyd-destun y datganiad hwn ac yn unol â'r Cod.*

*Caiff yr adroddiadau a'r llythyrau a baratoir gan archwilwyr a benodwyd a'u cyfeirio at aelodau neu swyddogion eu paratoi at ddefnydd y corff archwiliedig yn unig, ac nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar yr archwilwyr i unrhyw Aelod neu swyddog yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.*

pwc

# *Tabl Cynnwys*

Datganiad am sefyllfa archwiliad ariannol 2012/13 .... 3
Datganiad Cyfrifon 2011/12 .... 3
Grantiau .... 3
Trefniadau cysylltu .... 4

# Datganiad am sefyllfa archwiliad ariannol 2012/13

Diben yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am hynt yr archwiliad ariannol yn erbyn y cerrig milltir allweddol terfynol a nodir yn yr amlinelliad o Archwiliad ariannol 2012/13 a gwaith ardystio grantiau i reolwyr a'r Pwyllgor Archwilio.

| | Erbyn | Cynnydd hyd yma |
|---|---|---|
| **Cyfrifon** | | |
| Amlinelliad o archwiliad ariannol 2012/13 | Chwefror 2013 | Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Chwefror. Ailgyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Gorffennaf ar ôl i ffi gael ei chymedroli'n derfynol ac er budd aelodau newydd o'r pwyllgor. |
| Adolygiad interim a chynllunio'r archwiliad o'r cyfrifon | Mawrth/Ebrill 2013 | Cynhaliwyd yr ymweliadau interim a chwblhawyd y gwaith o gynllunio'r archwiliad o'r cyfrifon. |
| Hyfforddiant ar gyfer aelodau'r pwyllgor archwilio | Gorffennaf 2013 | Darparwyd hyfforddiant ar rôl yr archwiliad allanol a'r pwyllgor archwilio o ran y Datganiad Cyfrifon |
| Profi datganiadau ariannol | Gorffennaf – Medi 2013 | Derbyniwyd y datganiadau ariannol ar 28 Mehefin 2013. Mae gwaith maes archwilio bellach wedi dechrau. |
| Adroddiad ar y cyfrifon terfynol (ISA 260) | Medi 2013 | Adroddiad i'w gyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor Archwilio ym mis Medi 2013. |
| Barn archwilio a thystysgrif gwblhau | Medi 2013 | I'w rhoi gan yr archwilydd penodedig cyn diwedd mis Medi 2013 |
| Cyfrifon y llywodraeth gyfan | Medi 2013 | I'w cwblhau a'u hardystio cyn diwedd mis Medi 2013. |
| Llythyr blynyddol | Tachwedd 2013 | I'w gyflwyno i'r Cyngor erbyn diwedd mis Tachwedd 2013. |

## Datganiad Cyfrifon 2011/12

Gwnaethom hysbysu cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Archwilio na roddodd yr Archwilydd Penodedig dystysgrif gwblhau am fod etholwr lleol wedi gwneud nifer o wrthwynebiadau i'r cyfrifon a oedd yn gofyn am ragor o wybodaeth a gwaith ymchwil. Cawsom ragor o wybodaeth gan y Cyngor a'r etholwr ac rydym wedi gwneud gwaith maes archwilio i ddilysu'r dystiolaeth a roddwyd gan y Cyngor. Rydym bellach wedi dod i gasgliad ar y materion sy'n weddill yn hyn o beth.

Er mwyn rhoi'r dystysgrif gwblhau, roedd hefyd yn ofynnol i ni ailystyried amcangyfrifon pwysig yn y cyfrifon er mwyn bodloni ein hunain yn sgil unrhyw ddigwyddiadau neu wybodaeth ddilynol nad oedd yr amcangyfrifon wedi'u camddatgan mewn ffordd berthnasol. Rydym wedi cynnal yr ymarfer hwn ac mae'r dystysgrif gwblhau wedi'i rhoi gan yr Archwilydd Penodedig, Anthony Barrett.

## Grantiau

**Grantiau 2011/12**

Rydym bellach wedi ardystio pob un o hawliadau 2011/12 ac eithrio'r grant Budd-dal Tai sydd ar gam yr adolygiad technegol terfynol. Mae ein hadroddiad ar grantiau yn rhoi manylion pellach yn y maes hwn.

**Grantiau 2012/13**
Rydym wedi dechrau gwneud gwaith maes ar hawliadau Cymunedau yn Gyntaf a Budd-dal Tai a ddarparwyd gan y Cyngor. Rydym yn rhagweld y byddwn yn gwneud rhagor o waith yn ystod yr haf wrth i'r Cyngor ddarparu rhagor o hawliadau i'w harchwilio gennym.

## *Trefniadau cysylltu*

**â'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol**

Rydym yn gweithio'n agos gyda'r gwasanaeth archwilio mewnol i sicrhau dull archwilio effeithiol. Adolygwyd Cynllun Gweithredol y gwasanaeth Archwilio Mewnol sy'n cynnwys meysydd gwaith ar systemau ariannol craidd a ddefnyddir gennym i lywio ein gwaith ar gyfrifon 2012/13. Rydym yn parhau i gyfarfod â'r gwasanaeth archwilio mewnol yn rheolaidd ochr yn ochr â'r rheolwyr.

**â'r rheolwyr**

Rydym yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd â'r rheolwyr i sicrhau ein bod yn deall y materion allweddol a wynebir gan y Cyngor er mwyn asesu eu heffaith ar ein dull archwilio. Rydym yn parhau i weithio gyda'r rheolwyr ar ôl rhoi system gyfrifyddu Civica ar waith ac yn parhau â momentwm y gwelliant a nodwyd yn ystod proses cyfrifon ac archwilio 2011/12 yn ystod ein harchwiliad o gyfrifon 2012/13.

**â SAC**

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda SAC ac yn ei chefnogi gyda'i gwaith parthed y Mesur Llywodraeth Leol.

Rydym hefyd yn mynd i gyfarfodydd rheolaidd gyda'r Archwilydd Penodedig, Anthony Barrett a chydag archwilwyr eraill awdurdodau lleol yng Nghymru yn y Grŵp Ymarferwyr Llywodraeth Leol sy'n cyfarfod bob chwarter.

Os derbynnir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw'r deiliad, Cyngor Sir Ynys Môn, at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae'r Cod hwn yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, fel ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae trydydd partïon perthnasol yn cynnwys PricewaterhouseCoopers LLP ac Archwilydd Cyffredinol Cymru. I gael rhagor o wybodaeth, anfonwch e-bost i infoofficer@wao.gov.uk.

(h) 2013 PricewaterhouseCoopers LLP. Cedwir pob hawl. Mae “PricewaterhouseCoopers” yn cyfeirio at PricewaterhouseCoopers LLP (partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn y Deyrnas Unedig) neu, gan ddibynnu ar y cyd-destun, gwmnïau eraill sy'n aelodau o PricewaterhouseCoopers International Limited, y mae pob un ohonynt yn endid cyfreithiol annibynnol ac ar wahân.

Diogelir yr adroddiad hwn o dan gyfreithiau hawlfraint y Deyrnas Unedig a gwledydd eraill. Ni chaniateir defnyddio'r wybodaeth hon, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, na'i datgelu heb ganiatâd ysgrifenedig PricewaterhouseCoopers LLP.

C13113

This page is intentionally left blank

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Amlinelliad o'r Archwiliad Ariannol Blynyddol

## Cyngor Sir Ynys Môn

**Blwyddyn archwilio: 2012-13**

**Cyhoeddwyd: Ionawr 2013**

**Cyfeirnod y ddogfen: C13111**

# Statws y ddogfen

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Sir Ynys Môn fel rhan o'r gwaith a gyflawnir/i'w gyflawni yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

I'r graddau a ganiateir yn ôl y gyfraith, nid yw Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) a, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig yn derbyn unrhyw atebolrwydd am golledion yr aed iddynt gan unrhyw aelod, swyddog neu gyflogai arall yn unigol, nac unrhyw drydydd parti o ganlyniad i ddefnyddio'r ddogfen hon.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol.
Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n berthnasol,
ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

Lluniwyd y ddogfen hon gan PwC ar rhan Anthony Barrett, yr Archwilydd Penodedig.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Amlinelliad o'r Archwiliad Ariannol Blynyddol | |
| Rolau a chyfrifoldebau | 4 |
| Y dull archwilio | 5 |
| Cyflwyno adroddiadau | 8 |
| Ffi archwilio | 9 |
| Atodiadau | |
| Elfennau allweddol o'r gwaith archwilio | 11 |
| Tîm yr archwiliad ariannol | 12 |

# Amlinelliad o'r Archwiliad Ariannol Blynyddol

## Rolau a chyfrifoldebau

1. Paratowyd yr Amlinelliad hwn o'r Archwiliad Ariannol Blynyddol i fodloni gofynion y safonau archwilio ac arferion archwilio priodol. Mae'n rhoi amlinelliad i Gyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) o'r gwaith archwilio ariannol sydd ei angen ar gyfer datganiadau ariannol 2012-13.
2. O dan ddarpariaethau Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am benodi archwilwyr allanol (archwilwyr penodedig) ar gyfer cyrff llywodraeth leol.
3. Fel Archwilydd Penodedig, mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi ystyried ac ardystio cyfrifon yr Awdurdod. Yn unol â safonau proffesiynol sy'n gymwys yn rhinwedd y Cod Ymarfer Archwilio a bennwyd o dan y ddeddf, mae hyn yn cynnwys rhoi barn ar b'un a yw'r cyfrifon yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn. Mae'r ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i mi fodloni fy hun o ran y pethau hyn:
   - bod y cyfrifon wedi'u paratoi yn unol â rheoliadau o dan adran 39 o'r ddeddf (Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005);
   - bod y cyfrifon yn cydymffurfio â gofynion yr holl ddarpariaethau statudol eraill sy'n berthnasol iddynt;
   - bod arferion priodol wedi'u dilyn wrth lunio'r cyfrifon;
   - bod yr Awdurdod wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.
4. Mae hefyd yn ofynnol i mi ardystio bod yr archwiliad wedi cael ei gwblhau yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.
5. Nid yw'r archwiliad yn golygu nad oes angen i'r Awdurdod gyflawni'r cyfrifoldebau canlynol:
   - rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
   - cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;

- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol;
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

**6.** Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi hawliau'r cyhoedd ac etholwyr i archwilio datganiadau ariannol yr Awdurdod a dogfennau cysylltiedig, gofyn cwestiynau i fi, fel yr Archwilydd Penodedig, am y cyfrifon a, lle y bo'n briodol, herio eitemau yn y cyfrifon.

**7.** Nodir elfennau allweddol yr archwiliad yn Atodiad 1.

**8.** Caiff dogfen ar wahân, *sef Rhaglen Reoleiddio'r Archwilydd Cyffredinol ar gyfer Archwilio Perfformiad*, ei chyhoeddi yn nodi'r gwaith sydd i'w gyflawni gan yr Archwilydd Cyffredinol o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

**9.** Mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol ardystio hawliadau a ffurflenni grant penodol. Yr Archwilydd Penodedig, gan weithredu fel asiant ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, sy'n cyflawni'r gwaith archwilio mewn perthynas â'r hawliadau a'r ffurflenni hynny.

# Y dull archwilio

## Y tîm archwilio

**10.** Rhoddir gwybodaeth am dîm yr archwiliad ariannol yn Atodiad 2.

## Archwiliad o ddatganiadau ariannol

**11.** Deallaf y caiff rheolaethau mewnol eu cynllunio, eu gweithredu a'u cynnal gan yr Awdurdod i fynd i'r afael â risgiau busnes a nodir sy'n bygwth y gallu i gyflawni amcanion corff a archwilir o ran:

- dibynadwyedd ei adroddiadau ariannol;
- effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd ei weithrediadau;
- ei gydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau cymwys.

**12.** Byddaf yn:

- asesu effeithiolrwydd rheolaethau mewnol lefel uchel a rheolaethau mewnol lefel systemau allweddol i atal a chanfod gwallau perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu;
- asesu effeithiolrwydd y gwasanaeth Archwilio Mewnol;
- adolygu gwaith a gyflawnwyd gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol a cheisio dibynnu arno, fel sy'n briodol;
- datblygu gweithdrefnau cadarn i ymateb i risgiau sy'n gysylltiedig â chamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu.

**13.** Nid wyf yn ceisio cael sicrwydd llwyr bod y datganiadau ariannol a'r nodiadau cysylltiedig yn gywir ac yn deg, ond mabwysiadaf y cysyniad o berthnasedd. Felly, wrth gynllunio a chynnal yr archwiliad, rwyf yn ceisio nodi camddatganiadau perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig, sef y camddatganiadau hynny a allai gamarwain unigolyn sy'n darllen y cyfrifon.

**14.** Caiff y lefelau a ddefnyddiaf i farnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol eu nodi yn fy adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio cyn cwblhau'r archwiliad.

## Risgiau sy'n gysylltiedig â chamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu

**15.** Mae Arddangosyn 1 yn rhoi gwybodaeth am y prif risgiau gweithredol ac ariannol a wynebir gan yr Awdurdod a allai effeithio ar fy archwiliad. Dyma'r prif risgiau a nodais yn ystod y broses gychwynnol o gynllunio'r archwiliad, yn seiliedig ar wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, a'r camau a gynigiwyd i fynd i'r afael â hwy. Mae'n bosibl y bydd angen i mi newid y cynllun archwilio os bydd unrhyw risgiau newydd yn dod i'r amlwg. Ni fyddaf yn gwneud unrhyw newidiadau i'r cynllun archwilio heb eu trafod yn gyntaf â swyddogion a, lle y bo'n berthnasol, y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu.

Exhibit 1: Summary of main audit risks and proposed responses

| Risgiau sylweddol | Camau gweithredu arfaethedig |
|---|---|
| Risgiau sy’n ymwneud â datganiadau ariannol | |
| **Cydnabod refeniw a gwariant**<br>• Mae risg y gallai'r Cyngor fabwysiadu polisïau cyfrifyddu neu drin trafodion incwm a gwariant mewn ffordd sy'n arwain at gamddatganiad perthnasol yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant. | • Byddwn yn deall ac yn gwerthuso'r rheolaethau sydd ar waith i liniaru'r risg hon ac yn gwneud y canlynol:<br>• profi rheolaethau allweddol i gadarnhau eu bod yn gweithredu'n effeithiol.<br>• profi gwaith cysoni allweddol.<br>• profi incwm a gwariant nad yw'n safonol i sicrhau ei fod wedi'i gynnwys yn briodol yn y cyfrifon.<br>• profi bod trafodion sy'n digwydd tua diwedd y flwyddyn wedi'u dosbarthu'n briodol yn y flwyddyn ariannol maent yn ymwneud â hi.<br>• Byddwn yn ystyried y polisïau cyfrifyddu a fabwysiadwyd gan y Cyngor ac yn cynnal y lefel briodol o brofion ar incwm a gwariant er mwyn |

| | |
|---|---|
| | canfod unrhyw gamddatganiad perthnasol. |
| **Rheolwyr yn anwybyddu rheolaethau**<br>• Mewn unrhyw sefydliad, gall rheolwyr fod mewn sefyllfa i anwybyddu'r rheolaethau ariannol sydd ar waith gennych. Gall y fath achos o dorri'r rheolaethau arwain at gamddatganiad perthnasol. | • Byddwn yn deall ac yn gwerthuso prosesau a gweithdrefnau rheolaeth fewnol fel rhan o'n gwaith cynllunio ac yn ceisio dibynnu ar waith archwilio mewnol ar reolaethau allweddol a/neu brofi rheolaethau perthnasol fel rhan o'r archwiliad.<br>• Byddwn yn adolygu priodoldeb y dyddlyfrau a broseswyd yn ystod y flwyddyn.<br>• Byddwn hefyd yn edrych yn ofalus ar unrhyw amcangyfrifon a wnaed gan y rheolwyr ac yn ystyried a oes unrhyw duedd yn perthyn iddynt.<br>• Byddwn yn cynllunio ac yn cyflawni gweithdrefnau mewn perthynas â'r rhesymeg busnes dros drafodion sylweddol.<br>• Mae ein gweithdrefnau archwilio hefyd wedi'u cynllunio i gynnwys elfen anrhagweladwy sy'n amrywio o flwyddyn i flwyddyn. |
| **Amcangyfrifon rheolwyr**<br>• Mae nifer o amcangyfrifon rheolwyr yn y datganiadau ariannol a all fod, o gofio eu natur feirniadol, wedi'u camddatgan mewn modd perthnasol. Gall y rhain gynnwys y ddarpariaeth Cyflog Cyfartal / Statws Sengl, darpariaethau cyffredinol megis ar gyfer drwgddyledion, croniadau ar gyfer tâl gwyliau neu ddarpariaeth Penhesgyn. | • Byddwn yn gweithio gyda'r rheolwyr i flaenoriaethu'r gwaith archwilio ar y meysydd barn allweddol er mwyn sicrhau bod unrhyw broblemau sy'n codi yn cael eu hystyried mor gynnar â phosibl. |

| | |
|---|---|
| Rydym eisoes wedi cynnig addasiadau o ran darpariaeth Penhesgyn a'r ddarpariaeth Cyflog Cyfartal / Statws Sengl sy'n nesáu at ein trothwy perthnasedd ac felly mae risg y gallai unrhyw addasiadau o'r fath a gynigir yn y dyfodol fod yn berthnasol. | |

| Risgiau uwch | Camau gweithredu arfaethedig |
|---|---|
| **Risgiau sy'n ymwneud â'r amgylchedd rheoli** | |
| **Paratoi cyfrifon**<br>• Cafodd anawsterau o ran llenwi swyddi'n barhaol yn y Tîm Cyllid effaith andwyol ar broses llunio cyfrifon y Cyngor yn 2009/10 a 2010/11. Llwyddodd staff interim profiadol i gwblhau'r gwaith erbyn y terfynau amser yn 2011/12. Mae rhai rolau cyfrifyddu allweddol yn dal i gael eu cyflawni gan staff interim ond mae swydd swyddog a151 wedi'i llenwi'n barhaol bellach. Mae'n hanfodol bod perfformiad 2011/12 yn parhau a bod adnoddau digonol a phriodol yn cael eu neilltuo i lunio'r cyfrifon statudol yn unol â'r amserlenni gofynnol. | • Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r rheolwyr er mwyn monitro'r cynnydd a wneir wrth baratoi a llunio cyfrifon 2012/13. Cyflwynwn adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio ar ein barn ynghylch trefniadau'r Cyngor ar gyfer llunio cyfrifon 2012/13.<br>• Byddwn mewn cysylltiad â'r rheolwyr drwy gydol y broses o lunio cyfrifon a chynnal archwiliad ac yn rhoi gwybod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid) a'r Pwyllgor Archwilio am unrhyw broblemau sy'n codi o ran ansawdd ac amseroldeb y cyfrifon a thystiolaeth ategol. |
| **Risgiau sy'n ymwneud â systemau ariannol** | |
| **Eiddo, offer a chyfarpar**<br>Mae'n ofynnol i'r Cyngor sicrhau bod ei eiddo, ei offer a'i gyfarpar a ddelir ar y Fantolen yn cael eu prisio'n ddigon rheolaidd er mwyn sicrhau nad yw'r | Byddwn yn ystyried dull arfaethedig y Cyngor o asesu a chyfiawnhau'r prisiad o'i eiddo, ei offer a'i gyfarpar ar 31 Mawrth 2013 ac yn ystyried a yw'n ddigonol ac yn briodol. |

| | |
|---|---|
| swm cario yn sylweddol wahanol i werth teg yr asedau hyn ar ddiwedd y flwyddyn.<br><br>Rydym eisoes wedi nodi addasiadau archwilio o ran asedau na chânt eu prisio'n ffurfiol yn ystod y flwyddyn nas addaswyd ar sail amherthnasedd. Mae risg y gallai unrhyw addasiadau o'r fath a gynigir yn y dyfodol fod yn berthnasol. | |
| System rhenti tai a chyfriflyfr cyffredinol newydd<br><br>• Rhoddodd y Cyngor system rhenti tai newydd ar waith ym mis Tachwedd 2012, a bydd yn rhoi system cyfriflyfr cyffredinol newydd ar waith ym mis Ebrill 2013. Mae risg y gallai'r broses drosglwyddo achosi problemau, megis , trosglwyddo data anghywir neu anghyflawn. | Mae archwilwyr mewnol y Cyngor wedi adolygu'r broses o drosglwyddo o'r hen system rhenti tai i'r system newydd ac maent wedi profi cywirdeb y cofnodion a drosglwyddwyd. Ni nodwyd unrhyw broblemau. Maent yn bwriadu cynnal adolygiad tebyg o'r broses o drosglwyddo i'r system cyfriflyfr cyffredinol ym mis Ebrill.<br><br>Byddwn yn adolygu'r gwaith a wnaed gan archwilwyr mewnol y Cyngor o ran trosglwyddo i'r systemau newydd ym mis Ebrill ac yn ceisio dibynnu arno. |

## Y defnydd o adnoddau

**16.** Er mwyn cyflawni fy nghyfrifoldebau o ran y trefniadau a sefydlwyd gan yr Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau, byddaf yn dibynnu ar y canlynol:

- canlyniadau'r gwaith archwilio a wnaed ar y datganiadau ariannol;

- system rheolaeth fewnol yr Awdurdod, fel y nodir yn ei ddatganiad llywodraethu a'm hadroddiad cysylltiedig;
- canlyniadau gwaith a gynhaliwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys gwaith a gynhaliwyd o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, ardystiadau o hawliadau a ffurflenni ac ymarferion paru data;
- canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle y bo hynny'n berthnasol i'm cyfrifoldebau;
- unrhyw waith arall sy'n ymdrin â materion nas cwmpesir gan yr uchod, ac yr wyf o'r farn ei fod yn angenrheidiol i gyflawni fy nghyfrifoldebau.

## Cyflwyno adroddiadau

**17.** Mae'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol yn ei gwneud yn ofynnol i archwilwyr penodedig gydymffurfio â safonau archwilio a moesegol perthnasol. Mae'r safonau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i adroddiadau ffurfiol gael eu cyflwyno ar gamau amrywiol yn ystod yr archwiliad i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu.

**18.** Yn benodol, rhaid i archwilwyr nodi'r canlynol:

- cydberthnasau a all ddylanwadu ar annibyniaeth yr archwilydd;
- gwybodaeth am gynllunio'r archwiliad;
- materion penodol i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu (sy'n wahanol i reolwyr) cyn iddynt roi barn ar y datganiadau ariannol.

**19.** Mae Atodiad 1 yn tynnu sylw at elfennau allweddol o'r broses archwilio yn yr Awdurdod, a chadarnhaf nad oes unrhyw fygythiadau hysbys i'm hannibyniaeth fel Archwilydd Penodedig nac annibyniaeth staff na chontractwyr sy'n gweithio i mi.

**20.** Rhydd y ddogfen hon wybodaeth am gynllunio'r archwiliad.

**21.** Byddaf yn cyflwyno adroddiadau i'r Pwyllgor Archwilio, a lle bo angen, i'r Cabinet/Cyngor mewn modd amserol.

**22.** Byddaf yn darparu adroddiadau eraill, neu allbwn arall, fel y cytunir arnynt. Nodir y cerrig milltir allweddol yn Arddangosyn 2.

Arddangosyn 2: Cerrig milltir allweddol

| Yr hyn y bwriedir ei gyflawni | Dyddiad cychwyn arfaethedig | Llunio'r adroddiad terfynol |
|---|---|---|
| Amlinelliad o'r Archwiliad Ariannol Blynyddol | Ionawr 2013 | Chwefror 2013 |
| Adroddiad (ISA260) ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol | Medi 2013 | Medi 2013 |
| Barn Archwilio ar Ddatganiadau Ariannol 2012-13 | Medi 2013 | Medi 2013 |
| Llythyr Archwilio Blynyddol | Tachwedd 2013 | Tachwedd 2013 |

# Ffi archwilio

**23.** Mae'r ffi arfaethedig ar gyfer gwaith archwilio ariannol 2012-13 wedi cael ei osod am £155,000. Codir y ffi (gan gynnwys TAW) mewn rhandaliadau cyfwerth rhwng mis Tachwedd 2012 a mis Hydref 2013.

**24.** Mewn blynyddoedd blaenorol, prin fu'r gwrthwynebiadau ffurfiol i ddatganiadau ariannol yr Awdurdod. Fodd bynnag, caf nifer o ymholiadau ac eitemau o ohebiaeth gan y cyhoedd a phartïon eraill â diddordeb. Mae ychydig o amser wedi'i gynnwys yn y ffi i ymdrin â mân ymholiadau, fel rhan o'r broses gyffredinol o reoli'r archwiliad.

**25.** Bydd unrhyw ymchwiliadau manwl neu waith arall sydd angen ei gyflawni i ymateb i ymholiadau a gwrthwynebiadau yn arwain at ffi ychwanegol. Codir unrhyw ffi ychwanegol o'r fath ar gyfraddau dyddiol yn seiliedig ar y radd neu'r cymysgedd sgiliau penodol sydd eu hangen ar gyfer y gwaith, ond trafodir hyn gyda'r Awdurdod cyn ymgymryd â'r gwaith.

**26.** O ran pob grant neu ffurflen, mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol adennill swm sy'n cwmpasu cost lawn y gwaith perthnasol a gyflawnir. Caiff y ffi ar gyfer gwaith ardystio grantiau a ffurflenni ei chodi ar sail ddyddiol, yn unol â'r graddfeydd ffioedd sy'n ymwneud â sgiliau a nodir yn llythyr ffioedd llywodraeth leol yr Archwilydd Cyffredinol.

Bydd y ffioedd yn adlewyrchu maint, cymhlethdod a materion neilltuol y grantiau penodol.

**27.** Er bod gwaith ardystio grant yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn, ar sail profiad blaenorol ac arwyddion cynnar o newidiadau mewn cynlluniau ac amodau grant, amcangyfrifaf y bydd cyfanswm ffi'r gwaith grant rhwng £120,000 a £140,000.

# Atodiad 1

## Elfennau allweddol o'r gwaith archwilio

| Elfennau allweddol | Gofynion | Rôl yn yr Awdurdod |
|---|---|---|
| **Gweithgareddau ymgysylltu** | | |
| Telerau'r gwaith archwilio | Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi'r cyfrifoldeb am benodi archwilwyr allanol ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru. | Nodir rolau a chyfrifoldebau archwilwyr penodedig uchod ac yn yr atodiad hwn.<br>Gellir gweld y Datganiad llawn o Gyfrifoldebau yn:<br>http://www.wao.gov.uk/assets/englishdocuments/statement_of_responsiblities_of_auditors_eng.pdf |
| Penodi archwilwyr ac arweinwyr ymgysylltu | Cyfrifoldeb yr Archwilydd Cyffredinol yw penodi archwilwyr allanol llywodraeth leol a phennu cyfrifoldeb am bob ymgysylltiad i arweinydd ymgysylltu. | Rhoddir manylion yr Archwilydd Penodedig a'r Arweinydd Ymgysylltu yn Atodiad 2 i'r ddogfen hon. |
| Gwaith dewisol drwy gytundeb | Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi nodi meini prawf clir ar gyfer cymeradwyo unrhyw waith dewisol y gofynnir amdano gan gyrff a archwilir. | Ni ofynnwyd am unrhyw waith dewisol ac nid oes unrhyw waith o'r fath yn yr arfaeth. |
| **Ystyriaethau moesegol** | | |

| Elfennau allweddol | Gofynion | Rôl yn yr Awdurdod |
|---|---|---|
| Annibyniaeth | Mae'n ofynnol i archwilwyr penodedig ystyried y canlynol:<br>• bygythiadau i annibyniaeth yr archwilydd (gan gynnwys ymgyfreitha);<br>• cydberthnasau teuluol a chydberthnasau personol eraill;<br>• cysylltiad hirdymor â'r corff a archwilir (gweler polisi Swyddfa Archwilio Cymru o gylchdroi archwiliadau);<br>• materion dadleuol neu anodd. | Gallaf gadarnhau nad oes unrhyw fygythiadau hysbys i'm hannibyniaeth fel Archwilydd Penodedig nac i annibyniaeth staff na chontractwyr sy'n gweithio i mi, ac fy mod wedi cydymffurfio â pholisi cylchdroi Swyddfa Archwilio Cymru. |
| Perfformiad ymgysylltu | Mae angen i arweinwyr ymgysylltu ystyried pa lefel o sicrwydd ansawdd a lefelau adolygu sy'n briodol. | Mae gweithdrefnau adolygu rheoli ansawdd Swyddfa Archwilio Cymru ar waith ar gyfer yr archwiliad, ac mae'r Arweinydd Ymgysylltu wedi pennu lefelau adolygu priodol yn seiliedig ar brofiad y staff sy'n ymgymryd â'r gwaith archwilio. |

# Atodiad 2

## Tîm yr archwiliad ariannol

| Enw | Rôl | Ffôn cyswllt # | Cyfeiriad e-bost |
|---|---|---|---|
| Anthony Barrett | Archwilydd Penodedig | 029 2032 0500 / 012 4452 5970 | anthony.barrett@wao.gov.uk |
| Lynn Pamment | Partner Ymgysylltu | 029 2080 2390 | lynn.pamment@uk.pwc.com |
| James Quance | Uwch Reolwr Archwilio | 029 2080 2654 | james.quance@uk.pwc.com |
| Joe Hargreaves | Rheolwr yr Archwiliad | 029 2080 2198 | joe.hargreaves@uk.pwc.com |
| Martin George | Arweinydd Tîm yr Archwiliad Ariannol | 029 2080 2014 | martin.r.george@uk.pwc.com |

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU


| Wales Audit Office | Swyddfa Archwilio Cymru |
|---|---|
| 24 Cathedral Road | 24 Heol y Gadeirlan |
| Cardiff CF11 9LJ | Caerdydd CF11 9LJ |
| Tel: 029 2032 0500 | Ffôn: 029 2032 0500 |
| Fax: 029 2032 0600 | Ffacs: 029 2032 0600 |
| Textphone: 029 2032 0660 | Ffôn Testun: 029 2032 0660 |
| E-mail: info@wao.gov.uk | E-bost: info@wao.gov.uk |
| Website: www.wao.gov.uk | Gwefan: www.wao.gov.uk |

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Ardystio Grantiau a Ffurflenni 2011-12

## Cyngor Sir Ynys Môn

**Blwyddyn archwilio:** 2011-12

**Cyhoeddwyd:** Ebrill 2013

**Cyfeirnod y ddogfen:**

# Statws yr adroddiad



Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Sir Ynys Môn fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na'r archwilydd penodedig, lle y bo'n gymwys, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Ardystiwyd 29 o hawliadau grant a ffurflenni ariannol ar gyfer 2011-12 a oedd yn werth cyfanswm o £56,212,148 – un hawliad yn llai na 2010-11 ac roedd cyfanswm eu gwerth tua £2,751,484 yn llai. | 5 |
| O'r 29 o hawliadau grant a ardystiwyd, roedd pum hawliad yn ymwneud â blynyddoedd ariannol cynharach. Roedd y rhain yn werth cyfanswm o £23,558,208. | 6 |
| Cyfanswm ein ffi ar gyfer ardystio grantiau a ffurflenni oedd £137,319 – £22,360 yn llai na 2010-11. | 6 |
| Ardystiwyd 12 o hawliadau heb unrhyw amodau na diwygiadau. Diwygiwyd chwe hawliad yn dilyn ein harchwiliad, ardystiwyd wyth hawliad gydag amod, a diwygiwyd ac amodwyd tri hawliad. | 7 |
| Amodwyd 38% o gyfanswm yr hawliadau a dderbyniwyd. Roedd nifer o resymau dros ein hamodau. Gallai'r amodau a godwyd gennym fod yn werth tua £336,827. | 8 |
| Diwygiwyd 31% o gyfanswm yr hawliadau. Y rheswm mwyaf cyffredin dros amodi hawliad oedd am nad oedd wedi'i baratoi'n gywir. Diwygiwyd dau hawliad dros £10,000. Effaith net yr holl ddiwygiadau oedd cynnydd o £88,106 yn y symiau a hawliwyd. | 9 |
| Ar y cyfan roedd yr Awdurdod wedi gwella'r trefniadau a oedd ar waith ar gyfer cynhyrchu a chyflwyno ei hawliadau grant ar gyfer 2011-12. Mae lle i wella ymhellach. | 10 |
| Cyflwynwyd 61% o'r hawliadau ar amser. | 10 |
| Cafwyd dau amod yn llai a'r un nifer o ddiwygiadau o gymharu â 2010-11. | 10 |
| Argymhellwn fod yr Awdurdod yn adolygu'r meysydd lle y gwnaed amodau a diwygiadau eleni. | 11 |

## Atodiadau


| | |
|---|---|
| Atodiad 1 – Rhestr o'r grantiau a ardystiwyd gennym | 12 |
| Atodiad 2 – Rhestr o ddiwygiadau ac amodau | 17 |
| Atodiad 3 – Tabl o argymhellion | 29 |
| Atodiad 4 – Gwaith sydd i'w wneud o hyd | 36 |

# Ardystiwyd 29 o hawliadau grant a ffurflenni ariannol ar gyfer 2011-12 a oedd yn werth cyfanswm o £56,212,148 – un hawliad yn llai na 2010-11 ac roedd cyfanswm eu gwerth tua £2,751,484 yn llai.

1. O dan Baragraff 20 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, bydd yr Archwilydd Cyffredinol, os yw'n ofynnol gan gorff llywodraeth leol neu gorff arall sy'n derbyn grant, yn trefnu i ardystio hawliadau a ffurflenni (y cyfeirir atynt fel hawliadau grant o hyn ymlaen).

2. Nod ein gwaith oedd ardystio hawliadau unigol ac ateb y cwestiwn canlynol:

   *'A oes gan Gyngor Sir Ynys Môn (yr Awdurdod) drefniadau digonol ar waith i sicrhau y cynhyrchir hawliadau grant cydgysylltiedig, cywir, ac amserol a ddogfennwyd yn gywir?'*

3. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi gwerth y gwahanol hawliadau a ffurflenni a ardystiwyd gennym:

| **Disgrifiad** | **Gwerth a Hawliwyd** |
|---|---|
| Grantiau Llywodraeth Leol | £14.8 miliwn |
| Grantiau Ewropeaidd a hawliwyd drwy WEFO | £1.9 miliwn |
| Ardrethi Annomestig Cenedlaethol – Cyfraniad at y Gronfa | £14.6 miliwn |
| Budd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor – Cyfanswm y Cymhorthdal a Hawliwyd | £ 22.9 miliwn |
| Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai | £ 2.0 miliwn (yn daladwy) |
| **Cyfanswm:** | **£56.2 miliwn** |

## Hefyd, ardystiwyd pum hawliad a oedd yn ymwneud â blynyddoedd ariannol cynharach. Roedd y rhain yn werth cyfanswm o £23,588,208.

4. Ceir rhestr lawn o'r hawliadau a'r ffurflenni a archwiliwyd gennym yn ystod rhaglen waith eleni yn Atodiad 1.

5. Ceir rhestr o waith sydd i'w wneud o hyd yn Atodiad 4.


## Cyfanswm ein ffi ar gyfer ardystio grantiau a ffurflenni oedd £137,319 – £22,360 yn llai na 2010-11.

6. Yn ystod ein rhaglen waith yn 2011-12, ardystiwyd hawliadau a oedd yn werth 5% yn llai na'n gwaith yn 2010-11. Fodd bynnag, roedd cyfanswm y ffi a godwyd ar gyfer ein rhaglen waith yn 2011-12 14% yn llai.

7. Dengys Atodiad 1 ddadansoddiad o'r ffioedd a godwyd gennym am bob un o'r hawliadau a ardystiwyd gennym.

## Ardystiwyd 12 o hawliadau heb unrhyw amodau na diwygiadau. Diwygiwyd chwe hawliad yn dilyn ein harchwiliad, ardystiwyd wyth hawliad gydag amod, a diwygiwyd ac amodwyd tri hawliad.


8. Mae'r siart isod yn crynhoi canlyniadau ein harchwiliad:





9. Ceir rhestr fanwl o'r hawliadau a ardystiwyd gennym a chanlyniadau ein gwaith archwilio yn Atodiad 1.

## Amodwyd 38% o gyfanswm yr hawliadau a ardystiwyd gennym. Roedd nifer o resymau dros ein hamodau. Gallai'r amodau a godwyd gennym fod yn werth tua £336,827.

10. Mae'r siartiau isod yn crynhoi'r rhesymau pam y gwnaethom amodi hawliadau.









11. Amodwyd 11 o'r 29 o hawliadau a ardystiwyd. Roedd yn amodau'n cwmpasu hawliadau gwerth tua £336,827. Ceir dadansoddiad manylach o'r amodau a godwyd ar gyfer pob hawliad yn Atodiad 2.

## Diwygiwyd 31% o gyfanswm yr hawliadau. Y rheswm mwyaf cyffredin dros ddiwygio hawliad oedd am nad oedd wedi'i baratoi'n gywir. Diwygiwyd dau hawliad dros £10,000. Effaith net yr holl ddiwygiadau oedd cynnydd o £88,106 yn y symiau a hawliwyd.

12. Mae'r siartiau isod yn crynhoi'r rhesymau pam y gwnaethom ddiwygio hawliadau:




13. Arweiniodd pedwar o'r diwygiadau at gynnydd yn y swm a hawliwyd gan yr Awdurdod, a oedd yn cyfateb i £88,114. Arweiniodd dau o'r diwygiadau at ostyngiad yn y swm a hawliwyd, a oedd yn cyfateb i £8. Ni chafodd tri diwygiad unrhyw effaith ar y swm a hawliwyd. Yr effaith net oedd cynnydd cyffredinol o £88,106. Ceir dadansoddiad manylach o'r diwygiadau a wnaed i bob hawliad yn Atodiad 2.

# Ar y cyfan roedd yr Awdurdod wedi gwella'r trefniadau a oedd ar waith ar gyfer llunio a chyflwyno ei hawliadau grant ar gyfer 2011-12. Mae lle i wella ymhellach.

14. Roedd gan yr Awdurdod gydgysylltydd grantiau ar y safle a fu'n gweithio'n agos gyda ni er mwyn sicrhau bod rhestr gywir a chyfredol o grantiau 2011-12 ar gael drwy gydol y flwyddyn.

15. Rhoddwyd protocol cydweithio ar waith cyn dechrau'r archwiliad.



## Cyflwynwyd 61% o'r hawliadau ar amser.

16. Cyflwynwyd 17 o'r 28 o hawliadau yn 2011/12 erbyn y terfyn amser ar gyfer eu cyflwyno neu'n gynharach. Cyflwynwyd 11 o hawliadau yn hwyr ond cwblhawyd saith ohonynt erbyn y terfyn amser ar gyfer eu hardystio. Ardystiwyd dau hawliad ar ôl y terfyn amser ar gyfer eu hardystio. Nid yw'r ddau hawliad sy'n weddill wedi'u cyflwyno hyd yma ac fe'u nodir yn Atodiad 4.

## Cafwyd dau amod yn llai a'r un nifer o ddiwygiadau o gymharu â 2010-11.

17. Mae perfformiad yr Awdurdod yn gwella ar y cyfan ac mae nifer y canfyddiadau pwysig yn fach.

## Argymhellwn fod yr Awdurdod yn adolygu'r meysydd lle y gwnaed amodau a diwygiadau eleni.

18. Rydym wedi gwneud wyth argymhelliad er mwyn i'r Awdurdod wella ei berfformiad o ran rheoli cynlluniau grant a'u hawliadau cysylltiedig ymhellach.
19. Mae'r argymhellion yn ymdrin â'r meysydd lle y gwnaethom amodi neu ddiwygio hawliadau yn 2011-12:
    - A1. Dylid cwblhau pob ffurflen hawlio yn llawn, yn unol â'r canllawiau cwblhau, a'i gwirio yn annibynnol yn erbyn y ddogfennaeth ategol.
    - A2. Dylid rhoi rheolaethau ar waith er mwyn sicrhau mai dim ond gwariant cymwys yr aed iddo o fewn y cyfnod hawlio a gaiff ei gynnwys yn yr hawliad.
    - A3. Dylid dyfarnu pob contract a gaiff ei ariannu ag arian grant yn unol â rheol sefydlog yr Awdurdod. Dylid cadw rhestr lawn o gontractau ar gyfer pob hawliad grant, ynghyd â chopïau o'r ddogfennaeth sy'n ymwneud â dyfarnu'r tendr.
    - A4. Dylid gwneud gwaith cysoni cyn pob archwiliad i gadarnhau bod y ffigurau yn y ffurflen hawlio yn cyfateb i'r cyfriflyfr cyffredinol a dylid cadw copi o'r gwaith cysoni ar ffeil.
    - A5. Dylid cwblhau a chadw taflenni amser ar gyfer yr holl gostau staff a ddosrennir ar draws nifer o hawliadau grant er mwyn sicrhau cywirdeb yr amser a dreuliwyd gan bob unigolyn o ran y gweithgaredd perthnasol.
    - A6. Dylid rhoi trefniadau monitro cadarn ar waith i sicrhau y caiff yr holl gyllid a drosglwyddir i drydydd partïon ei wario yn unol â thelerau ac amodau'r grant.
    - A7. Dylai'r Awdurdod sicrhau y caiff pob anfoneb ei ffeilio'n briodol er mwyn sicrhau diogelwch digonol gan sicrhau hefyd ei bod ar gael yn hawdd fel y gellir cyfeirio ati yn y dyfodol. Dylid ategu pob ad-daliad mewnol â chyfrifiadau priodol.
    - A8. Dylai'r Awdurdod sicrhau y caiff telerau ac amodau'r arian grant eu hadolygu'n ofalus er mwyn nodi unrhyw ofynion ychwanegol/penodol y mae'n rhaid cydymffurfio â hwy. Dylid rhoi systemau a phrosesau ar waith fel y bo'n briodol er mwyn sicrhau y bodlonir y gofynion hyn.
20. Rydym yn parhau i weithio gyda'r Awdurdod i wneud y gwelliannau hyn ar gyfer 2012-13.
21. Ceir tabl manwl o'n hargymhellion yn Atodiad 3.

# Atodiad 1

# Rhestr o'r grantiau a ardystiwyd gennym

## Hawliadau a ffurflenni 2011-12

| Cyf | Enw'r grant neu'r ffurflen | Gwerth yr hawliad neu'r ffurflen | Newid yn y gwerth o gymharu â 2010-11 | Cyflwynwyd ar amser | Canlyniad archwilio ar gyfer 2011-12 | Cymhariaeth â'r canlyniad archwilio o 2010-11 | Ffi archwilio 2011-12 | Newid yn y ffi o gymharu â 2010-11 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Cymunedau yn Gyntaf Tudur (Craidd) | £150,363 | +3.77% | Ar amser | Dim diwygiad nac amod | Amodwyd | £1,881 | -4.47% |
| 2 | Cymunedau yn Gyntaf Ward Porthladd Amlwch (Craidd) | £153,544 | +8.45% | Ar amser | Diwygiwyd | Dim diwygiad nac amod | £1,710 | -3.12% |
| 3 | Cymunedau yn Gyntaf Swyddfa Ganolog (Craidd) | £46,430 | 22.53% | Ar amser | Dim diwygiad nac amod | Amodwyd | £1,965 | -3.53% |
| 4 | Cymunedau yn Gyntaf Porth-y-felin (Craidd) | £138,217 | +6.36% | Ar amser | Dim diwygiad nac amod | Dim diwygiad nac amod | £1,333 | +0.76% |
| 5 | Cymunedau yn Gyntaf Morawelon (Craidd) | £145,007 | -2.40% | Ar amser | Dim diwygiad nac amod | Dim diwygiad nac amod | £1,608 | -13.32% |
| 6 | Cymunedau yn Gyntaf Amlwch (Canlyniadau) | £64,012 | +206.74% | Ar amser | Dim diwygiad nac amod | Dim diwygiad nac amod | £1,412 | -5.43% |

| Cyf | Enw'r grant neu'r ffurflen | Gwerth yr hawliad neu'r ffurflen | Newid yn y gwerth o gymharu â 2010-11 | Cyflwynwyd ar amser | Canlyniad archwilio ar gyfer 2011-12 | Cymhariaeth â'r canlyniad archwilio o 2010-11 | Ffi archwilio 2011-12 | Newid yn y ffi o gymharu â 2010-11 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 7 | Cymunedau yn Gyntaf Porth-y-felin (Canlyniadau) | £20,938 | +443.90% | 104 o ddiwrnodau'n hwyr | Amodwyd | Amodwyd | £1,484 | -7.19% |
| 8 | Grant trafnidiaeth | £345,100 | -9.66% | Ar amser | Amodwyd | Amodwyd | £3,220 | -13.81% |
| 9 | Cymhorthdal budd-dal tai a budd-dal y dreth gyngor 2011/12 | £23,467,913 | +2.60% | Yn parhau – gweler atodiad 4 | Yn parhau – gweler atodiad 4 | Amodwyd | £30,237 – yn parhau | -62.89% |
| 10 | Ardrethi Annomestig Cenedlaethol | £14,669,193 | +16.97% | Ar amser | Diwygiwyd ac amodwyd | Diwygiwyd ac amodwyd | £9,631 | -3.49% |
| 11 | Ffurflen pensiynau athrawon | £4,507,615 | -0.82% | Ar amser | Diwygiwyd | Dim diwygiad nac amod | £3,317 | -0.18% |
| 12 | Cynlluniau draenio tir | £1,204,938 | Dd/G | Ar amser | Dim diwygiad nac amod | Dd/G – hawliad newydd | £3,611 | Dd/G |
| 13 | Grant effeithiolrwydd ysgol | £951,790 | +50.59% | Yn parhau – gweler atodiad 4 | Yn parhau – gweler atodiad 4 | Dim diwygiad nac amod | Dd/G – yn parhau | Dd/G |
| 14 | Llwybrau dysgu 14-19 | £720,706 | -0.19% | Ar amser | Diwygiwyd | Dim diwygiad nac amod | £2,395 | -7.92% |

| Cyf | Enw'r grant neu'r ffurflen | Gwerth yr hawliad neu'r ffurflen | Newid yn y gwerth o gymharu â 2010-11 | Cyflwynwyd ar amser | Canlyniad archwilio ar gyfer 2011-12 | Cymhariaeth â'r canlyniad archwilio o 2010-11 | Ffi archwilio 2011-12 | Newid yn y ffi o gymharu â 2010-11 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 15 | Dechrau'n Deg | £563,466 | -11.16% | Ar amser | Diwygiwyd | Amodwyd | £3,157 | +5.98% |
| 16 | Cymorth | £696,833 | -40.81% | Ar amser | Diwygiwyd ac amodwyd | Amodwyd | £3,997 | +47.98% |
| 17 | Cronfa weithredu ar gamddefnyddio sylweddau | £526,921 | +0.96% | Ar amser | Dim diwygiad nac amod | Amodwyd | £3,397 | -0.85% |
| 18 | Grant Adsefydlu Strategaeth Anabledd Dysgu Llywodraeth Cymru | £967,771 | +0.90% | Ar amser | Amodwyd | Amodwyd | £3,313 | +49.37% |
| 19 | Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai | £2,000,522 | -6.52% | Ar amser | Diwygiwyd | Diwygiwyd ac amodwyd | £4,675 | +1.63% |
| 20 | Rheoli gwastraff cynaliadwy | £1,911,343 | -2.72% | Ar amser | Dim diwygiad nac amod | Dim diwygiad nac amod | £2,631 | +8.32% |
| 21 | Ardaloedd adfywio strategol | £130,000 | -89.47% | Ar amser | Dim diwygiad nac amod | Dim diwygiad nac amod | £3,963 | -30.98% |
| 22 | Grant ar gyfer consortia trafnidiaeth rhanbarthol | £538,000 | Dd/G | Ar amser | Dim diwygiad nac amod | Dd/G – hawliad newydd | £2,076 | Dd/G |

| Cyf | Enw'r grant neu'r ffurflen | Gwerth yr hawliad neu'r ffurflen | Newid yn y gwerth o gymharu â 2010-11 | Cyflwynwyd ar amser | Canlyniad archwilio ar gyfer 2011-12 | Cymhariaeth â'r canlyniad archwilio o 2010-11 | Ffi archwilio 2011-12 | Newid yn y ffi o gymharu â 2010-11 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 23 | Teithio rhatach am ddim | £687,323 | +5.10% | Ar amser | Diwygiwyd | Amodwyd | £2,428 | +69.91% |
| 24 | Maes awyr Ynys Môn | £331,732 | +8.88% | Ar amser | Dim diwygiad nac amod | Dim diwygiad nac amod | £1,051 | +37.21% |
| 25 | Rhaglen datblygu'r gweithlu gofal cymdeithasol | £212,672 | -33.03% | Ar amser | Dim diwygiad nac amod | Dim diwygiad nac amod | £2,350 | +2.66% |
| 26 | Datblygu amgylchedd arfordirol Ynys Môn - rhaglen gydgyfeirio'r UE | £1,891,294 | -9.23% | 16 o ddiwrnodau'n hwyr | Amodwyd | Diwygiwyd ac amodwyd | £5,536 | +16.40% |
| 27 | Y gronfa fuddsoddi leol - Rhaglen gydgyfeirio'r UE | I'w gadarnhau | - | Heb ddechrau - gweler atodiad 4 | Heb ddechrau - gweler atodiad 4 | Diwygiwyd ac amodwyd | Dd/G | Dd/G |
| 28 | Prosiect safleoedd a mangreoedd strategol | I'w gadarnhau | - | Heb ddechrau - gweler atodiad 4 | Heb ddechrau - gweler atodiad 4 | Dd/G - hawliad newydd | Dd/G | Dd/G |

## *Hawliadau a ffurflenni yn ymwneud â blynyddoedd ariannol cynharach:*

| Cyf | Enw'r grant neu'r ffurflen | Blwyddyn hawlio | Gwerth yr hawliad neu'r ffurflen | Canlyniad archwilio | Ffi archwilio | Rheswm dros ardystio'n hwyr |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 29 | Cymunedau yn Gyntaf Maeshyfryd (Craidd) | 2005/06 | £137,377 | Amodwyd | £2,288 | Nodwyd nifer fawr o wallau yn y ffurflen hawlio a arweiniodd at waith archwilio ychwanegol. |
| 30 | Cymunedau yn Gyntaf Maeshyfryd (Craidd) | 2006/07 | £120,084 | Amodwyd | £1,495 | Nodwyd nifer fawr o wallau yn y ffurflen hawlio a arweiniodd at waith archwilio ychwanegol. |
| 31 | Cronfa Gyfalaf Cynnal a Chadw Ffyrdd | 2009/10 | £453,358 | Amodwyd | £2,751 | Nodwyd nifer fawr o wallau yn y ffurflen hawlio a arweiniodd at waith archwilio ychwanegol. |
| 32 | Budd-dal tai a budd-dal y dreth gyngor | 2010/11 | £22,873,539 | Diwygiwyd ac amodwyd | £81,470 *(£30,237 yr aed iddo yn 2011/12) | Nodwyd nifer fawr o wallau yn y ffurflen hawlio a arweiniodd at waith archwilio ychwanegol. |
| 33 | Cymunedau yn Gyntaf - Porth-y-felin (Canlyniadau) | 2010/11 | £3,850 | Amodwyd | £1,599 | Cyflwynwyd yn hwyr |

# Atodiad 2

## Rhestr o ddiwygiadau ac amodau

| Cyf | Enw'r grant neu'r ffurflen | Rheswm dros amodi | Gwerth posibl yr amod | Rheswm dros ddiwygio | Gwerth y diwygiad |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Cymunedau yn Gyntaf Ward Porthladd Amlwch (Craidd) | Dd/G | - | Gwall teipograffyddol yng ngholofnau 2 a 5 yn llinell cyflog y cydgysylltydd. | Dim effaith ar y symiau a wariwyd na'r symiau a dderbyniwyd |

| Cyf | Enw'r grant neu'r ffurflen | Rheswm dros amodi | Gwerth posibl yr amod | Rheswm dros ddiwygio | Gwerth y diwygiad |
|---|---|---|---|---|---|
| 2 | Cymunedau yn Gyntaf Porth-y-felin (Canlyniadau) | • Ni ellid darparu unrhyw ddogfennaeth i ategu un o'r tri swm o arian mân yn ystod y profion.<br>• Ni cheisiwyd cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gwaredu'r holl asedau yn ystod y cyfnod hawlio. Ni wnaed unrhyw elw o waredu asedau am eu bod wedi'u sgrapio neu'n cael eu hystyried yn ddarfodedig.<br>• Nid yw'r swm gwirioneddol o arian cyfatebol a ddefnyddiwyd sy'n ymddangos yn y rhestr o drafodion yn cyd-fynd â'r swm a nodir yng ngholofn 15 o'r ffurflen hawlio. Mae'r swm gwirioneddol o arian cyfatebol a ddefnyddiwyd yn dal i fod yn llai na'r swm gwreiddiol y cytunwyd arno yn y llythyr cynnig. At hynny, mae elfen arian cyfatebol yr hawliad yn cyfateb i 58% o'r cyfanswm a wariwyd, sydd uwchlaw'r meincnod o 50% fel y nodir ym mharagraff 48 o CI RG01. Mae'r ddau swm o wariant yn llai na'r symiau a nodwyd yn y llythyr cynnig y cytunwyd arno gyda Llywodraeth Cymru. | £1,232.13 | Dd/G | - |

| Cyf | Enw'r grant neu'r ffurflen | Rheswm dros amodi | Gwerth posibl yr amod | Rheswm dros ddiwygio | Gwerth y diwygiad |
|---|---|---|---|---|---|
| 3 | Grant trafnidiaeth | • Wrth brofi dogfennau pwysig dewiswyd eitem o wariant gwerth £88,839.61, sef y dyfynbris gwreiddiol am ddarn o waith a oedd yn ymwneud â chynllun cymeradwy. Hawliwyd y swm hwn yn llawn fel rhan o'r grant. Fodd bynnag, dim ond £72,378.02 a anfonebwyd ar ôl hynny, a oedd yn golygu bod gwahaniaeth o £16,461.59.<br>• At hynny, nodwyd mai dim ond £12,124.80 o'r cyfanswm a anfonebwyd, sef £72,378.02, a oedd yn ymwneud â'r flwyddyn 2011/12, ac roedd y swm a oedd yn weddill, sef £60,253.22, i'w briodoli i'r flwyddyn 2012/13. Nid yw'r Awdurdod wedi diwygio ffurflen 2011/12. | £76,714.81 | Dd/G | - |

| Cyf | Enw'r grant neu'r ffurflen | Rheswm dros amodi | Gwerth posibl yr amod | Rheswm dros ddiwygio | Gwerth y diwygiad |
|---|---|---|---|---|---|
| 4 | Ardrethi Annomestig Cenedlaethol | Nodwyd gwallau o ran gweithredu'r rhyddhad canlynol;<br>• Rhyddhad elusennol gorfodol.<br>• Clwb Chwaraeon Amatur Cymunedol (CASC) – Llinellau 6.5 a 6.6.<br>• Eiddo gwag – Llinellau 11 a 12<br>• Rhyddhad atodol dewisol – Llinellau 17 a 18 | £8,412.80 | Nid yw'r awdurdod wedi cynnwys symiau o ran addasiadau o daliadau a ohiriwyd o 2009/10 | £3,003.00.80 |
| 5 | Ffurflen pensiynau athrawon | Dd/G | - | Diwygiad o ran gwall cyfrifo yng nghyfanswm y cyflog cyfrannol gwirioneddol – llinell darparwyr eraill y gyflogres (llinell 3) ac nid yw'n effeithio ar y balans terfynol yn llinellau 5a a 5b. | (£5.38) |
| 6 | Llwybrau dysgu 14-19 | Dd/G | - | Diwygiadau o ran y dadansoddiad o'r modd y dyrannwyd grantiau rhwng y categorïau Cyfrwng Cymraeg a Fforwm Cyfrwng Cymraeg, sydd wedi'i newid er mwyn adlewyrchu'r dadansoddiad yn y cyfarwyddiadau cwblhau. Erys cyfanswm y ddau yn ddigyfnewid ac nid yw'n effeithio ar y symiau a wariwyd na'r symiau a dderbyniwyd. | £DIM |

| Cyf | Enw'r grant neu'r ffurflen | Rheswm dros amodi | Gwerth posibl yr amod | Rheswm dros ddiwygio | Gwerth y diwygiad |
|---|---|---|---|---|---|
| 7 | Dechrau'n Deg | Dd/G | - | Diwygiad o ran cywiro'r modd y dyrannwyd cyfanswm y gwariant ar draws pob ffrwd ariannu a gofnodwyd yng ngholofn B o'r Tabl o ffrydiau ariannu. Mae cyfanswm y gwariant cymwys gwirioneddol ar gyfer 2011-12 yn ddigyfnewid o'r cyflwyniad gwreiddiol. | £DIM |

| Cyf | Enw'r grant neu'r ffurflen | Rheswm dros amodi | Gwerth posibl yr amod | Rheswm dros ddiwygio | Gwerth y diwygiad |
|---|---|---|---|---|---|
| 8 | Cymorth | • Roedd y gwaith a wnaed ar gyfer hawliad eleni yn cynnwys cadarnhad y cytunwyd ar gytundebau lefel gwasanaeth a lofnodwyd gyda holl bartneriaid Cymorth. Fodd bynnag, cwblhawyd y cytundebau lefel gwasanaeth rhwng mis Mehefin a mis Medi 2011, nad yw'n cwmpasu cyfnod llawn yr hawliad. Felly, nid oedd cytundebau lefel gwasanaeth ar waith ar gyfer yr holl wariant yr aed iddo a nodir yn yr hawliad hwn.<br>• Nodwyd bod un eitem o wariant a brofwyd i'w phriodoli i fis Awst 2012, ar ôl i'r cyfnod hawlio ddod i ben ar 31 Mawrth 2012. Ymchwiliodd yr Awdurdod i'r eithriad hwn a nododd ddau achos arall. Cyfanswm gwerth yr eithriadau hyn yw £55,569.50. | £55,569.50 | Cywiro cyfanswm y gwariant ar draws pob prosiect a gofnodwyd yng Ngholofn B o'r tabl o brosiectau. Mae cyfanswm y gwariant cymwys gwirioneddol ar gyfer 2011-12 wedi cynyddu £33,901.64 o'r cyflwyniad gwreiddiol i £696,832.64. | £33,901.64 |

| Cyf | Enw'r grant neu'r ffurflen | Rheswm dros amodi | Gwerth posibl yr amod | Rheswm dros ddiwygio | Gwerth y diwygiad |
|---|---|---|---|---|---|
| 9 | Grant Adsefydlu Strategaeth Anabledd Dysgu Llywodraeth Cymru | • Mae cyfanswm y gwariant a hawliwyd yn cynnwys £65,960 sy'n ymwneud â chostau cyflog dosranedig pedwar swyddog. Nid yw canran cyfanswm y cyflog a ddosrannwyd wedi'i hategu gan daflenni amser ac, felly, ni fu'n bosibl i ni gadarnhau bod y ganran a ddosrannwyd i'r grant yn adlewyrchiad teg o'r amser gwirioneddol a dreuliwyd gan y swyddogion ar brosiect y grant. Felly, ni fu'n bosibl i ni ddod i gasgliad o ran p'un a yw'r dosraniadau yn deg ai peidio. Codwyd y mater hwn hefyd yn dilyn ein harchwiliad o hawliad y flwyddyn flaenorol.<br>• Aed i wariant ar gyfer yr hawliad hwn gan yr awdurdod ac un sefydliad trydydd parti. Ni fu'n bosibl i'r awdurdod roi copi wedi'i lofnodi o'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth hwn â'r partner i ni. O ganlyniad, ni allwn gadarnhau a oedd Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar waith pan aed i'r gwariant a gynhwyswyd yn yr hawliad hwn. | £DIM | Dd/G | - |

| Cyf | Enw'r grant neu'r ffurflen | Rheswm dros amodi | Gwerth posibl yr amod | Rheswm dros ddiwygio | Gwerth y diwygiad |
|---|---|---|---|---|---|
| 10 | Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai | Dd/G | - | • Dylid defnyddio'r gofyniad ariannu cyfalaf agoriadol fel sail i gyfrifo cell 0385 yn hytrach na'r gofyniad ariannu cyfalaf cymhorthdal agoriadol.<br>• Defnyddiodd yr awdurdod y cyfartaledd yn hytrach na nifer wirioneddol yr anheddau i gyfrifo nifer y celloedd.<br>• Gwnaed nifer o ddiwygiadau oherwydd gwerthoedd anghywir a nodwyd yn y papurau gwaith ac yn hawliad y flwyddyn flaenorol. | £3,657.00 |
| 11 | Teithio rhatach am ddim | DIM | - | Nodwn fod y cyfanswm sy'n cael ei hawlio gan yr awdurdod yn £687,324.00 yn wreiddiol. Dengys cofnodion sylfaenol yr awdurdod y dylai'r swm hwn fod yn £687,322 ac felly mae ffurflen ddiwygiedig wedi'i chwblhau. | (£2.00) |

| Cyf | Enw'r grant neu'r ffurflen | Rheswm dros amodi | Gwerth posibl yr amod | Rheswm dros ddiwygio | Gwerth y diwygiad |
|---|---|---|---|---|---|
| 12 | Datblygu amgylchedd arfordirol Ynys Môn - rhaglen gydgyfeirio'r UE | • Nid oedd trafodion gwariant wedi'u talu erbyn diwedd y cyfnod hawlio ac, felly, nid oeddent yn gyfystyr â gwariant cymwys.<br>• Ni chafwyd arian cyfatebol wedi'i dargedu yn ystod y cyfnod hawlio.<br>• Gwall dosbarthu yn yr is-gategorïau gwariant marchnata a hyrwyddo | £46,401.09 | Dd/G | - |

| Cyf | Enw'r grant neu'r ffurflen | Rheswm dros amodi | Gwerth posibl yr amod | Rheswm dros ddiwygio | Gwerth y diwygiad |
|---|---|---|---|---|---|
| 13 | Cymunedau yn Gyntaf Maeshyfryd (Craidd) 2005/06 | • Mae nifer o drosglwyddiadau gwerth mwy na £2,000 wedi'u cofnodi ar y ffurflen hawlio. Cafwyd cymeradwyaeth ôl-weithredol ar gyfer y trosglwyddiadau hyn yn 2011. Fodd bynnag, ni fu'n bosibl i'r Awdurdod roi tystiolaeth i ddangos iddo gael cytundeb ysgrifenedig y Cynulliad ymlaen llaw cyn prosesu'r trosglwyddiadau.<br>• Methiant i gydymffurfio â'r rheolau sefydlog ar gyfer dyfarnu contractau - dyfarnwyd contractau heb gael tri dyfynbris.<br>• Gwariant anghymwys.<br>• Dogfennaeth annigonol i ategu'r gwariant a hawliwyd (anfonebau coll).<br>• Dogfennaeth annigonol i ategu'r gwariant a hawliwyd (taliadau mewnol heb ddogfennaeth ategol ddigonol).<br>• Nid yw'r gofrestr asedau wedi'i chynnal ar gyfer asedau a brynwyd o dan y grant hwn. | £17.909.00 | Dd/G | - |

| Cyf | Enw'r grant neu'r ffurflen | Rheswm dros amodi | Gwerth posibl yr amod | Rheswm dros ddiwygio | Gwerth y diwygiad |
|---|---|---|---|---|---|
| 14 | Cymunedau yn Gyntaf Maeshyfryd (Craidd) 2006/07 | • Mae un trosglwyddiad gwerth £3,450 wedi'i gofnodi ar y ffurflen hawlio. Fodd bynnag, ni fu'n bosibl i'r Awdurdod roi tystiolaeth i ddangos iddo gael caniatâd ysgrifenedig y Cynulliad ymlaen llaw cyn prosesu'r trosglwyddiad.<br>• Gwariant anghymwys.<br>• Dogfennaeth annigonol i ategu'r gwariant a hawliwyd (taliadau mewnol heb ddogfennaeth ategol ddigonol).<br>• Nid yw'r gofrestr asedau wedi'i chynnal ar gyfer asedau a brynwyd o dan y grant hwn. | £7,667.00 | Dd/G | - |
| 15 | Cronfa Gyfalaf Cynnal a Chadw Ffyrdd 2010/11 | Nodwyd dwy eitem o wariant fel rhan o'n gwaith i brofi dogfennau pwysig a oedd yn ymwneud â phrosiectau nas cymeradwywyd i ddechrau neu ar ôl hynny gan Lywodraeth Cymru. Mae cyfanswm y tair eitem hyn o wariant yn £75,111.01. | £75,111.01 | Dd/G | - |
| 16 | Budd-dal tai a budd-dal y dreth gyngor | • Ni pharatowyd yr hawliad yn gywir.<br>• Gwariant anghymwys. | £46,254.38 | Ni pharatowyd yr hawliad yn gywir. | £47,552.00 |

| Cyf | Enw'r grant neu'r ffurflen | Rheswm dros amodi | Gwerth posibl yr amod | Rheswm dros ddiwygio | Gwerth y diwygiad |
|---|---|---|---|---|---|
| 17 | Cymunedau yn Gyntaf – Porth-y-felin (Canlyniadau) 2010/11 | Tystiolaeth annigonol o fonitro cyllid a drosglwyddwyd i drydydd partïon. | £1,554.90 | Dd/G | - |
| | | **Cyfanswm:** | **£336,826.62** | **Cyfanswm:** | **£88,106.00** |

# Atodiad 3

## Tabl o argymhellion

Rhoddwyd gradd i bob argymhelliad o'r raddfa ganlynol:

| Blaenoriaeth 1 | Blaenoriaeth 2 | Blaenoriaeth 3 |
| --- | --- | --- |
| Materion sy'n hanfodol ac yn berthnasol i'ch trefniadau cyffredinol ar gyfer rheoli grantiau a ffurflenni neu gydymffurfio â gofynion cynlluniau. Rydym o'r farn y gallai'r materion hyn olygu nad ydych yn bodloni gofyniad cynllun grant neu'n lleihau (lliniaru) risg. | Materion sy'n cael effaith bwysig ar eich trefniadau ar gyfer rheoli grantiau a ffurflenni neu gydymffurfio â gofynion cynlluniau, ond nad oes angen gweithredu arnynt ar unwaith. Mae'n bosibl eich bod yn dal i fodloni gofynion cynllun yn llawn neu'n rhannol neu'n lleihau (lliniaru) risg yn ddigonol ond erys y gwendid yn y system. | Materion a fyddai, pe caent eu cywiro, yn gwella eich trefniadau ar gyfer rheoli grantiau a ffurflenni neu gydymffurfio â gofynion cynlluniau yn gyffredinol, ond nad ydynt yn hanfodol i'r system gyffredinol. Ar y cyfan mae'r rhain yn faterion sy'n ymwneud ag arfer gorau y credwn y byddent o fudd i chi petaech yn eu cyflwyno. |

## Argymhellion:

| Cyf | Mater | Goblygiad | Argymhelliad | Lefel Blaenoriaeth | Sylwadau Rheolwyr | Swyddog cyfrifol a dyddiad targed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| A1 | Ni pharatowyd yr hawliad yn gywir. | • Gwallau rhifyddeg.<br>• Gwallau trosi rhwng y dadansoddiad o'r gwariant a'r hawliad.<br>• Celloedd gwag.<br>• Ni chydymffurfiwyd â'r canllawiau ar gwblhau hawliadau.<br>• Dosbarthiad anghywir. | Dylid cwblhau pob ffurflen hawlio yn llawn, yn unol â'r canllawiau cwblhau, a'i gwirio'n annibynnol yn erbyn y ddogfennaeth ategol. | 2 | Mae gweithdrefn sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob hawliad terfynol a gyflwynir i'w archwilio gael ei adolygu'n annibynnol. Caiff y weithdrefn bresennol hon ei diweddaru er mwyn adlewyrchu materion a godwyd a'i hailddosbarthu i'r tîm. Disgwylir y bydd papurau gwaith archwilio wedi'u llunio ar yr adeg hon er mwyn sicrhau bod dogfennaeth ategol yn cael ei gwirio a'i chysoni â'r hawliad ac amodau'r grant a'r cyfarwyddiadau ardystio. Nodir hyn yn y ddogfen gweithdrefnau ddiwygiedig. | Cydgysylltydd Grantiau 30 Medi 2013 |

| Cyf | Mater | Goblygiad | Argymhelliad | Lefel Blaenoriaeth | Sylwadau Rheolwyr | Swyddog cyfrifol a dyddiad targed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| A2 | Cynhwyswyd gwariant anghymwys. | • Gweithgarwch y tu allan i'r cyfnod hawlio.<br>• Eitemau gwariant nad ydynt yn gysylltiedig â diben bwriadedig y grant. | Dylid rhoi rheolaethau ar waith er mwyn sicrhau mai dim ond gwariant cymwys yr aed iddo o fewn y cyfnod hawlio a gaiff ei gynnwys yn yr hawliad. | 1 | Roedd mater hawlio grant ar gyfer gwariant yr aed iddo yn ystod y flwyddyn ganlynol yn ymwneud â chontract penodol ac mae'r achos sylfaenol wedi'i ddatrys.<br><br>Erys anawsterau o ran grantiau lle mae eu dyddiad cau ar ddiwedd y flwyddyn yn wahanol i'r dyddiad cau ar gyfer cyfrifyddu. Caiff y weithdrefn hon ei diweddaru er mwyn adlewyrchu'r mater hwn (gweler A1). | Cydgysylltydd Grantiau 30 Medi 2013 |
| A3 | Diffyg cydymffurfiaeth â rheolau sefydlog ar gyfer dyfarnu contractau. | • Ni chadwyd rhestr o'r contractau.<br>• Dyfarnwyd contractau heb gael tri dyfynbris/tendr. | Dylid dyfarnu pob contract a gaiff ei ariannu ag arian grant yn unol â rheol sefydlog yr Awdurdod. Dylid cadw rhestr lawn o gontractau ar gyfer pob hawliad grant, ynghyd â chopïau o'r ddogfennaeth sy'n ymwneud â dyfarnu'r tendr. | 1 | Dylai cynnal Gweithdy Archwilio bob blwyddyn er mwyn rhoi cyngor i Reolwyr Prosiect ac atgyfnerthu materion cydymffurfiaeth. Cyhoeddir Protocol Grantiau sydd hefyd yn nodi'r angen i gydymffurfio â rheolau gweithdrefn contractau. Penaethiaid Gwasanaethau i sicrhau cydymffurfiaeth. | Cydgysylltydd Grantiau 30 Medi 2013<br><br>Penaethiaid Gwasanaethau<br>Yn parhau |

| Cyf | Mater | Goblygiad | Argymhelliad | Lefel Blaenoriaeth | Sylwadau Rheolwyr | Swyddog cyfrifol a dyddiad targed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| A4 | Nid yw'r hawliad yn gyson â'r cyfriflyfr cyffredinol. | • Defnyddio ffigurau amcangyfrifedig.<br>• Gwnaed addasiadau â llaw i'r ffurflenni hawlio ond nid adlewyrchwyd hynny yn y cyfriflyfr cyffredinol. | Dylid gwneud gwaith cysoni cyn pob archwiliad er mwyn cadarnhau bod y ffigurau yn y ffurflen hawlio yn cyfateb i'r cyfriflyfr cyffredinol a dylid cadw copi o'r gwaith cysoni ar ffeil. | 1 | Cyflawnir ymarfer cysoni llawn â'r cyfriflyfr cyffredinol a'r ddogfennaeth ategol cyn cyflwyno'r hawliad terfynol a chaiff ei wirio fel rhan o'r broses adolygu fel y nodir yn A1. | Cydgysylltydd Grantiau 30 Medi 2013 |
| A5 | Tystiolaeth annigonol i ategu dosrannu costau staff i'r hawliad. | Diffyg taflenni amser staff. | Dylid cwblhau a chadw taflenni amser ar gyfer yr holl gostau staff a ddosrannwyd ar gyfer nifer o hawliadau grant er mwyn sicrhau cywirdeb yr amser a dreuliwyd gan bob unigolyn mewn perthynas â'r gweithgaredd perthnasol. | 2 | Codir mater cofnodi amser staff gyda'r Adrannau ar lefel prosiect unigol. Codir y mater gyda Llywodraeth Cymru. Ymdrinnir â mater cofnodi amser staff yn y Protocol Grantiau hefyd. | Cydgysylltydd Grantiau 30 Medi 2013 |

| Cyf | Mater | Goblygiad | Argymhelliad | Lefel Blaenoriaeth | Sylwadau Rheolwyr | Swyddog cyfrifol a dyddiad targed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| A6 | Tystiolaeth annigonol o fonitro cyllid a drosglwyddwyd i drydydd partïon. | Nid yw trefniadau monitro ar waith neu mae'r trefniadau yn anghyson. | Dylid rhoi trefniadau monitro cadarn ar waith i sicrhau y caiff yr holl gyllid a drosglwyddir i drydydd partïon ei wario yn unol â thelerau ac amodau'r grant. Dylai'r trefniadau hyn gynnwys y canlynol:<br>• Cytundebau Lefel Gwasanaeth a lofnodwyd ar waith gyda phob partner;<br>• Partner yr Awdurdod i ddarparu adroddiadau monitro chwarterol;<br>• Ymweliadau achlysurol â phartneriaid a hapwirio cymhwysedd ar sail sampl;<br>• Cytuno ar dargedau a dangosyddion perfformiad allweddol gyda phartneriaid i fonitro canlyniadau. | 1 | Pan fydd systemau monitro yn methu, codir y mater gyda'r Rheolwyr Prosiect a bydd y Cydgysylltydd Grantiau yn rhoi systemau monitro ar waith. Ymdrinnir â mater Monitro gan 3ydd Partïon fel rhan o'r Gweithdy Archwilio ac yn y Protocol Grantiau. Bydd Rheolwyr Prosiect yn sicrhau cydymffurfiaeth. | Cydgysylltydd Grantiau 30 Medi 2013<br><br>Rheolwyr Prosiect Yn Parhau |

| Cyf | Mater | Goblygiad | Argymhelliad | Lefel Blaenoriaeth | Sylwadau Rheolwyr | Swyddog cyfrifol a dyddiad targed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| A7 | Dogfennaeth annigonol i ategu'r gwariant a hawliwyd. | • Anfonebau coll.<br>• Ad-daliadau mewnol heb dystiolaeth ategol / cyfiawnhad digonol. | Dylai'r Awdurdod sicrhau y caiff pob anfoneb ei ffeilio'n briodol er mwyn sicrhau diogelwch digonol gan sicrhau hefyd ei bod ar gael yn hawdd fel y gellir cyfeirio ati yn y dyfodol. Dylid ategu pob ad-daliad mewnol â chyfrifiadau priodol. | 1 | Anaml y caiff anfonebau eu colli am fod system ffeilio ddigonol ar waith. Fodd bynnag, bydd cyflwyno system gyfriflyfr newydd yn sicrhau y caiff pob anfoneb ei sganio a'i chadw'n electronig fel pdf. Bydd storio anfonebau a dalwyd ar gyfer blynyddoedd blaenorol yn rhan o'r prosiect llywodraethu gwybodaeth gorfforaethol.<br><br>Hefyd, prin yw'r achosion lle na ellir darparu tystiolaeth i ategu taliadau mewnol ond caiff taliadau mewnol eu gwirio i sicrhau eu bod yn briodol cyn eu cynnwys yn yr hawliadau terfynol. | Dd/G<br>Ar waith Ebrill 2013<br><br>Cydgysylltydd Grantiau<br>Ar waith Ebrill 2013 |

| Cyf | Mater | Goblygiad | Argymhelliad | Lefel Blaenoriaeth | Sylwadau Rheolwyr | Swyddog cyfrifol a dyddiad targed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| A8 | Diffyg cydymffurfiaeth â thelerau ac amodau penodol grantiau unigol. | Ni roddwyd sylw digonol i ofynion penodol hawliadau grant unigol. | Dylai'r Awdurdod sicrhau y caiff telerau ac amodau'r arian grant eu hadolygu'n ofalus er mwyn nodi unrhyw ofynion ychwanegol/penodol y mae'n rhaid cydymffurfio â hwy. Dylid rhoi systemau a phrosesau ar waith fel y bo'n briodol er mwyn sicrhau y bodlonir y gofynion hyn. | 1 | Mae'r Protocol Grantiau yn ei gwneud yn ofynnol i Reolwyr Prosiect adolygu telerau ac amodau grantiau cyn iddynt gael eu derbyn gan swyddog awdurdodedig. Bydd y Cyfrifydd Gwasanaethau neu'r Cydgysylltydd Grantiau yn asesu'r rhain am risgiau hefyd a gwneir gwaith dilynol ar unrhyw feysydd risg posibl gyda'r Rheolwyr Prosiect. Ymdrinnir â'r pwnc hwn hefyd fel rhan o'r Hyfforddiant Archwilio Grantiau. | Cydgysylltydd Grantiau 30 Medi 2013 |

Cyffredinol – Comisiynwyd yr Archwiliad Mewnol i Adolygu Prosesau Grantiau a chaiff ei argymhellion eu gweithredu dros y chwe mis nesaf, a fydd hefyd yn helpu i fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn yr adroddiad.

Tudalen 114

# Atodiad 4

## Gwaith sydd i'w wneud o hyd

| Cyf | Enw'r grant neu'r ffurflen | Blwyddyn hawlio | Gwerth yr hawliad neu'r ffurflen | Statws cyfredol |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Cymhorthdal budd-dal tai a budd-dal y dreth gyngor 2011/12 | 2011-12 | £23,467,913 | Yn parhau ar ôl i grant 2010/11 gael ei gyflwyno'n hwyr am fod angen gwneud cryn dipyn o waith archwilio ychwanegol ar ôl nodi nifer fawr o wallau yn y ffurflen hawlio. |
| 2 | Grant effeithiolrwydd ysgol | 2011-12 | £951,790 | Yn parhau am fod angen gwneud cryn dipyn o waith archwilio ychwanegol ar ôl nodi nifer fawr o wallau yn y ffurflen hawlio. |
| 3 | Y gronfa fuddsoddi leol - Rhaglen gydgyfeirio'r UE | 2011-12 | I'w gadarnhau | Cyflwynwyd yn hwyr |
| 4 | Prosiect safleoedd a mangreoedd strategol | 2011-12 | I'w gadarnhau | Cyflwynwyd yn hwyr |

WALES AUDIT OFFICE

SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk

Website: www.wao.gov.uk

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| ADRODDIAD: | PWYLLGOR ARCHWILIO |
| DYDDIAD: | 23 GORFFENNAF 2013 |
| TEITL YR ADRODDIAD: | RHEOLI RISG AC YSWIRIANT |
| PWRPAS YR ADRODDIAD: | ER GWYBODAETH |
| ADRODDIAD GAN: | PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) |
| GWEITHREDIAD: | ER GWYBODAETH / YSTYRIED Y GOFRESTR RISG CORFFORAETHOL |

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1** Mae Strategaeth Rheoli Risg y Cyngor yn galw ar y Pwyllgor Archwilio i adolygu'r fframwaith Rheoli Risg ac adolygu a herio'r Gofrestr Risg Corfforaethol a'r cynlluniau gweithredu canlyniadol ar gyfer y prif risgiau corfforaethol.

**1.2** Fe gyflwynwyd y Gofrestr Risg Corfforaethol cychwynnol i'r Pwyllgor Archwilio ym Medi 2012.

## 2. CYNNYDD AR WEITHREDU'R FFRAMWAITH RHEOLI RISG

**2.1** Cymeradwywyd y Strategaeth Rheoli Risg a'r Canllawiau Rheoli Risg gan y Pwyllgor Gwaith ar y 15$^{fed}$ Hydref 2012. Bydd y dogfennau hyn yn cael eu hadolygu a'u diwygio i adlewyrchu'r newidiadau yn y trefniadau adrodd a rheoli unwaith bydd y rhain yn cael eu cadarnhau.

**2.2** Cyflwynwyd hyfforddiant Rheoli Risg i Aelodau ar y 6$^{ed}$ o Dachwedd 2012, a'r 8$^{fed}$ o Orffennaf 2013.

**2.3** Mae rôl y Grŵp Rheoli Risg wedi ei gynnwys mewn i'r Grŵp Adolygu Perfformiad sydd yn cwrdd yn fisol, ac sydd â chynrychiolaeth o Drawsnewid, Perfformiad, Archwilio Mewnol, Cyllid, TG, Eiddo, Risg ac Yswiriant, ac Iechyd a Diogelwch.

**2.4** Mae'r Rheolwr Risg ac Yswiriant yn parhau i gefnogi Penaethiaid Gwasanaeth i ddatblygu eu Cofrestrau Risg Gwasanaeth, er bod cynnydd ar hyn wedi cael ei effeithio gan yr Adolygiad Penaethiaid Gwasanaeth.

## 3. COFRESTR RISG CORFFORAETHOL

**3.1** Bu'r Grŵp Adolygu Perfformiad adolygu'r Cofrestrau Risg Gwasanaeth a'r Cofrestr Risg Corfforaethol ar yr 2$^{ail}$ o Orffennaf 2013. Rwyf wedi adolygu eu hargymhellion a'r Cofrestr Risg Corfforaethol ac mae'r fersiwn sydd wedi diwygio yn atodol i'r adroddiad hon yn Atodiad A.

**3.2** Mae'r adolygiad wedi adnabod y canlynol fel risgiau uchaf y Cyngor:-

| | |
|---|---|
| YM8 | Methu â chynllunio ar gyfer gostyngiad sylweddol mewn nawdd o 2015/2016 |
| YM33 | Methu â darparu gwasnaethau o fewn y gyllideb a ddarperir |
| YM31 | Risg o beidio cydymffurfio â deddfwriaeth Diogelu Data |
| YM36 | Methu â chynllunio ar gyfer effaith diwygiadau yn y sector iechyd |

**3.3** Bydd y Gofrestr Risg Corfforaethol wastad yn ddogfen byw ac yn datblygu ac yn parhau i gael ei adolygu a'i ddiweddaru fel bo'r angen.

## 4. HAWLIADAU YSWIRIANT

**4.1** Atodir profiad hawliadau'r Cyngor ar gyfer y cyfnod 1af Ebrill 2007 hyd at 31ain o Fawrth 2013 fel atodiad B i'r adroddiad hwn. Nodwch os gwelwch yn dda bod yr adroddiad yn seiliedig ar y dyddiad digwyddiad ac nid dyddiad a dderbynnir yr hawliad.

**4.2** O arwyddocâd mae'r cynnydd o 40% yn y nifer o hawliadau atebolrwydd cyhoeddus sydd wedi eu derbyn yn ystod 2012/2013. Mae hyn i'w briodoli i hawliadau am ddifrod i gerbydau oherwydd cyflwr ffyrdd y Cyngor. Ar hyn o bryd mae'n rhy gynner i wneud sylw ar effaith ariannol hyn.

**4.3** Bu hefyd gynnydd o 100% yn y nifer o hawliadau yn ymwneud â fflyd cerbydau'r Cyngor. Ni ellir priodoli hyn i unrhyw faes gwasanaeth ond ymddengys i fod yn gysylltiedig â chynnydd mewn gwallau gyrwyr, gan ein gyrwyr ni a defnyddwyr ffyrdd eraill, a thywydd garw.

## 5. ARGYMHELLION

**5.1** Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y Gofrestr Risg Corfforaethol a nodi'r profiad hawliadau yswiriant.

**CLARE WILLIAMS**
**PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU)** **8 GORFFENNAF 2013**

# COFRESTR RISG CORFFORAETHOL

Tudalen 119

| Cyfeirnod Risk | Perchennog Risg/ Swyddog Arwain | Dyddiad Adnabuwyd neu Diwygiwyd | Risg Adnabuwyd: Bregysrwydd / Perygl | Risg Adnabuwyd: Sbardun | Risg Adnabuwyd: Effeithiau / Beth neu pwy fydd yn cael eu heffeithio a sut / Canlyniad / Effaith ar amcanion | Lefel Risg: Tebygrwydd | Lefel Risg: Llymder | Lefel Risg: Sgôr | Mesurau Rheoli Ychwanegol / Triniaeth ei angen: Gweithrediad | Swyddog Cyfrifol | Dyddiad Targed | Lefel Risg Gweddilliol: Tebygrwydd | Lefel Risg Gweddilliol: Llymder | Lefel Risg Gweddilliol: Sgôr | Dyddiad Arolygu / Amlder |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| YM2 | Prif Weithredwr | 10/2011 | Methu â chynnal y gwelliannau wnaed yn nhermau Llywodraethu | • Etholiadau a chyflwyno wardiau mwy nac un aelod ayb<br>• Ansefydlogrwydd gwleidyddol<br>• Diffyg cudymffurfio â polisiau a gweithdrefnau<br>• Systemau newydd ddim yn cael eu gwreiddio'n llawn<br>• Cael trefniadau Cynllunio Busnes, Rheoli Risg, a Rheoli Perfformiad gwan<br>• Cyfathrebu mewnol annigonol ac aneffeithiol | • Amcanion heb eu cyflawni<br>• Niwed i enw da / beirniadaeth gan rheoleiddwyr<br>• Ymyrraeth pellach<br>• Ansicrwydd<br>• Morâl isel<br>• Penderfyniadau anaddas<br>• Deunydd aneffeithiol o adnoddau<br>• Diffyg atebolrwydd, cydymffurfiaeth a sicrwydd | 3 | 5 | 15 | Darparu'r cyfnefino a sesiynau briffio manwl i'r holl Aelodau<br>Gweithredu'r Cynllun Trawsnewid a gwreiddio'n llawn swyddogaethau'r Byrddau Trawsnewid<br>Paratoi a cynhyrchu Datganiad Llywodraethu Blynyddol<br>Gwreiddio'r trefniadau Cynllunio a Rheoli Perfformiad Corfforaethol<br>Gwreiddioi'r fframwaith hunan-asesu<br>Gweithredu canfyddiadau'r adroddiad cyfathrebu mewnol | Carys Edwards<br>Danielle Edwards<br>Einir Thomas<br>Gethin Morgan<br>Gethin Morgan<br>Gwen Sion | Gorff 2013<br><br><br><br><br>Mawrth 2014 | | | | Chwarterol |
| YM1 | Prif Weithredwr | 10/2011 | Methu â cydweithio yn effeithiol gydag eraill er budd y Cyngor | • Pwysau Cyllidebol<br>• Agenda LIC<br>• Perthnasau Gwael<br>• Diffyg hyder yn y Cyngor<br>• Diffyg cynllunio<br>• Diffyg ymgynghori<br>• Rhwystrau gwleidyddol | • Niwed i enw da<br>• Gwasanaethau llai effeithiol<br>• Amcanion heb eu cyflawni<br>• Diffyg gwelliant ym meysydd allweddol<br>• Ymyrraeth allanol (dim cydweithio)<br>• Colli gwneud penderfyniadau yn lleol (pan yn cydweithio)<br>• Colli cyllid (dim cydweithio)<br>• Methu â gwneud arbedion | 4 | 3 | 12 | Cytuno datganiad a'r ymateb y Cyngor i gydweithio, gan gynnwys diffinio cydweithio<br>Penderfynu pa fframweithiau cydweithio sydd gwerth prynu fewn i | Richard Parry Jones<br>UDA | <br>Parhaus | | | | Chwarterol |
| YM8 | Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) | 10/2011 | Methu â chynllunio am ostyngiad sylweddol mewn cyllid o 2015/2016 | • Setliad llai gan LIC<br>• Llai o incwm<br>• Ddim yn gymwys i ymgeisio am rhai ffynonellau cyllido<br>• Effeithiau chwyddiannol a chyfraddau llog<br>• Blaenoriaethau fforddiadwy - arbedion heb eu cyflawni | • Amcanion heb eu cyflawni<br>• Lleihad yn y gwasanaethau a ddarperir<br>• Ansawdd is o wasanaethau a ddarperir<br>• Niwed i enw da<br>• Diffyg gwelliant ym meysydd allweddol<br>• Ymyrraeth allanol<br>• Methu ô chefnogi grwpiau ac unigolion bregys | 5 | 5 | 25 | Darparu Cynllun Cyllidol Tymor Canolig a'i ddiwygio'n chwarterol<br>Adnabod pwysau demograffig<br>Monitro gostyngiadau mewn grantiau a datblygu strategaethau ymadael â'r grantiau<br>Adolygu'r broses o benderfynu'r gyllideb<br>Darparu a gweithredu Strategaeth Effeithlonrwydd | Clare Williams<br>Clare Williams<br>Clare Williams<br>Clare Williams<br> | Hydref 2013<br>Hydref 2013<br>Hydref 2013<br>Hydref 2013<br> | | | | Chwarterol |
| YM33 | Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) | 01/2013 | Methu â darparu gwasanaethau o fewn y gyllideb a ddarperir | • Cyllidebau yn lleihau<br>• Cynnydd yn y galw am wasanaeth<br>• Diffyg gwybodaeth amserol rheolaeth ariannol / rheolaeth gyllidebol<br>• Costau ynni uwch (effaith marchnad)<br>• Trefniadau cynllunio gweithlu gwan<br>• Effaith prosiectau mawr (e.e. Wylfa, Ynys Ynni)<br>• Diffyg yn y gyllideb mewn rhai ysgolion | • Lleihad yng ngwasanaethau a ddarperir mewn blynyddoedd sydd i ddod<br>• Niwed i enw da<br>• Diffyg gwelliant ym meysydd allweddol<br>• Diffyg capasiti a/ neu'r gallu i ymgymryd llwyth gwaith y Cyngor<br>• Ymyrraeth pellach gan LIC (yn arbennig mewn perthynas ag ysgolion) | 5 | 4 | 20 | Adolygu'r broses o benderfynny'r gyllideb<br>Gwreiddio'r systemau ariannol newydd (y lejer ayyb)<br>Sefydlu proses newydd ar gyfer adrodd ariannol<br>Sefydlu proses newydd ar gyfer monitro ariannol<br>Adolygu'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu<br>Gweler hefyd risgiau YM5, YM22, YM23 a YM37 | Clare Williams<br>Richard Ll Jones<br>Clare Williams<br>Clare Williams<br> | Hydref 2013<br><br>Mehefin 2013<br>Medi 2013<br> | | | | Chwarterol |
| YM32 | Dirprwy Prif Weithredwr | 10/2011 | Methu â chwblhau yr adolygiad Arfarnu Swyddi | • Gofyn statudol i ymgymryd Adolygiad Tâl a Graddfeydd<br>• Amser cymerwyd hyd yma i ymgymryd Adolygiad Tâl a Graddfeydd (>10 mlynedd) | • Morâl staff isel<br>• Lefelau tâl anghystadleuol<br>• Risg uwch o anghydraddoldeb tâl yn parhau | 4 | 3 | 12 | Cytuno amserlen a'i weithredu<br>Penodi a cadw gweithwyr addas i ymrymryd â'r prosiect | Carys Edwards<br>Carys Edwards | Ebrill 2014<br>Ebril 2013 | | | | Chwarterol |
| YM34 | Dirpwy Prif Weithredwr | 01/2013 | Methu â chyrraedd cytundeb mewn perthynas â hawliadau tâl cyfartal cyflwynwyd hyd yma | • Oedi yn cwblhau Arfarnu Swyddi<br>• Hawliadau diweddar yn yr Alban<br>• Anghydraddoldeb mewn lefelau cyflog | • Niwed i enw da<br>• Costau ariannol uwch mewn termau talu neu amddiffyn yr hawliadau a cyflogau uwch yn y dyfodol | 3 | 4 | 12 | Paratoi a gweithredu strategaeth | Carys Edwards | Mai 2013 | | | | Chwarterol |
**2.2** Cynhaliwyd 60 o adolygiadau (Terfynol a Drafft / agos at ddrafft) yn ystod 2012/13, o gymharu â 61 yn y flwyddyn flaenorol. Mae'r cyfanswm, felly, yn debyg i 2011/12. Mae'r ffigwr hwn yn cynnwys 13 o adroddiadau terfynol ychwanegol a gyhoeddwyd yn 2012/13 na chawsant eu cynllunio'n wreiddiol ar gyfer y cyfnod hwn ond roedd eu hangen i ddibenion risg a/neu gydymffurfiaeth neu o ganlyniad i waith sy'n ymwneud â chyfeiriadau.

**2.3** Roedd y 13 o adolygiadau ychwanegol yn disodli'n rhannol yr adolygiadau yng Nghynllun Gweithredol 2012/13 na chychwynnwyd arnynt yn y cyfnod. O'r adolygiadau na chychwynnwyd arnynt: gohiriwyd 6 oherwydd sicrwydd a roddwyd gan ddarparwyr sicrwydd trydydd parti eraill neu oherwydd eu lefel perthnasedd o gymharu â meysydd archwilio eraill sy'n achosi pryder. Ni wnaed cynnydd mewn chwe maes arall fel y rhagwelwyd yn ystod y cyfnod ac, felly, gohiriwyd gwaith yn 2012/13. Mewn pedwar maes arall, roeddem wedi gobeithio defnyddio'r Gofrestr Risg Gorfforaethol fel sail ar gyfer ein gwaith ond wedi methu â gwneud hynny oherwydd ei statws yn ystod 2012/13. Gohiriwyd yr 11 o adolygiadau eraill oherwydd y baich gwaith ychwanegol yn y flwyddyn ac mae'r cyfan o'r rhain wedi eu dwyn ymlaen i'w cynnwys yng Nghynllun Gweithredu'r Adain Archwilio Mewnol ar gyfer 2013/14.

**2.4** Cwblhawyd yr holl adolygiadau ariannol allweddol ar ffurf derfynol neu ffurf ddrafft ac fe'u hanfonwyd at yr Archwiliwr Allanol ym Mawrth 2013.

**2.5** Er bod cynlluniau i wneud gwaith mewn blynyddoedd unigol yn y cynlluniau strategol a'r cynlluniau blynyddol, mae yna beth gwaith unigol sy'n cario drosodd o un flwyddyn i'r llall yn arbennig yr archwiliadau mwy neu archwiliadau sy'n dechrau'n agos at ddiwedd y flwyddyn ariannol. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y ffaith bod pump adroddiad drafft yn disgwyl eu cwblhau ar ddiwedd y cyfnod a saith adolygiad arall oedd yn parhau yn waith ar y gweill. Bydd yr adolygiadau hyn yn cael eu cwblhau yn chwarter cyntaf 2013/14.

## 3. DANGOSYDDION PERFFORMIAD

**3.1** Bob blwyddyn bydd Gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor yn cymryd rhan mewn meincnodi Cymru gyfan yn erbyn dangosyddion sy'n ymwneud â chost ac allbwn. Fe wneir y gwaith meincnodi hwn ym mis Mai / Mehefin ym mhob blwyddyn ac, felly, nid oedd y canlyniadau ar gyfer 2012/13 ar gael mewn pryd i'w cynnwys yn yr adroddiad blynyddol hwn.

**3.2** Pan gaiff y canlyniadau eu cyhoeddi byddant yn cael eu cyflwyno yn yr adroddiad cynnydd Archwilio Mewnol nesaf wedi hynny.

**3.3** Byddwn yn adrodd yn ôl i bob Pwyllgor Archwilio am Berfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn erbyn y targedau mewnol fel rhan o'r Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol. Am y cyfnod o 1 Ebrill 2012 i 31 Mawrth 2013 roedd y perfformiad yn erbyn y targedau mewnol fel a ganlyn:

| Mesur Perfformiad | Targed 2012/13 | Gwirioneddol ar gyfer y cyfnod* | Statws Targed |
|---|---|---|---|
| % o'r cynllun archwilio ar gyfer 2012/13 a gwblhawyd hyd at adroddiad drafft yn y flwyddyn (63 o adolygiadau yn y cynllun gwreiddiol - 4 ohonynt wedi eu tynnu o'r cynllun oherwydd nad oedd eu hangen/nad oedd modd eu cyflawni yn ystod y flwyddyn - gan adael 59 o adolygiadau posib).<br><br>Perfformiad: 5 wedi eu paratoi hyd at adroddiad ddrafft; 33 o rai Terfynol a saith lle roedd gwaith yn mynd rhagddo ac a oedd bron yn barod ar gyfer adroddiad drafft o 2012/13 a 3 o adolygiadau eraill o gyfeiriadau - Cyfanswm = 48 o adolygiadau wedi eu cwblhau i raddau sylweddol. | 90% | 81% | ☹ |
| Lefelau boddhad cyffredinol y cwsmer yn seiliedig ar holiaduron. | 90% | 100% | ☺ |
| % o'r holl argymhellion Archwilio Mewnol Uchel a Chanolig a weithredwyd - o 01/04/10 fel yr oedd ar 03/04/13. | 80% | 53% | ☹ |
| Nifer yr adolygiadau cynlluniedig o Feysydd Risg Corfforaethol Uchel a nodwyd.<br><br>**ON: Roedd statws y Gofrestr Risg Gorfforaethol a'r cynnydd a wnaed gyda hi yn golygu nad oedd modd cynnal nifer o'r adolygiadau hyn yn y cyfnod* | 8 | 2* | ☹ |
| Cynnal dwy sesiwn hyfforddi ar gyfer y Pwyllgor Archwilio yn y cyfnod. | 2 | 2 | ☺ |

**3.4** Mae'r ganran o argymhellion Uchel a Chanolig a weithredwyd yn is na'r targed, sef 53%; fodd bynnag, mae'r ganran o argymhellion lefel Uchel a weithredwyd yn uwch, sef 74%. Bydd yr Adain Archwilio Mewnol yn adolygu'r argymhellion sydd ar ôl ym mis Ebrill 2013 ac yn 2013/14 bydd yn gweithio eto gyda'r Gwasanaethau i ddiweddaru'r system 4Action gyda'r data gweithredu mwyaf cyfredol a gobeithir y bydd hynny'n dangos gwelliant yn erbyn y targed.

## 4. CASGLIADAU CYFFREDINOL AR Y MEYSYDD A ARCHWILIWYD

**4.1** Mae tabl 1 yn dangos nifer yr adolygiadau a wnaed yn 2012/13 lle rhoddwyd barn Gwyrdd; Gwyrdd/Ambr; Coch/Ambr neu Goch. Mae'n cynnwys y diffiniad ar gyfer pob lefel sicrwydd. Mae'r tabl hefyd yn cynnwys nifer yr adolygiadau cyfeirio/cynghori a gynhaliwyd.

**Tabl 1**

| Graddfa CAG | Beth yw ystyr y Barn Graddfa CAG | System/ Risg 2012/13 | Ysgolion 2012/13 |
|---|---|---|---|
| **Gwyrdd** | Ar ôl ystyried y materion a nodwyd, gall yr Awdurdod gymryd sicrwydd rhesymol bod y rheolaethau y mae'r Cyngor yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi'u dylunio'n addas ac yn cael eu defnyddio'n gyson ac effeithiol. | 6 | 0 |
| **Gwyrdd Ambr** | Ar ôl ystyried y materion a nodwyd, gall yr Awdurdod gymryd sicrwydd rhesymol bod y rheolaethau y mae'r Cyngor yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi'u dylunio'n addas ac yn cael eu defnyddio'n gyson ac effeithiol.<br><br>Fodd bynnag, rydym wedi canfod rhai pethau fydd, oni chânt sylw, yn ychwanegu at y tebygrwydd y bydd y risg yn troi'n ddigwyddiad. | 6 | 3 |
| **Coch Ambr** | Ar ôl ystyried y materion a nodwyd, gall yr Awdurdod gymryd rhywfaint o sicrwydd bod y rheolaethau y mae'r Cyngor yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi'u dylunio'n addas, yn cael eu defnyddio'n gyson ac effeithiol. Angen cymryd camau i reoli'r risg. | 2 | 0 |
| **Coch** | Ar ôl ystyried y materion a nodwyd, ni all yr Awdurdod gymryd sicrwydd bod y rheolaethau y mae'r Cyngor yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi'u dylunio'n addas nac yn cael eu defnyddio'n gyson ac effeithiol.<br><br>Angen cymryd camau i reoli'r risg. | 3 | 0 |
| **Ymgynghorol/ Cyfeirio** | Adolygiad ymghorol a dylunwyd i ddarparu cyngor ymarfer gorau – Dim barn ffurfiol. | 13 | 0 |
| | **Cyfanswm** | **30** | **3** |

**4.2** Mae'r graddau cyffredinol yn seiliedig ar yr holl waith a wnaed fel a ganlyn:

- Cyfartaledd o 'Wyrdd Ambr' ar gyfer yr adolygiadau system/risg am 2012/13 sydd, er yn sicrwydd bositif, yn is na'r radd gyffredinol o 'Wyrdd' yn 2011/12; a
- Cyfartaledd o 'Wyrdd Ambr' ar gyfer adolygiadau ysgolion am 2012/13 sydd eto'n is na'r radd gyffredinol o 'Wyrdd' yn 2011/12.

**4.3** Mae'r ddwy farn archwilio 'Gwyrdd Ambr' ar gyfer systemau ac ysgolion yn arwydd mai risg fechan/isel sydd i'r Awdurdod, yn seiliedig â'r sgôp y gwaith a wnaed, y camau a argymhellwyd i reolwyr yn cael eu gweithredu a'r systemau hynny yn parhau i weithredu fel y bwriadwyd.

**4.4** Mae'r Rheolwr Archwilio, fodd bynnag yn ymwybodol o feysydd lle y byddai gwendidau sylweddol mewn rheolaeth yn rhwystro'r Cyngor rhag gallu dibynnu'n rhesymol ar y systemau rheoli mewnol yng nghyswllt y systemau a adolygwyd yn ystod y flwyddyn. Y meysydd hyn oedd:

- **Parhad Busnes** – Mae camau a argymhellwyd i gryfhau rheolaeth yn y maes hwn wedi eu casglu ynghyd o nifer o adroddiadau gan ddarparwyr sicrwydd, gan gynnwys yr Adain Archwilio Mewnol. Maent wedi eu cynnwys mewn Cynllun Gweithredu Corfforaethol ar gyfer Rheoli Gwybodaeth. Sefydlwyd Grŵp Prosiect ym Medi 2012 i benderfynu'r ffordd orau o weithredu'r camau a argymhellwyd. Ar ddiwedd 2012/13 roedd gwaith y Grŵp Prosiect yn parhau. Mae'r Cyngor yn parhau i fod heb Bolisi Adfer TGCh ar ôl Trychineb ac roedd gwaith yn parhau i gael ei wneud ar ddiwedd y cyfnod i gwblhau trefniadau parhad busnes y Cyngor.

- **Rheoli Risg** – Mae'r Cyngor wrthi'n datblygu ei Fframwaith Rheoli Risg ac, ym mis Medi 2012, argymhellodd y Pwyllgor Archwilio y dylai'r Pwyllgor Gwaith fabwysiadu fersiwn ddrafft y Strategaeth Rheoli Risg a'r canllawiau drafft. Mabwysiadwyd y strategaeth a'r canllawiau felly gan y Pwyllgor Gwaith yn y cyfarfod ar 15 Hydref 2012. Yn ystod y cyfnod hefyd, cafwyd sesiwn hyfforddi ar y cyd ar faterion rheoli risg rhwng y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Sgriwtini. Hyd yma, nid yw'r Gweithgor Rheoli Risg wedi ystyried risgiau newydd ac esblygol nac wedi adolygu'r cofrestrau risg sydd gan y gwasanaethau unigol.

  Mae gwaith wedi cael ei wneud ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol ond ar ddiwedd y cyfnod nid oedd camau lliniaru wedi eu cofnodi yn y Gofrestr Risg Corfforaethol ac nid oedd ynddi sgorau risg gweddilliol chwaith. Roedd trafodaethau'n parhau o ran adrodd ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol pan fydd honno mewn ffurf sy'n fwy cyflawn.

- **Llywodraethu** - Nodwyd materion diffyg cydymffurfiaeth gyda gweithdrefnau a pholisïau corfforaethol allweddol unwaith eto yn 2012/13, er enghraifft mewn perthynas â chaffael corfforaethol. Gwelwyd hefyd mai defnydd cyfyngedig a wneir o system y Cyngor ar gyfer cymeradwyo polisïau'n electronig i ddangos bod pobl wedi darllen, deall a chytuno i lynu wrth bolisïau. Heb gofnod o'r fath, mae'n anos dangos bod y polisïau wedi eu cylchredeg yn ddigonol i'r staff perthnasol. Cyhoeddwyd adroddiad ar y materion hyn yn 2011/12, ond mae nifer o argymhellion allweddol yn parhau i fod heb eu gweithredu ar ddiwedd 2012/13.

  Mae cydymffurfio gyda pholisïau a gweithdrefnau yn elfen allweddol o fframwaith Llywodraethu'r Cyngor. Mae methiant i sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r polisïau a gweithdrefnau o'r fath yn golygu bod mwy o risg na fyddir yn cydymffurfio â nhw.

- **Rheoli Gwybodaeth** – adroddwyd ar adolygiad o drefniadau Rheoli Gwybodaeth y Cyngor ym mis Mehefin 2012 a daethpwyd i'r casgliad bod trefniadau cyfredol y Cyngor ar gyfer rheoli ei wybodaeth yn wan ac yn cyfyngu ar allu'r Cyngor i wella. Cynhaliodd yr Adain Archwilio Mewnol dri adolygiad yn 2012/13 ym meysydd Rheoli Cofnodi Modern, Diogelwch Data a Pharhad Busnes ac adroddwyd ar wendidau sylweddol yn y meysydd hyn. Fel sydd wedi ei nodi uchod, dan y maes Parhad Busnes, roedd y gwendidau hyn wrthi'n cael sylw ar ddiwedd y cyfnod gan Grŵp Prosiect a sefydlwyd i'r pwrpas. Yn ystod 2012/13, cafwyd rhagor o achosion o dorri'r Ddeddf Diogelu Data ac adroddwyd ar nifer ohonynt i'r Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth. Mae Rheoli

Gwybodaeth, felly, yn parhau i fod yn risg i'r Awdurdod o ran ei enw da ac yn ariannol oherwydd y posibilrwydd o gael dirwyon sylweddol.

Ystyrir bod y rhain yn faterion pwysig i'r Cyngor a bod angen parhau i weithio arnynt i roi sylw iddynt yn 2013/14.

**4.5** Dylid nodi na all unrhyw system o reolau mewnol ond darparu sicrwydd rhesymol, ond nid absoliwt, yn erbyn camddatganiadau pwysig neu golled.

Ni wnaeth y gwaith archwilio a wnaed ac a gwblhawyd nodi unrhyw feysydd arall o bryder sy'n cael eu hystyried yn rhai arwyddocaol neu yn gritigol o safbwynt busnes y Cyngor yn gyffredinol y tu hwnt i'r rhai a nodwyd yn 4.4 uchod.

## 5. DATGANIAD AR REOLAETH FEWNOL

**5.1** Bydd canlyniad yr holl adroddiadau Archwilio Mewnol a gwblhawyd yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Pwyllgor Archwilio trwy adroddiadau Cynnydd Archwilio Mewnol chwarterol y Rheolwr Archwilio. Adroddir ar unrhyw adolygiad system fydd yn derbyn barn sicrwydd Coch mewn manylder i'r Pwyllgor Archwilio.

**5.2** Cyflwynwyd tri adroddiad o'r fath i'r Pwyllgor Archwilio yn 2012/13. Roedd yr adolygiadau hyn yn ymwneud â Pharhad Busnes, Diogelwch Data a Rheoli Cofnodion Modern. Mae'r argymhellion o bob un o'r adroddiadau hyn wedi eu cynnwys yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Rheoli Gwybodaeth Gorfforaethol y cyfeirir ato ym mharagraff 4.6 uchod dan Parhad Busnes.

**RHEOLWR ARCHWILIO – RSM TENON** **8 GORFFENNAF 2013**

## Adroddiadau Cyhoeddwyd yn erbyn Cynllun 2012/13 Atodiad A

| Teitl yr Adolygiad | Maes Gwasanaeth | Blwyddyn y Cynllun AM | Statws | Barn CAG |
|---|---|---|---|---|
| ***Adolygiadau yn seiliedig ar Risg / Systemau*** | | **2011-12** | | |
| Rhenti Unedau Diwydiannol | Eiddo | 2011/12 | TERFYNOL | GWYRDD/AMBR |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ***Ysgolion*** | | **2011-12** | | |
| Ysgol Llanfechell | Addysg | 2011/12 | TERFYNOL | GWYRDD/AMBR |

| Teitl yr Adolygiad | Maes Gwasanaeth | Blwyddyn y Cynllun AM | Statws | Barn CAG |
|---|---|---|---|---|
| Adroddiad ar Asedau Sefydlog | Cyllid | 2012/13 | TERFYNOL | Gwiriad |
| Dilyn Argymhellion Lefel Uchel i fyny | Corfforaethol | 2012/13 | TERFYNOL | Cynnydd rhesymol |
| Llywodraethu Gwybodaeth – dilyn i fyny | Corfforaethol | 2012/13 | TERFYNOL | Ychydig o Gynnydd |
| Rhybuddion Dirwy | Cyllid | 2012/13 | TERFYNOL | YMGYNGHOROL |
| Pryd ar Glud | Uned Ddarparu | 2012/13 | TERFYNOL | COCH/AMBR |
| Brecwast am ddim LIC | Addysg | 2012/13 | TERFYNOL | GWYRDD |
| Cytundebau Canlyniadau – Eiddo | Eiddo | 2012/13 | TERFYNOL | GWYRDD |
| Ffioedd Allsirol | Gwas. Cym | 2012/13 | TERFYNOL | YMGYNGHOROL |
| Parhad Busnes | TGCh/Cynllunio | 2012/13 | TERFYNOL | COCH |
| Diogelwch Data | TGCh/Cyfreithiol | 2012/13 | TERFYNOL | COCH |
| Oriel Ynys Môn | Hamdden | 2012/13 | TERFYNOL | GWYRDD/AMBR |
| Rheoli Cofnodion Modern | Addysg Gydol Oes | 2012/13 | TERFYNOL | COCH |
| Caffael – UCA | Tai | 2012/13 | TERFYNOL | YMGYNGHOROL |
| Targedau Carbon ac Effeithlonrwydd Ynni | Eiddo | 2012/12 | TERFYNOL | GWYRDD |
| Dilyn i fyny – Argymhellion Ysgol | Addysg | 2012/13 | TERFYNOL | Ychydig o gynnydd |
| Caffael Corfforaethol | Corfforaethol | 2012/13 | TERFYNOL | YMGYNGHOROL |
| Taliadau Uniongyrchol – Gwas. Cym | Gwas. Cym | 2012/13 | TERFYNOL | COCH/AMSER |
| Adolygiad Thematig o Ysgolion | Addysg | 2012/13 | TERFYNOL | YMGYNGHOROL |
| Cynllun Atal Twyll Cenedlaethol | Corfforaethol | 2012/13 | TERFYNOL | GWYRDD/AMBR |
| Gosod a Monitro'r Gyllideb | Corfforaethol | 2012/13 | TERFYNOL | COCH/AMBR |
| Trafnidiaeth Cyhoeddus | Trafnidiaeth | 2012/13 | TERFYNOL | GWYRDD/AMBR |
| Incwm o Feysydd Parcio | Priffyrdd | 2012/13 | TERFYNOL | GWYRDD |
| Y Dreth Gyngor | Cyllid | 2012/13 | TERFYNOL | GWYRDD/AMBR |
| Trethi Cenedlaethol Annomestig | Cyllid | 2012/13 | TERFYNOL | GWYRDD/AMBR |
| Budd-dal Tai | Cyllid | 2012/13 | TERFYNOL | GWYRDD/AMBR |
| Mân-ddyledwyr | Cyllid | 2012/13 | TERFYNOL | GWYRDD/AMBR |
| Credydwyr | Cyllid | 2012/13 | TERFYNOL | GWYRDD |
| Rheoli'r Trysorlys | Cyllid | 2012/13 | TERFYNOL | GWYRDD |
| Cyllid Myfyrwyr | Addysg | 2012/13 | TERFYNOL | YMGYNGHOROL |
| Cydymffurfiaeth Ffeiliau Achos | Gwas. Cym. | 2012/13 | TERFYNOL | YMGYNGHOROL |
| Lwfansau Aelodau | Corfforaethol | 2012/13 | DRAFFT | DILYN I FYNY |
| Cyflogau a Goramser | Cyllid | 2012/13 | DRAFFT | GWYRDD/AMBR |
| System Gyfrifo | Cyllid | 2012/13 | DRAFFT | GWYRDD |
| Derbyn Arian | Cyllid | 2012/13 | DRAFFT | GWYRDD |
| Rhenti Tai | Tai | 2012/13 | DRAFFT | COCH/AMBR |
| Arforol – Incwm | Priffyrdd | 2012/13 | YN MYND RHAGDDO | D/B |
| Gweithredu Civica | Cyllid | 2012/13 | YN MYND RHAGDDO | D/B |

| Ysgolion | | | | |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| Ysgol Y Bont | Addysg | 2012/13 | TERFYNOL | GWYRDD/AMBR |
| Ysgol Rhosybol | Addysg | 2012/13 | TERFYNOL | GWYRDD/AMBR |
| Ysgol Bodffordd | Addysg | 2012/13 | TERFYNOL | GWYRDD/AMBR |
| Ysgol David Hughes | Addysg | 2012/13 | YN MYND RHAGDDO | D/B |
| Ysgol Gyfun Llangefni | Addysg | 2012/13 | YN MYND RHAGDDO | D/B |
| Ysgol Biwmares | Addysg | 2012/13 | YN MYND RHAGDDO | D/B |
| Ysgol Llanfachraeth | Addysg | 2012/13 | YN MYND RHAGDDO | D/B |
| Ysgol Kingsland | Addysg | 2012/13 | YN MYND RHAGDDO | D/B |

| Cyfeiriadau | | | | |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| Adroddiad Cyfeirio 1 12-13 | Adnoddau Dynol | 2012/13 | TERFYNOL | D/B |
| Adroddiad Cyfeirio 2 12-13 | Eiddo | 2012/13 | TERFYNOL | D/B |
| Adroddiad Cyfeirio 3 12-13 | Eiddo | 2012/13 | TERFYNOL | D/B |
| Adroddiad Cyfeirio 4 12-13 | Gwas. Cym. | 2012/13 | TERFYNOL | D/B |
| Adroddiad Cyfeirio 5 12-13 | Eiddo | 2012/13 | TERFYNOL | D/B |
| Adroddiad Cyfeirio 6 12-13 | Addysg Gydol Oes | 2012/13 | TERFYNOL | D/B |
| Adroddiad Cyfeirio 7 12-13 | Gwas. Cym. | 2012/13 | TERFYNOL | D/B |
| Adroddiad Cyfeirio 8 12-13 | Cyllid | 2012/13 | TERFYNOL | D/B |
| Adroddiad Cyfeirio 9 12-13 | Addysg | 2011/12 | TERFYNOL | D/B |
| Adroddiad Cyfeirio 10 12-13 | Trafnidiaeth | 2012/13 | TERFYNOL | D/B |
| Adroddiad Cyfeirio 11 12-13 | Hamdden | 2012/13 | TERFYNOL | D/B |
| Adroddiad Cyfeirio 14 12-13 | Canolog | 2012/13 | TERFYNOL | D/B |
| Adroddiad Cyfeirio 15 12-13 | Priffyrdd | 2012/13 | TERFYNOL | D/B |

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

**ARCHWILIO MEWNOL**

**CYNLLUN STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL 20012/2015
A CHYNLLUN CYFNODOL 2013/2014**

**CYNGOR SIR YNYS MÔN**

# DRAFFT

**Adroddiad Drafft a gyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio: 23 Gorffennaf 2013**

## 1 Cynllun Strategol Archwilio Mewnol 2012/2015

Cafodd y Cynllun Strategol Archwilio Mewnol cyfredol am y cyfnod 2012/13 i 2014/15 ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio ar 24 Mai 2012. Cymeradwywyd Cynllun Gweithredol yr Adain Archwilio Mewnol ar gyfer 2012/13 ar y dyddiad hwnnw hefyd ac mae diweddariadau ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu hwnnw wedi eu cyflwyno i'r Pwyllgor yn ystod 2012/13.

Mae Cynlluniau Archwilio Mewnol yn ddogfennau byw ac mae angen eu diweddaru'n gyson wrth i systemau newydd gael eu datblygu, wrth i systemau cyfredol newid yn sylweddol, yn sgil newidiadau mewn deddfwriaeth ac amcanion, a risgiau newydd ddod i'r amlwg.

Mae materion adnoddau hefyd yn cael effaith gyson ar y dadansoddiadau. Bydd llai o adnoddau nag a gynlluniwyd yn golygu y bydd angen blaenoriaethu ymhellach a gostwng nifer yr adolygiadau neu ostwng sgôp archwiliadau unigol. Bydd cynnydd mewn adnoddau yn golygu y gellir adolygu mwy o feysydd neu gynnal adolygiadau manylach.

## 2 Proses Asesiad Anghenion Archwilio

Mae'n dull ni o archwilio yn un sy'n seiliedig ar risg . Er mwyn adnabod y meysydd sydd angen archwiliad mewnol, mae'n rhaid i ni ddeall y risgiau sy'n wynebu'r sefydliad. Yr ydym wedi cynnal asesiad anghenion diwygiedig am 2013/14 i 2014/15 gan ddefnyddio'r prosesau canlynol:

- Adolygwyd Cofrestr Risg Gorfforaethol y Cyngor gan roi sylw penodol i risgiau sydd wedi eu categoreiddio fel rhai risg Uchel i'r Cyngor;
- Cadarnhawyd amcanion craidd y sefydliad a'r risgiau allweddol penodol sy'n gysylltiedig â chyflawni'r amcanion hynny trwy drafodaeth gyda rheolwyr y Cyngor;
- Defnyddiwyd y wybodaeth a gasglwyd ynglŷn â'r sefydliad o waith archwilio mewnol blaenorol er mwyn dynodi meysydd a fyddai'n cael budd o archwiliad mewnol;
- Yr oedd yr Asesiad Anghenion Archwilio hefyd yn nodi meysydd nad ydynt yn ymddangos fel risgiau blaenoriaeth uchel ond lle gall archwilio mewnol wneud cyfraniad pwysig tuag at sicrwydd, er enghraifft:
  - Gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus a Chôd Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol;
  - Gwaith sydd ei angen er mwyn i'r archwiliwr allanol fedru dibynnu ar waith archwilio mewnol ynglŷn â systemau cyllidol craidd yn unol â'r cysyniad o archwilio wedi'i reoli;
  - Meysydd o bryder sy'n cael eu nodi gan reolwyr neu'r Pwyllgor Archwilio;
  - Materion sy'n dechrau amlygu eu hunain; a'r
  - Angen am sicrwydd parhaus ynglŷn ag agweddau allweddol o reolaeth risg, trefn lywodraethol a rheolaeth fewnol.

Roedd dogfennau eraill y trowyd atynt wrth ddatblygu'r Cynllun hwn yn cynnwys, ond heb eu cyfyngu i: Datganiad Llywodraethu Corfforaethol CSYM ar gyfer 2011/12; Archwiliad PWC o Ddatganiadau Cyfrifo; Y Gofrestr Risg Gorfforaethol; Cynllun Integredig Sengl CSYM am 2013/25; a chyswllt gydag Archwilwyr Allanol (SAC), PWC a Sgriwtini ynglŷn a'u cynlluniau gwaith ar gyfer 2013/14.

Y dull yr ydym yn ei ffafrio o ran rhoi sylw i risgiau yw defnyddio Cofrestr Risg y Cyngor i yrru Cynlluniau Strategol a Gweithredol yr Adain Archwilio Mewnol gan ddefnyddio ein hadnoddau cyfyngedig i ddarparu sicrwydd ar gyfer y risgiau mwyaf i'r Cyngor lle mae modd gwneud hynny a lle mae'n briodol. Adroddir wedyn ar sicrwydd yn erbyn risgiau sy'n gyfarwydd i'r Rheolwyr ac Aelodau'r Cyngor trwy eu gwybodaeth am risg gorfforaethol.

Ar adeg yr Asesiad Anghenion Archwilio yma, roedd y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn parhau i gael ei datblygu ac nid oedd yn cynnwys darpariaethau i reoli'r risgiau a nodwyd ac, felly, unrhyw sgorau risg ar ôl camau lliniaru. Er y defnyddiwyd y gofrestr, fe gyfyngwyd hynny i nodi meysydd a allai fod yn risg uchel.

Mae adolygiad o'r Fframwaith Rheoli Risg ac effeithiolrwydd camau i liniaru risgiau uchaf y Cyngor wedi ei gynnwys yng Nghynllun Gweithredu'r Adain Archwilio Mewnol ar gyfer 2013/14.

## 3 Cynllun Gweithredu Blynyddol – Archwilio Mewnol

Ar gyfer bob blwyddyn o'r Cynllun Strategaeth Archwilio Mewnol, paratoir Cynllun Gweithredu a hwnnw sy'n rhoddi i'r Adain Archwilio Mewnol ei rhaglen waith am y flwyddyn. Mae'r Asesiad Anghenion Archwilio yn cael ei adolygu a gofynnir i'r Cyfarwyddwyr, Penaethiaid Swyddogaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth nodi pob risg na chafodd sylw'n barod. Defnyddir yr Asesiad Anghenion Archwilio diwygiedig i sianelu adnoddau Archwilio Mewnol yn uniongyrchol i'r rhannau hynny o'r sefydliad sydd, yn dilyn gwaith asesu, yn peri'r risg fwyaf yng nghyswllt cyflawni amcanion.

Fel rhan o'r broses o ddatblygu Cynllun Gweithredu Archwilio Mewnol 2013/14, rydym wedi cyfarfod gyda'r Dirprwy Brif Weithredwr, y Swyddog Adran 151 ac wedi cysylltu gyda'r Cyfarwyddwyr eraill gyda'r Pennaeth Swyddogaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth i drafod eu hanghenion. Ymgynghorwyd gyda'r Archwiliwr Allanol (SAC), PWC a'r Rheolwr Sgriwtini yng nghyswllt Cynllun Gweithredu arfaethedig 2013/14.

Mae'r Cynllun Gweithredu arfaethedig ar gyfer Archwilio Mewnol, fel y gwelir ef yn Atodiad A, yn adlewyrchu canlyniadau arolwg eleni o'r Asesiad Anghenion Archwilio ac yn adlewyrchu'r adnoddau sydd ar gael i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn 2013/14.

## 4 Materion Adnoddau

Mae cyllideb yr Adain Archwilio Mewnol ar gyfer 2013/14 yn seiliedig ar gael tîm llawn o Archwilwyr Mewnol. Adolygwyd nifer dyddiau archwilio a raglennwyd i ddarparu targed heriol i'r Adain yn 2013/14 ac mae'n cynrychioli cynllun a flaenoriaethwyd ac a ddatblygwyd i roi sylw i bob Adran a phob maes gwasanaeth, gan gynnwys meysydd risg newydd neu uwch ar gyfer 2013/14.

**Targedu Adnoddau** – Mae targedu adnoddau cyfyngedig yr Adain Archwilio Mewnol yn hollbwysig i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio lle mae'r angen mwyaf. Yn y cyswllt hwn, mae'r Adain Archwilio Mewnol yn defnyddio nifer o ddulliau i gynorthwyo gyda rheolaeth gan gynnwys: ymgynghoriaeth; cydymffurfiaeth; sicrwydd; rheoli risg; trefniadau llywodraethol; rheolaeth fewnol a gwerth am arian. Er mwyn ychwanegu gwerth go iawn, mae'r Adain Archwilio Mewnol yn edrych ar y risgiau allweddol, ffrydiau gwaith a blaenoriaethau'r Cyngor ac yn canolbwyntio ei hymdrechion yn y meysydd hyn.

Fodd bynnag, nid oes ond modd gwneud hyn lle mae gan sefydliad drefniadau rheoli risg cadarn a fframweithiau rheoli a llywodraethu sy'n gweithio'n effeithiol. Mae ein gwaith yn y meysydd hyn yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf wedi tystio i ddatblygiadau parhaus yn y meysydd hyn ond hefyd wedi nodi ac adrodd ar wendidau sylweddol yn y prosesau sy'n parhau i gael sylw. O'r herwydd, bydd angen parhau i ddefnyddio adnoddau cyfyngedig yn yr Adain Archwilio Mewnol i gryfhau'r fframweithiau hyn o ran dyluniad rheolaethau, cydymffurfiaeth a sicrwydd.

**'Gwerth Ychwanegol'** – O'r herwydd, mae llai o adnoddau i ddarparu'r 'gwerth ychwanegol' y mae gan y Gwasanaeth y potensial i'w ddarparu. Fodd bynnag, rydym wedi medru cynnwys meysydd yn y Cynllun Gweithredu yr ydym yn ystyried y gallwn gynorthwyo rheolwyr ac ychwanegu gwerth mewn perthynas ag Iechyd Corfforaethol; Rheoli Gwybodaeth a'r Rhaglen Effeithlonrwydd. Yn ogystal, rydym wedi cynnwys adnoddau ychwanegol yng Nghynllun Gweithredu Mewnol 2013/14 ar gyfer adolygiadau yn y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gwasanaeth Addysg er mwyn cynorthwyo i roddi sicrwydd ar ymatebion y Cyngor i adroddiadau anffafriol gan drydydd partïon yn 2012/13 ac i ddarparu ffordd ymlaen i nodi a rhoi sylw i'r fath faterion yn fewnol cyn iddynt gael eu dwyn i'n sylw gan reoleiddwyr allanol.

**Cynnydd yn nifer y cyfeiriadau** – Yn ystod 2012/13, gwelwyd nifer gynyddol o gyfeiriadau'n cael eu gwneud mewn perthynas â gwendidau llywodraethu a diffygion mewn systemau rheoli yr oedd angen i'r Adain Archwilio Mewnol roi sylw iddynt. Rhagwelir y bydd y cynnydd hwn yn parhau ac mae rhywfaint o adnoddau wedi eu neilltuo ar gyfer y math hwn o waith yn 2013/14.

Fodd bynnag, yn ystod 2013/14 bydd angen bod yn fwy dethol o ran y cyfeiriadau y byddwn yn ymchwilio iddynt ac yn adrodd arnynt.

## 5 Cynlluniau Blynyddol a Strategol

Rydym wedi diweddaru'r Cynllun Archwilio Mewnol Strategol ar gyfer 2012/13 i 2014/15 sy'n cynnwys y Cynllun Gweithredu Mewnol ar gyfer 2013/14 ac fe'i gyflwynir i'w ystyried gan uwch reolwyr ac Aelodau a hynny'n unol â Chôd Ymarfer Archwilio CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol (gweler Atodiad A os gwelwch yn dda). Mae'r Cynllun Strategol Archwilio Mewnol i'w weld yn Atodiad C a manylir ar y materion yn ymwneud ag adnoddau yn Atodiad B.

## 6 Materion i'r Pwyllgor Archwilio eu hystyried

- A yw'r Cynllun Archwilio Mewnol Strategol 2012/13 i 2014/15 yn adlewyrchu'r meysydd y mae'r Pwyllgor Archwilio yn credu y dylid rhoi sylw iddynt yn y cyfnod?
- A yw'r Cynllun Gweithredu Archwilio Mewnol manwl 2013/14 yn adlewyrchu'r meysydd y mae'r Pwyllgor Archwilio o'r farn y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt?
- A ydyw lefel yr adnoddau archwilio yn dderbyniol i'r Pwyllgor ac yn briodol ganddo yn wyneb lefel y sicrwydd y gofynnir amdani?

**PENNAETH GWASANAETH – ARCHWILIO** **8 GORFFENNAF 2013**

**ATODIAD A**

## CYNGOR SIR YNYS MÔN

## CYNLLUN GWEITHREDU ARCHWILIO MEWNOL - 2013/2014

Yn y Cynllun Gweithredu Archwilio Mewnol ar gyfer 2013/14, nodir y gwaith archwilio mewnol y bwriedir ei wneud yn y flwyddyn ariannol. Mae'r cynllun yn seiliedig ar yr Asesiad Anghenion Archwilio ac ar yr anodau sydd ar gael i'r Adain Archwilio Mewnol yn ystod y cyfnod. Lluniwyd y Cynllun ar ôl ymgynghori â'r Dirprwy Brif Weithredwr, Cyfarwyddwyr, Penaethiaid Swyddogaeth a Phenaethiaid Gwasanaeth. Ymgynghorwyd hefyd gyda'r Rheolwr Sgriwtini, yr Archwiliwr Allanol (SAC) a PWC wrth lunio'r cynllun i osgoi unrhyw ddyblygu o ran adnoddau archwilio.

Defnyddiwyd Cofrestr Risg Gorfforaethol y Cyngor i nodi'r risgiau uchaf i'r Cyngor ac i flaenoriaethu gwaith yr Adain Archwilio Mewnol yn ystod y cyfnod. Bydd cyflawni'r Cynllun Gweithredu yn rhoi sicrwydd i uwch reolwyr ac Aelodau bod fframwaith rheolaeth fewnol a gweithdrefnau rheoli digonol wedi eu sefydlu o fewn y Cyngor i reoli'r risgiau hyn yn effeithiol.

Roedd dogfennau y trowyd atynt wrth ddatblygu'r Cynllun hwn yn cynnwys, ond heb eu cyfyngu i: Datganiad Llywodraethu Corfforaethol CSYM 2011/12; Archwiliad PWC o'r Datganiadau Cyfrifo; y Gofrestr Risg Gorfforaethol; Cynllun Integredig Sengl CSYM am 2013-25; ac ymgynghori gyda'r Archwiliwr Allanol (SAC), PWC a Sgriwtini ar eu cynlluniau gwaith am 2013/14.

## CYNLLUN GWEITHREDU ARCHWILIO MEWNOL - 2013/2014

| CORFFORAETHOL | Fersiwn 4 | |
|---|---|---|
| **Maes Archwiliadwy** | **Math o Adolygiad** | |
| Rheoli Risg – Camau i liniaru'r pum risg uchaf a nodwyd gan yr UDA a'r Cynllun Gweithredu Ôl-Arolwg Addysg | Y pum risg uchaf | Yn seiliedig ar risg |
| Systemau Adnoddau Dynol - Hunanwasanaeth a'r Gyflogres - Contract a Chefnogaeth - Adrodd ar Ddangosyddion Iechyd Corfforaethol - Staffio; salwch; gwyliau ac ati | System Newydd | Yn seiliedig ar risg |
| Cynllun Ariannol Tymor Canol – Cadernid Clandriadau Arbedion Effeithlonrwydd | Risg YM28 a YM33 | Cydymffurfiaeth |
| Rheoli Gwybodaeth/Llywodraethu – Dilyn i Fyny | Risg YM7 a YM20 | Dilyn i fyny |
| Adferiad Corfforaethol, Ôl-ddyledion a Dyledion sy'n cael eu dileu - Rheolaeth a'r sefyllfa gyfredol | Aseswyd gan AM | Yn seiliedig ar risg |
| Goramser – Prosesau a Monitro – Effeithlonrwydd – gan gynnwys y System Oriau Hyblyg | Aseswyd gan AM | Yn seiliedig ar risg |
| Partneriaethau – Trefniadau Llywodraethu – Cyfrifoldebau a Sicrwydd(Archwilio) – Pwyllgor newydd. | Cyfarwyddwyr DC & GO | System |
| Yn cynnwys: Gwasanaeth Addysg GWE a Phartneriaethau Plant a Phobl Ifanc | | 7 |

| YR UNED BOLISI | | |
|---|---|---|
| **Maes Archwiliadwy** | **Ffynhonnell Adolygu** | **Math o Adolygiad** |
| System Cwynion Corfforaethol – ar ôl Ch. 2 13-14 | Ar gais y Gwasanaeth | System 1 |

| GWASANAETHAU TAI | | |
|---|---|---|
| **Maes Archwiliadwy** | **Ffynhonnell Adolygu** | **Math o Adolygiad** |
| Rhenti Tai | Rheolaethau Allweddol | System |
| Rheoli Tai – gan gynnwys Gosod Tai | Asesiad Risg AM | System |
| Digartrefedd | Cylchol AM | Yn seiliedig ar risg 3 |

| GWASANAETHAU CYMDEITHASOL | | |
|---|---|---|
| **Maes Archwiliadwy** | **Ffynhonnell Adolygu** | **Math o Adolygiad** |
| Ffioedd Allsirol – Gwasanaethau Plant | Ar gais y Gwasanaeth | System |
| Caffael – Darparwyr yn cynnwys Tyddyn Môn – Darparwyr a gyllidir gyda Grant – Manylebau rhen flaen | Cylchol AM | Cydymffurfiaeth – GAA |
| Arferion Penodedigion a Dirprwyon | Ar gais y Gwasanaeth | System |
| Taliadau Uniongyrchol – Dilyn i Fyny | Ar gais y Gwasanaeth | Dilyn i fyny |
| Uned Cyllid Cleient – Cyfleon CIVICA – Dilysu Ansawdd Data Cyllid ac AD | Ar gais y Gwasanaeth | System |
| Gwasanaethau Oedolion – Darpariaeth a Chostau | Cais DPW | Yn seiliedig ar risg |
| Cynlluniau Parhad Gwasanaeth - yn cynnwys y sector annibynnol a gofalwyr - rhestrau a manylion cyswllt darparwyr? | Cyfarwyddwr Cymuned | System |
| Ffeiliau Achos - Cydymffurfiaeth - Croesgyfeirio sampl i'r lejer a gwirio | Ar gais y Gwasanaeth | Cydymffurfiaeth |
| Thematig – Ffrydiau Gwaith Allweddol Statudol – Cwrdd â chyfrifoldebau statudol | Ar gais y Gwasanaeth | Thematig 9 |

| GWASANAETH CYLLID | | |
|---|---|---|
| **Maes Archwiliadwy** | **Ffynhonnell Adolygu** | **Math o Adolygiad** |
| Casglu Arian | Sicrwydd Allanol | Rheolaethau Allweddol |
| Mân-Ddyledwyr | Sicrwydd Allanol | Rheolaethau Allweddol |
| Taliadau i Gredydwyr | Sicrwydd Allanol | Rheolaethau Allweddol |
| Lejer Ariannol a Chysoni Banc | Sicrwydd Allanol | Rheolaethau Allweddol |
| Lejer CIVICA - Adolygiad Ôl-weithredol | Asesiad Risg AM | AOW |
| Budd-daliadau Tai | Sicrwydd Allanol | Rheolaethau Allweddol |
| Rheoli'r Trysorlys | Sicrwydd Allanol | Rheolaethau Allweddol |
| Y Dreth Gyngor | Sicrwydd Allanol | Rheolaethau Allweddol |
| Trethi Cenedlaethol Annomestig | Sicrwydd Allanol | Rheolaethau Allweddol |
| Y Gyflogres – yn cynnwys talu'r rheini nad ydynt yn gyflogedig | Sicrwydd Allanol | Rheolaethau Allweddol |
| Cyflogau Athrawon | Asesiad Risg AM | System |
| Amserlen Cau Cyfrifon - Sicrwydd | Ar gais y Gwasanaeth | Cydymffurfiaeth |
| Prosesau Hawlio Grant | Ar gais y Gwasanaeth | Cydymffurfiaeth 13 |

| GWASANAETHAU TGCh | | |
|---|---|---|
| **Maes Archwiliadwy** | **Ffynhonnell Adolygu** | **Math o Adolygiad** |
| Gwiriad Iechyd TGCh – yn cynnwys rheolaethau mynediad rhesymegol/llwybrau archwilio cymwysiadau allweddol/Strategaeth TGCh | Ar gais Pennaeth Gwasanaeth Adnoddau | Ymgynghorol |
| Polisi Defnydd o'r rhyngrwyd a phrosesau cefnogol | Asesiad Risg AM | Yn seiliedig ar risg 2 |

| PRIFFYRDD A THRAFNIDIAETH | | |
|---|---|---|
| **Maes Archwiliadwy** | **Ffynhonnell Adolygu** | **Math o Adolygiad** |
| Ffioedd Meysydd Parcio a Rhybuddion Ffioedd Ychwanegol – Cydweithredol | Cydweithredol | Rheolaethau Allweddol |
| Cael Gwared ar Wastraff – gan gynnwys Gwastraff Masnachol | Cais DPW | Yn seiliedig ar risg |
| Trefniadau cynnal y Fflyd - gan gynnwys gwerth am arian - cymhariaeth rhwng defnyddio cerbydau'r Cyngor a cherbydau swyddogion unigol - cydymffurfiaeth gyda'r polisi cyfredol | Risg YM6 | Yn seiliedig ar risg |
| Bathodynnau glas – Gweithdrefnau NFI – Ydi siop un stop Safonau Masnach ar gyfer yr ymadawedig yn rhoi sylw i'r maes hwn? | NFI | Yn seiliedig ar risg 4 |

| GWASANAETHAU CYNLLUNIO | | | |
|---|---|---|---|
| **Maes Archwiliadwy** | **Ffynhonnell Adolygu** | **Math o Adolygiad** | |
| Cynllun Grant Eiddo ac Amgylchedd (PEG) | Asesiad Risg AM | System | 1 |

| DATBLYGU ECONOMAIDD | | | |
|---|---|---|---|
| **Maes Archwiliadwy** | **Ffynhonnell Adolygu** | **Math o Adolygiad** | |
| Ôl-2013 – Llywodraethu Cyllid Ewropeaidd – Cyfatebu â ffrydiau gwaith? | Ar gais y Gwasanaeth | System | 1 |

| EIDDO | | | |
|---|---|---|---|
| **Maes Archwiliadwy** | **Ffynhonnell Adolygu** | **Math o Adolygiad** | |
| Rheoli Asedau – Defnyddio Adeiladau – Adeiladau Gwag | Cyfeirio | Yn seiliedig ar Risg | 1 |

| DYSGU GYDOL OES | | | |
|---|---|---|---|
| **Maes Archwiliadwy** | **Ffynhonnell Adolygu** | **Math o Adolygiad** | |
| Ardystiad Archwilio - Chweched dosbarth Llywodraeth Leol ac Addysg barhaus i oedolion | Asesiad Risg AM | Cydymffurfiaeth | 0 |

| HAMDDEN A'R GYMUNED | | | |
|---|---|---|---|
| **Maes Archwiliadwy** | **Ffynhonnell Adolygu** | **Math o Adolygiad** | |
| Canolfan Hamdden David Hughes – yn cynnwys canran o ddefnydd allanol/mewnol gan ysgolion/cymunedau | Asesiad Risg AM | Sefydliad | 1 |

| ADDYSG | | | |
|---|---|---|---|
| **Maes Archwiliadau** | **Ffynhonnell Adolygu** | **Math o Adolygiad** | |
| Ysgol gynradd 1 | Cylchol AM | Ysgol | |
| Ysgol gynradd 2 | Cylchol AM | Ysgol | |
| Ysgol gynradd 3 | Cylchol AM | Ysgol | |
| Ysgol gynradd 4 | Cylchol AM | Ysgol | |
| Ysgol gynradd 5 | Cylchol AM | Ysgol | |
| Ysgol gynradd 6 | Cylchol AM | Ysgol | |
| Ysgol uwchradd 1 | Cylchol AM | Ysgol | |
| Ysgolion – dilyn i fyny ar COCH a COCH AMBR | Cylchol AM | Ysgol | |
| Brecwast am Ddim LIC | Sicrwydd Allanol | Rheolaethau Allweddol | |
| Trefniadau Rheolaeth Ariannol – Adolygiad o Fethodoleg Archwilio Ysgolion – gan gynnwys cyfarfodydd ynghylch hunanasesu yn 2014-15 | Asesiad Risg AM | System | |
| Ysgol Uwchradd Caergybi – Cau'r bwlch cyllidebol erbyn Medi 2014 – yn gynilach a diwastraff – defnyddio staff ac ati. | Ar gais Cyfarwyddwr Addysg Gydol Oes | Cydymffurfiaeth | |
| Adolygiad Thematig o Ysgolion | Asesiad Risg AM | System | |
| | | | 12 |

**ATODIAD B**

## Adnoddau

### 1 Asesu Lefel yr Adnoddau Angenrheidiol

Rydym wedi defnyddio'n barn proffesiynol i asesu pa lefel o adnoddau sy'n angenrheidiol i'r gwaith archwilio a nodwyd yn y cylch strategol. Mae lefel yr adnoddau'n dibynnu ar:

- Cymhlethdod y system sy'n ei lle;
- Ffactorau megis nifer y lleoliadau, nifer y trafodion neu amlder y trafodion;
- Y sicrwydd y mae modd ei ddwyn ymlaen o waith archwilio'r flwyddyn cynt;
- Y math o waith archwilio a wneir.

### 2 Yr Adnoddau sydd ar gael yn yr Adain Archwilio Mewnol

Mae'r adnoddau sydd ar gael yn y Gwasanaeth Archwilio Mewnol am 2013/14 fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Rheolwr Archwilio | 144 diwrnod |
| Uchel Archwiliwr Mewnol | 260 diwrnod |
| Archwilwyr Mewnol x 2 | 520 diwrnod |
| Archwilwyr x 2 | 520 diwrnod |
| **Cyfanswm:** | **1444** |

Mae'r cynllun yn seiliedig ar yr adnoddau uchod sydd ar gael yn 2013-14 ar ôl tynnu elfen o 548 o ddyddiau na chodir amdanynt mewn perthynas â gwyliau blynyddol a salwch, hyfforddiant, gweinyddu gwaith y Pwyllgor Archwilio ac ati – sef dyletswyddau sy'n angenrheidiol ar gyfer swyddogaeth yr Adain ond nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol ag adolygiadau archwilio. Cynlluniwyd 210 o ddyddiau ychwanegol i wneud gwaith na chafodd ei raglennu sy'n cynnwys cyfeiriadau, materion a all godi, cyngor, dilyn i fyny ac ati.

Cyfanswm nifer y Dyddiau Archwilio Mewnol ar gyfer gwaith archwilio mewnol a raglennwyd yn erbyn Cynllun 2013/14 felly yw 686 o ddyddiau.

### 3 Y Defnydd a wneir o'r Adnoddau

Mae'r canrannau o ran y dyddiau archwilio sydd ar gael ar draws holl weithgareddau'r Cyngor i'w gweld isod. Mae'r dyraniadau yn adlewyrchu'r meysydd risg uchel corfforaethol cyfredol a nodwyd o'r dadansoddiad o anghenion archwilio. O'r herwydd, mae'r ganran uchaf o ddyddiau yn 2013/14 wedi eu neilltuo ar gyfer adolygiadau yn y meysydd Cyllid a TGCh, Cymuned ac Addysg Gydol Oes.

| Maes Cygor | Nifer yr adolygiadau | % o'r cyfanswm |
|---|---|---|
| Gwasanaethau Canolog a Chorfforaethol | 8 | 14% |
| Cyllid a Thechnoleg Gwybodaeth | 16 | 29% |
| Addysg Gydol Oes | 13 | 23% |
| Cymuned | 12 | 21% |
| Datblygu Cynaliadwy | 7 | 13% |
| **Cyfanswm nifer yr adolygiadau rhaglenedig yn y Cynllun** | **56** | |

## 4 Cydweithio

Mae Partneriaeth Archwilio Gogledd a Chanolbarth Cymru, sy'n cynnwys y chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru a phedwar o sefydliadau sector cyhoeddus eraill, wedi ei chreu i ganiatáu i'r sefydliadau partner weithio'n agosach gyda'i gilydd gyda'r nod o fod yn fwy effeithlon. Bwriad y Bartneriaeth yw gweithio gyda'i gilydd ar feysydd archwilio newydd ac esblygol a rhannu canlyniadau'r gwaith hwnnw.

Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol hefyd yn cymryd rhan yng nghyfarfodydd Grŵp Prif Archwilwyr Cymru ac mae'n bwriadu datblygu'r cysylltiadau hyn ymhellach yn 2013-14.

**ATODIAD C**

## Cyngor Sir Ynys Môn

## CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL STRATEGOL 2012/13 I 2014/15 FEL YR OEDD YN EBRILL 2013

| Maes Archwilio | Gwirioneddol 2012/13 | Cynllunedig 2013/14 | Cynllunedig 2014/15 |
|---|---|---|---|
| **GWASANAETHAU CANOLOG A CHORFFORAETHOL** | | | |
| Fframwaith Rheoli Risg a Chofrestr Risg Gorfforaethol – adolygiadau Risg Uchel | | | |
| Hunan Wasanaeth Adnoddau Dynol yn cynnwys Dangosyddion Iechyd Corfforaethol | | | |
| Polisi Teithio a Chynhaliaeth | | | |
| Prosesau goramser yn cynnwys system fflecsi | | | |
| Rheoli Perfformiad | | | |
| Cytundebau Canlyniad | | | |
| Benthyciadau Car | **Dim yn y Cynllun** | | |
| Lwfansau Aelodau | | | |
| Llywodraethu Gwybodaeth a Diogelwch Data | | | |
| Diogelu Data / Rhyddid Gwybodaeth / Asesu'r Effaith ar Breifatrwydd | | | |
| Llungopïo – GAA | | | |
| Lwfansau Hyfforddi | | | |
| Rhestr Stoc | | | |
| Adfer TGCh ar ôl Trychineb a Parhad Busnes | | | |
| Tracio Argymhellion – Adolygiad Gwirio Hunanasesiadau AM | | **Mynd rhagddo** | **Mynd rhagddo** |
| Tracio Argymhellion – nid rhai AM | | | |
| Adolygiad Iechyd Corfforaethol yn cynnwys salwch | | **Gweler AD uchod** | |
| Prosesau Cynllunio Busnes | | | |
| Rheoli a Storio Cofnodiadau | | | |
| Diogelu Data | | | |
| Fframwaith Diogelu Recriwtio | | | |
| Ynni-GAM | **Dim yn y Cynllun** | | |
| Menter Twyll Genedlaethol - System | | | |
| Dynladdiad Corfforaethol – Rheoli'r Fflyd+ | | | |
| Diogelwch Cymunedol | | | |
| Gofal Môn | | | |
| Cynllun Ariannol Tymor Canolig | | | |
| Adferiad Corfforaethol, Rheoli Dyledion a Dileu Dyledion | | | |
| Partneriaethau trefniadau llywodraethu | | | |
| Cofrestr Etholiad | | | |
| *Gwasanaethau Cyfreithiol* | | | |
| Proses Cwynion | | | |
| **IS-GYFANSWM** | **8** | **8** | **10** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **CYLLID A TECHNOLEG GWYBODAETH** | | | |
| *Cyllid* | | | |
| Proses Hawlio Grant | | | |
| Adolygiad Gweithredu Lejer Civica | | | |
| Lejer Civica – Adolygiad ôl gweithredol | | | |
| Amserlen Cau Cyfrifon – Sicrwydd | | | |
| Cyflogres Athrawon | | | |
| NNDR | | | |
| Budd-daliadau Tai | | | |
| Y Dreth Gyngor | | | |
| Y Gyflogres – yn cynnwys Talu i'r rheini nad ydynt yn gweithio i'r Cyngor | | | |
| Mân ddyledwyr | | | |
| Credydwyr | | | |
| Ledjer Ariannol a Chysoni Banc | | | |
| Rheoli Trysorlys | | | |
| Cyfrifon Imprest a Chysoni | | | |
| Casglu Arian | | | |
| Pennu'r Gyllideb a Monitro | | | |
| TAW | | | |
| Cardiau Caffael Corfforaethol | | | |
| Adroddiad Asedau Sefydlog | | | |
| Trefniadau Caffael, Cydymffurfiaeth ac E-dendro | | | |
| *Technoleg Gwybodaeth* | | | |
| Gwiriad Iechyd TGCh | | | |
| Mynediad i'r Rhyngrwyd / Defnydd o'r Rhyngrwyd | | | |
| Strategaeth TGCh | | | |
| Rhwydweithiau | | | |
| **IS-GYFANSWM** | **13** | **15** | **15** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **ADDYSG A HAMDDEN** | | | |
| *Dysgu Gydol Oes a Gwybodaeth* | | | |
| Oriel Ynys Môn | | | |
| Uned Llyfryddol | | | |
| Archifau | | | |
| Canolfan Hamdden Plas Arthur | | | |
| Datblygu Chwaraeon | | | |
| Canolfan Hamdden Amlwch | | | |
| Canolfan Hamdden Biwmares | | | |
| Ardystio Archwiliad – Chweched Dosbarth Llywodraeth Leol | | | |
| Canolfan Hamdden David Hughes | | | |
| **IS-GYFANSWM** | **1** | **2** | **3** |

| *Addysg* | | | |
|---|---|---|---|
| Ysgol Bodedern | | | |
| Ysgol Bodffordd | | | |
| Ysgol Llanbedrgoch | | | |
| Ysgol Rhosneigr | | | |
| Ysgol Goronwy Owen | | | |
| Ysgol y Tywyn | | | |
| Ysgol y Morswyn | | | |
| Ysgol Pencarnisog | | | |
| Ysgol David Hughes | | | |
| Ysgol Y Bont | | | |
| Ysgol Bryngwran | | | |
| Ysgol Llanfechell | | | |
| Ysgol Llanfairpwll | | | |
| Ysgol Kingsland | | | |
| Ysgol Llanfawr | | | |
| Ysgol Biwmares | | | |
| Ysgol Dwyran | | | |
| Ysgol Esceifiog | | | |
| Ysgol Gyfun Llangefni | | | |
| Ysgol Llannerchymedd | | | |
| Ysgol Llanfachraeth | | | |
| Ysgol Llangristiolus | | | |
| Ysgol Moelfre | | | |
| Ysgol Niwbwrch | | | |
| Ysgol Ffrŵd Win | | | |
| Ysgol Uwchradd Bodedern | | | |
| Ysgol Syr Thomas Jones | | | |
| Ysgol Uwchradd Caergybi | | | |
| **IS-GYFANSWM** | **8** | **7** | **7** |
| Dilyn i Fyny – Ysgolion (Coch neu Coch Ambr yn y flwyddyn flaenorol) | | | |
| Grantiau Dillad LIC | | | |
| Incwm Prydau Ysgol | | | |
| Cinio am Ddim | | | |
| Adolygiad Thematig o'r Ysgolion | | | |
| LIC – Brecwast am Ddim | | | |
| Grant Chweched Dosbarth – PLASC – Rhwydwaith Dysgu | **Yn Ysgolion** | **Yn Ysgolion** | **Yn Ysgolion** |
| Incwm Cludiant Ysgol | | | |
| Trefniadau Rheolaeth Ariannol- yn cynnwys Methodoleg Archwilio | | | |
| Integreiddio | | | |
| Ysgol Uwchradd Caergybi - Cyllideb | | | |
| Ffioedd Myfyrwyr | | | |
| **IS-GYFANSWM** | **4** | **5** | **6** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **CYMUNED** | | | |
| *Tai* | | | |
| Digartrefedd | | | |
| Grantiau Tai | | | |
| Cymunedau'n Gyntaf | | | |
| Caffael yn yr Uned Cynnal Adeiladau | | | |
| Rheoli Asbestos | | | |
| Costio Gwaith - UCA | | | |
| Rheoli Tai – yn cynnwys Gosodiadau | | | |
| Rhenti Tai | | | |
| *Gwasanaethau Cymdeithasol* | | | |
| Ffioedd Allsirol – Gwasanaethau Plant | | | |
| Gwasanaethau Oedolion – Darpariaeth a Chostio | | | |
| Cynlluniau Parhad Busnes | | | |
| Ffeiliau Achos – Cydymffurfio | | | |
| Thematig – Ffrydiau Gwaith Statudol Allweddol | | | |
| Uned Gyllid Cleient – Cyfleon CIVICA | | | |
| Gwasanaethau Plant – Asesu a Monitro | | | |
| Apwyntiadau / Dirprwyon | | | |
| Canolfan Dydd Biwmares | | | |
| Gwasanaethau Cymdeithasol - Caffael | | | |
| Canolfan Byron | | | |
| Cartref Henoed Plas Penlan | | | |
| Pryd ar Glud | | | |
| Cyfrifon Dros Dro a Chronfeydd Rhoddion | | | |
| Taliadau Uniongyrchol i Gleientiaid | | | |
| Byw Cymunedol - Ucheldre | | | |
| Cartref Henoed Plas Crigyll | | | |
| Cartref Henoed Garreglwyd | | | |
| Gofal Dydd Hafan | | | |
| **IS-GYFANSWM** | **6** | **12** | **10** |
| **DATBLYGU CYNALIADWY** | | | |
| Bathodynau Glas – Gweithdrefnau NFI | | | |
| Rheoli/Cynnal a Chadw Fflyd | | | |
| Trefniadau Rheoli Asedau | | | |
| Llywodraethu Cyllid Ewropeaidd Ôl-2013 | | | |
| Contractau Gwastraff | | | |
| Rhybuddion Ffioedd Gormodol | | | |
| Ffioedd ac incwm meysydd parcio | | | |
| Arforol | | | |
| Rhenti Unedau Diwydiannol | | | |
| Masnachu Carbon | | | |
| Trafnidiaeth Cyhoeddus | | | |
| Targedau Rheoli Gwastraff | | | |
| Gwaith Priffyrdd y codir amdano | | | |
| Cynnal a Chadw Tiroedd | | | |
| Ffioedd a Phrisiau Priffyrdd | | | |
| Marchnadoedd | | | |
| Contract Cyfnodol - Palmantau | | | |
| Rhenti Mân-ddaliadau | | | |
| Grantiau Datblygu Economaidd | | | |
| Grant Eiddo ac Amgylchedd (PEG) | | | |
| **IS-GYFANSWM** | **6** | **7** | **5** |

| MEYSYDD ARALL | | | |
|---|---|---|---|
| Darpariaeth ar gyfer archwiliadau arbennig | | | |
| Darpariaeth ar gyfer ceisiadau ad-hoc gan y Swyddog Adran 151 | | | |
| Darpariaeth ar gyfer Cyngor Cyffredinol i Wasanaethau | | | |
| Gwaith Dilyn i fyny | | | |
| Wrth gefn | | | |
| **IS-GYFANSWM** | | | |
| | | | |
| **CYFANSWM AM Y FLWYDDYN** | **46** | **56** | **56** |

| | |
|---|---|
| | **ON – Chwe Ysgol Gynradd bob blwyddyn ar sail risg a phum Ysgol Uwchradd dros gyfnod o dair blynedd.** |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| PWYLLGOR: | PWYLLGOR ARCHWILIO |
| DYDDIAD: | 23 GORFFENNAF 2013 |
| TEITL YR ADRODDIAD: | ADRODDIAD CYNNYDD AR ARCHWILIO MEWNOL 1 EBRILL 2013 – 30 MEHEFIN 2013 |
| PWRPAS YR ADRODDIAD: | ER GWYBODAETH |
| ADRODDIAD GAN: | RHEOLWR ARCHWILIO |
| GWEITHREDU: | PENDERFYNIADAU/CYMERADWYAETH FEL Y NODWYD YN YR ADRODDIAD |

## 1. RHAGARWEINIAD

**1.1** Cyflwynir y Cynllun Gweithredol 2013/14 i'r Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ar 23 Gorffennaf 2013. Paratowyd y Cynllun mewn ymgynghoriad gyda'r Archwiliwr Allanol, gyda'r Swyddog Adran 151 a thrwy gyfarfodydd a gohebiaeth gyda'r Penaethiaid Gwasanaeth.

**1.2** Yn yr adroddiad hwn, crynhoir gwaith yr Adain Archwilio Mewnol hyd at 30 Mehefin 2013 a hefyd mae ynddo grynodeb o bob un o'r adroddiadau terfynol a gyhoeddwyd.

**1.3** Yn achos pob adroddiad terfynol y rhoddwyd iddo farn 'Sicrwydd Coch', cynhelir Adolygiad Dilyn-i-fyny ac yn hwnnw nodir beth yw barn yr Adain Archwilio ar gynnydd y rheolwyr yn y broses o ran gweithredu ar argymhellion yn y categori Uchel a Chanolig yn codi o'r adroddiad terfynol gwreiddiol. Cyflwynir canlyniadau'r adolygiad Dilyn-i-fyny i'r Pwyllgor Archwilio nesaf.

**1.4** Ni chafwyd unrhyw adroddiadau yn y cyfnod hwn a arweiniodd at farn 'Sicrwydd Coch'. Caiff Crynodebau Gweithredol ar gyfer adroddiadau barn 'Sicrwydd Coch' eu cyflwyno fel Atodiadau lle mae hynny'n berthnasol.

**1.5** Mae'r Uned Archwilio Mewnol yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar risg lle bynnag y mae hynny'n bosib, ond gall ddefnyddio Adolygiadau System, Adolygiadau Rheolaethau Allweddol, Adolygiadau Sefydliad neu Adolygiadau Ymgynghorol os yw'r dulliau hyn yn fwy priodol.

**1.6** Mae'r adroddiadau terfynol unigol ar gael i aelodau'r Pwyllgor hwn, ar sail gyfrinachol, ar gais i'r Rheolwr Archwilio.

## 2. YR ADRODDIADAU A GYHOEDDWYD HYD YMA A GWAITH SY'N MYND RHAGDDO

**2.1** Mae Tabl 1 isod yn dangos statws yr adolygiadau sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd ac/neu sydd wedi eu cwblhau hyd at adroddiad terfynol yn y cyfnod hwn ynghyd â'r farn archwilio gyffredinol.

Tabl 1

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **2012/13** | | |
| Lwfansau Aelodau – dilyn i fyny | 2012/13 | TERFYNOL | 'Cynnydd Da' |
| Prif System Cyfrifo | 2012/13 | TERFYNOL | GWYRDD |
| Derbyn arian | 2012/13 | TERFYNOL | GWYRDD |
| Y Gyflogres | 2012/13 | TERFYNOL | GWYRDD/AMBR |
| Rhenti Tai | 2012/13 | TERFYNOL | COCH/AMBR |
| Gweithredu CIVICA | 2012/13 | TERFYNOL | YMGYNGHOROL |
| Incwm Arforol | 2012/13 | Yn mynd rhagddo | |
| | **2013/14** | | |
| Caffael System AD | 2013/14 | TERFYNOL | YMGYNGHOROL |
| Penodeion a Dirprwyon | 2013/14 | TERFYNOL | YMGYNGHOROL |
| Fframwaith Partneriaeth | 2013/14 | TERFYNOL | YMGYNGHOROL |
| AD – Amdanaf i | 2013/14 | DRAFFT | |
| LICC – Brecwast am ddim | 2013/14 | DRAFFT | |
| Grantiau – Cydymffurfiaeth | 2013/14 | Yn mynd rhagddo | |
| Digartrefedd | 2013/14 | Yn mynd rhagddo | |
| Bathodynnau Glas | 2013/14 | Yn mynd rhagddo | |
| Taliadau Uniongyrchol – Dilyn i fyny | 2013/14 | Yn mynd rhagddo | |
| Canolfan Hamdden David Hughes | 2013/14 | Yn mynd rhagddo | |
| **Ysgolion** | | | |
| | **2012/13** | | |
| Ysgol David Hughes | 2012/13 | TERFYNOL | GWYRDD |
| Ysgol Biwmares | 2012/13 | TERFYNOL | GWYRDD/AMBR |
| Ysgol Llanfachraeth | 2012/13 | DRAFFT | |
| | **2013/14** | | |
| Ysgol Kingsland | 2013/14 | TERFYNOL | GWYRDD |
| Ysgol Gyfun Llangefni | 2013/14 | DRAFFT | |
| **Cyfeiriadau** | | | |
| Adroddiad 1 | 2013/14 | | D/B |
| Adroddiad 2 | 2013/14 | | D/B |
| Adroddiad 3 | 2013/14 | | D/B |

## 2.2 Canfyddiadau Allweddol yr Adroddiadau a Gyhoeddwyd

### 2.2.1 Lwfansau Aelodau –

Fel rhan o'r cynllun archwilio mewnol cyfnodol a gymeradwywyd ar gyfer 2012/13, rydym wedi cynnal adolygiad er mwyn dilyn i fyny'r cynnydd a wnaed gan reolwyr o ran gweithredu argymhellion archwilio mewnol a wnaed yn yr Adroddiad ar Lwfansau Aelodau 1554.10/11 a gyhoeddwyd ym mis Mai 2011.

Roedd yr Adroddiad ar Lwfansau Aelodau 1554.10/11 yn cynnwys **15 o argymhellion** ac, o'r rheiny, roedd naw yn y categori canolig a chwech ohonynt yn argymhellion categori isel. Roedd gan yr holl argymhellion ddyddiadau gweithredu a oedd cyn dyddiad y gwaith maes ar gyfer yr adroddiad dilyn-i-fyny hwn.

**Barn:** Mae rheolwyr wedi gwneud cynnydd da o ran gweithredu'r camau yr oedd angen eu cymryd i roi sylw i'r argymhellion archwilio mewnol a oedd yn y categorïau canolig ac isel.

### 2.2.2 Prif System Gyfrifo

Roedd yr adolygiad wedi cael ei gynnwys yn yr adroddiad archwilio mewnol i bwrpas dibyniaeth archwiliadau mewnol ac allanol ac uwch reolwyr o fewn Cyllid. Cynhelir yr adolygiad bob blwyddyn, ac yn dilyn yr adolygiad blaenorol yn ystod 2011/12, cafwyd barn sicrwydd Werdd.

Cafodd y system FinanceLink ei disodli gan system lejer Civica ym mis Ebrill 2013 ac, o'r herwydd, hwn yw'r adolygiad diwethaf o'r system FinanceLink. Cafodd adroddiad ar wahân ar weithrediad system Civica ei gyhoeddi yn ystod Ebrill 2013.

**Barn:** Cafwyd barn archwilio Werdd yn dilyn yr adolygiad a gwnaed tri o argymhellion categori canolog ac un categori isel.

### 2.2.3 Derbyn Arian

Cafodd swyddfeydd derbyn arian y Cyngor eu cau i'r cyhoedd eleni gydag incwm gweddilliol yn cael ei gasglu'n uniongyrchol gan wasanaethau ac incwm a dderbynnir drwy'r post yn parhau i gael ei brosesu gan y Swyddogion Derbyn Arian.

Bydd gweithredu'r lejer ariannol newydd a newidiadau i'r system gan gynnwys cyfatebu'n electronig yr incwm a dderbynnir / datganiadau banc electronig, yn arwain at newidiadau pellach i waith y Swyddogion Derbyn Arian yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

**Barn:** Cafwyd barn archwilio Werdd yn sgil yr adolygiad a gwnaed dau o argymhellion categori canolig a thri o argymhellion categori isel.

### 2.2.4 Y Gyflogres

Y system Gyflogres sy'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd yw 'Resourcelink' a ddarperir gan Northgate ac mae'n system integredig ar gyfer Adnoddau Dynol a'r Gyflogres. Mae gan y Cyngor dîm mewnol o chwech o staff sy'n gweithio ar swyddogaethau sy'n gysylltiedig â'r Gyflogres. Mae staff yn yr Adain Adnoddau Dynol hefyd yn ymwneud â'r gwaith o fwydo manylion am staff newydd i mewn i'r system integredig.

**Barn:** Cafwyd barn archwilio Werdd/Ambr yn sgil yr adolygiad a gwnaed pedwar o argymhellion categori canolig a deg o argymhellion categori isel.

### 2.2.5 Rhenti Tai

Cynhaliwyd yr adolygiad cyntaf o'r System Orchard fel rhan o'r cynllun archwilio mewnol cyfnodol a gymeradwywyd ar gyfer 2012/13. Mae Gwasanaethau Tai'r Cyngor yn rheoli 3,810 o anheddau, 766 o garejys a 93 o eiddo ar brydles ledled y Sir.

Amcangyfrifwyd bod yr incwm a gafwyd o renti yn 2012/13 yn £12.5m (ac eithrio amcangyfrif o'r cyfnodau y tybir y bydd tai yn wag a hawl i brynu yn y dyfodol) ac adroddwyd ar hynny i'r Bwrdd Comisiynwyr ym mis Chwefror 2012.

**Barn:** Cafwyd barn archwilio Goch/Ambr o ganlyniad i'r adolygiad hwn a gwnaed un argymhelliad categori uchel, chwech o argymhellion categori canolig a phedwar o argymhellion categori isel.

Mae'r farn Goch/Ambr yn adlewyrchu'r gwendidau a ganfuwyd o ran cael mynediad rhesymegol i system Orchard a'r modd y mae swyddogaethau wedi cael eu gwahanu ar hyn o bryd yn y system.

### 2.2.6 Gweithredu CIVICA

Defnyddiwyd hen system lejer y Cyngor sef FinanceLink hyd at ddiwedd mis Mawrth 2013 ynghyd â system fewnol ar gyfer dyledwyr. Sefydlwyd prosiect i amnewid y system hon gyda system CIVICA. Cynhaliwyd yr adolygiad hwn er mwyn darparu sicrwydd ar gyfer y prosiect gweithredu a throsglwyddiad data o'r hen system i'r un newydd.

**Barn:** Adolygiad ymgynghorol oedd hwn ac ni roddwyd barn. Gwnaed 14 o argymhellion a dysgwyd 7 o wersi o'r gweithredu ac adroddwyd ar hyn i'r rheolwyr.

### 2.2.7 Caffael System AD

Gofynnodd y Swyddog Adran 151 i'r Adain Archwilio Mewnol gynnal adolygiad o'r trefniadau contractyddol a chefnogaeth ar gyfer Modiwl AD Northgate. Canolbwyntiodd yr adolygiad ar ddarganfod a chofnodi'r trefniadau contractyddol a chefnogaeth ar gyfer system Adnoddau Dynol Northgate gan gynnwys Amdanaf i.

**Barn:** Adolygiad ymgynghorol oedd hwn ac ni roddwyd barn. Cytunwyd ar saith o argymhellion gyda'r rheolwyr.

### 2.2.8 Penodedigion a Dirprwyon

Canolbwyntiodd yr adolygiad ar werthuso digonolrwydd trefniadau rheoli risg a rheolaethau o fewn y trefniadau bancio cyfredol ac arfaethedig achosion Penodedigion a chyfrifon banc dirprwyol Adran y Gymuned.

**Barn:** Adolygiad ymgynghorol oedd hwn ac ni roddwyd barn. Cytunwyd ar saith o argymhellion gyda'r rheolwyr.

### 2.2.9 Fframwaith Partneriaeth

Mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth gyda nifer o sefydliadau partner i gyflawni ei amcanion strategol a lleol. Mae trefniadau partneriaeth o'r fath yn arwain yn ddichonadwy at risgiau ariannol, llywodraethol a pherfformiad. Nod ein hadolygiad oedd darganfod, cofnodi a gwerthuso trefniadau'r Cyngor i reoli, lliniaru, monitro ac adrodd ar y risgiau hyn.

Yn ein hadolygiad, gwelsom nad oedd Fframwaith Llywodraethu Partneriaeth ffurfiol yn bodoli i roi sylw i risgiau llywodraethu partneriaeth, rheoli a pherfformiad.

**Barn:** Adolygiad ymgynghorol oedd hwn ac ni roddwyd barn; fodd bynnag, ystyrir bod diffyg fframwaith partneriaeth ffurfiol yn risg sylweddol ac mae'r tri argymhelliad allweddol yr adroddiad ar gyfer gwelliant wedi cael eu derbyn gan uwch reolwyr.

**2.2.10 Archwiliad o Reolaethau Allweddol yr Ysgolion – Cyllid a Llywodraethu**

Cwblhawyd adroddiadau terfynol o waith archwilio a wnaed mewn tair ysgol yn y cyfnod. Arweiniodd yr adolygiadau at ddwy farn archwilio Werdd ac un farn Werdd/Ambr. Gwnaed argymhellion i gryfhau gwendidau mewn rheolaeth fewnol gyda'r Penaethiaid perthnasol.

2.3 **Crynodeb o Ganlyniadau'r Adroddiadau a Gyhoeddwyd hyd yma** – Ers 1 Ebrill 2013, rydym wedi cyhoeddi 8 o adroddiadau terfynol o Gynllun Gweithredu Archwilio Mewnol 2012/13; 4 o gynllun 2013/14 a 3 o adroddiadau cyfeiriadau. Hyd yma, mae cyfanswm o 12 o adroddiadau Terfynol wedi cael eu cyhoeddi yn 2013/14.

Mae crynodeb o'r graddfeydd a roddwyd ar gyfer yr adroddiadau terfynol a gyhoeddwyd i'w weld yn y tabl isod. Mae crynodeb o'r graddfeydd fel a ganlyn:

| Barn / Graddfa CAG | Beth yw ystyr y raddfa newydd | Ers y Pwyllgor Archwilio Diwethaf Yn y Cyfnod | Ebrill i Mehefin 2013 |
|---|---|---|---|
| Gwyrdd (Graddfa A&B) | Ar ôl ystyried y materion a nodwyd, gall yr Awdurdod gymryd sicrwydd rhesymol bod y rheolaethau y mae'r Cygor yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi'u dylunio'n addas ac yn cael eu defnyddio'n gyson ac effeithiol. | 5 | 5 |
| Gwyrdd Ambr (Graddfa C) | Ar ôl ystyried y materion a nodwyd, gall yr Awdurdod gymryd sicrwydd rhesymol bod y rheolaethau y mae'r Cyngor yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi'u dylunio'n addas ac yn cael eu defnyddio'n gyson ac effeithiol.<br><br>Fodd bynnag, rydym wedi canfod rhai pethau fydd, oni chânt sylw, yn ychwanegu at y tebygrwydd y bydd y risg yn troi'n ddigwyddiad. | 2 | 2 |
| Coch Ambr (Graddfa D) Yn cynnwys ychydig o gynnydd | Ar ôl ystyried y materion a nodwyd, gall yr Awdurdod gymryd rhywfaint o sicrwydd bod y rheolaethau y mae'r Cyngor yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi'u dylunio'n addas, yn cael eu defnyddio'n gyson ac effeithiol. Angen cymryd camau i reoli'r risg. | 1 | 1 |
| Coch (Graddfa E) | Ar ôl ystyried y materion a nodwyd, ni all yr Awdurdod gymryd sicrwydd bod y rheolaethau y mae'r Cyngor yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi'u dylunio'n addas nac yn cael eu defnyddio'n gyson ac effeithiol.<br><br>Rhaid cymryd camau i reoli'r risg. | 0 | 0 |
| Cynghorol / Ymchwiliad | Arolwg cynghorol wedi'i gynllunio i bwrpas rhoddi cyngor ymarfer da – Dim barn ffurfiol. | 4 | 4 |
| | **Cyfanswm** | **12** | **12** |

## 3. PERFFORMIAD YN ERBYN TARGEDAU AM Y CYFNOD 01/04/13 - 30/06/13

**3.1** Mae'r tabl isod yn dangos perfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn erbyn targedau y cytunwyd arnynt ac a nodwyd yng Nghynllun Datblygu Busnes y Gwasanaeth ar gyfer 2013/14. Adroddir ar gynnydd yn erbyn y targedau hyn hefyd i'r Cyfarfodydd Perfformio Chwarterol.

| Mesur Perfformiad | Targed 2011/12 | Gwirioneddol wedi ei addasu ar gyfer y cyfnod | Statws Targed | Cyfeiriad y Daith ers y cyfnod blaenorol |
|---|---|---|---|---|
| % o'r adolygiadau archwilio a gwblhawyd yn y flwyddyn hyd at adroddiad drafft (56 o adolygiadau yn y cynllun – 3 adroddiad drafft yn y cyfnod a 4 adroddiad terfynol – ac eithrio cyfeiriadau). | 90% | 50% | ☹ | ⬅➡ |
| Lefelau boddhad cyffredinol y cwsmer yn seiliedig ar holiaduron. | 90% | 100% | ☺ | ⬅➡ |
| % o'r holl argymhellion archwilio mewnol Uchel a Chanolig a weithredwyd o 01/04/11 | 80% | 51% | ☹ | ⬅➡ |
| Adolygu fframwaith Rheoli Risg y Cyngor a gwerthuso effeithiolrwydd y camau lliniaru o leihau'r pum risg uchaf ar y Gofrestr Risg Corfforaethol. | 1 | 0 | 😐 | ⬅➡ |
| Sesiynau hyfforddi ar gyfer y Pwyllgor Archwilio yn y cyfnod | 2 | 0 | 😐 | ⬅➡ |

**3.2** Y ganran o'r Cynllun Archwilio a gwblhawyd yw 50% ar gyfer chwarter 1 2013/14. Disgwylir hyn gan i'r chwarter gychwyn gyda chwblhau a chyflwyno 8 adroddiad Terfynol oedd yn ymwneud â'r flwyddyn ariannol flaenorol a heb eu cynnwys yn y ffigwr targed canran yma.

Mae'r adroddiad ar gynnydd yn erbyn y cynllun hefyd yn adlewyrchu nifer y gwaith cyfeiriadau sy'n cymryd lle yn chwarter 1.

**3.3** Mae canran yr argymhellion categori Uchel a Chanolig a weithredwyd yn is na'r targed ar 51% sy'n cymharu gyda'r 68% a adroddwyd i'r Pwyllgor diwethaf.

**3.4** Mae Archwilio Mewnol wedi adolygu'r llinellau adrodd ar gyfer gweithredu'r argymhellion a bydd yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Gwaith nesaf ar ganlyniadau'r gwaith yma. Y bwriad yw codi proffil gweithredu argymhellion ymysg yr uwch reolwyr ac, felly, gwella'r graddfeydd gweithredu.

## 4. CYFEIRIADAU

**4.1** Yn ystod y flwyddyn, mae'r Adain Archwilio Mewnol yn gorfod gwneud gwaith ar faterion sy'n dod i'r fei yn ystod gwaith archwilio rhaglenedig neu oherwydd materion a ddygir i sylw'r Adain gan Adrannau eraill a gwaith hefyd y mae adrannau eraill yn gofyn i'r Adain Archwilio Mewnol ei wneud. Hefyd, mae'n bosib y bydd yr Archwiliwr Allanol yn gofyn iddynt am wybodaeth neu am gymorth i ddarparu gwybodaeth. Yn sgil rhai o'r ymchwiliadau hyn, cyhoeddir adroddiadau archwilio ffurfiol ond weithiau ni chyhoeddir adroddiad o'r fath (e.e. pan fo'r haeriad/gwybodaeth yn anghywir ac, o'r herwydd, does dim byd i'w adrodd yn ôl, neu pan nad yw swm a sylwedd y gwaith yn ddigon i

gyfiawnhau adroddiad archwilio llawn neu pan fo'r mater wedi cael sylw mewn adroddiad gan yr Archwiliwr Allanol).

**4.2** Mae 3 o adroddiadau mewn perthynas â chyfeiriadau wedi cael eu cyhoeddi hyd yma yn 2013/14. Nid yw'r gwaith ar y cyfeiriadau yma wedi nodi unrhyw dystiolaeth o dwyll neu afreoleidd-dra.

**4.3** Cyfeiriwyd 1 cyfeiriad o 2012/13 i'r Heddlu, ac fe adroddir ar ganlyniad yr achos i'r Pwyllgor maes o law.

## 5. TRACIO ARGYMHELLION

**5.1** Ar gyfer adrodd i'r Pwyllgor hwn, dim ond argymhellion wnaed ers 01/04/11 sydd wedi eu cynnwys yn y dadansoddiad tracio argymhellion.


**5.2** Mae perfformiad gweithredu argymhellion yn y cyfnod yn is na'r targed gyda 51% o argymhellion Uchel a Chanolig wedi eu cofnodi fel rhai y gweithredwyd arnynt. Cyfeiriwyd, ym mharagraff 3.4 o'r adroddiad yma, at adolygiad o'r prosesau'n ymwneud â thracio argymhellion.

**5.3** Mae graff yn dangos manylion yr argymhellion y gweithredwyd arnynt fesul Gwasanaeth ynghlwm yn Atodiad A.

**JOHN FIDOE**
**RHEOLWR ARCHWILIO** **12 GORFFENNAF 2013**

**Tabl Tracio Argymhellion - yr Holl Argymhellion sydd wedi cael eu creu ers 01/04/2011**

**Tabl Cynnydd:** % Argymhellion Uchel a Chanolig a weithredwyd/na weithredwyd fesul Gwasanaeth lle gwnaed mwy na 10 o Argymhellion.




Yn ein barn ni, felly, yn seiliedig ar y data hunanasesu yn y Tabl Cynnydd uchod, mae'r Cyngor wedi gwneud **'cynnydd rhesymol'** yn ystod y cyfnod o ran gweithredu'r argymhellion Archwilio Mewnol a oedd yn y categorïau Uchel a Chanolig. Mae hyn yn seiliedig ar y ganran o argymhellion (ac eithrio'r rheiny sydd heb gyrraedd eto'r dyddiad gweithredu y cytunwyd arno) y mae eu statws hunanasesu yn 'gweithredwyd' neu 'disodlwyd', sef **51%** o'r holl argymhellion o'r fath ar ddiwedd y cyfnod.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i** | **Pwyllgor Archwilio** |
| **Dyddiad** | **23 Gorffennaf 2013** |
| **Pwnc** | **Adroddiad Blynyddol ar Reoli Trysorlys am y Flwyddyn Ariannol 2012/13** |
| **Deilydd(ion) Portffolio** | **Cynghorydd H E Jones** |
| **Swyddog(ion) Arweiniol** | **Clare J Williams** |
| **Swyddog Cyswllt** | **Clare J Williams (Est. 2601)** |
| **Natur a rheswm am adrodd**<br>Cydymffurfio a'r rheoliadau a gyflwynwyd dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003.<br><br>Mae'r adroddiad yma i'w gyflwyno i'r Cyngor ar y cyfle nesaf posib. Mae'r Cyngor wedi penderfynu y dylai'r Pwyllgor Archwilio hefyd ystyried yr adroddiad. | |

**Crynodeb**

Mae'n rhaid i'r Cyngor hwn trwy reoliadau o dan ddeddf Llywodraeth Leol 2003 gynhyrchu adroddiad blynyddol y Trysorlys yn adlewyrchu gweithgareddau Rheoli Trysorlys ar ddangosyddion pwyllog a thrysorlys gwirioneddol am 2012/13. Mae'r adroddiad hwn yn bodloni gofynion côd ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys (y Côd) a Chôd Pwyllog CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol (Y Côd Pwyllog).

Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys benthyca a pherfformiad buddsoddi yn ystod y flwyddyn.

O dan y Côd Pwyllog, mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol osod dangosyddion pwyllog ar gyfer benthyca a buddsoddi ymysg ffactorau eraill ymhob blwyddyn. Fe gadarnhaodd y Cyngor ei gyfyngiadau am 2012/13 ar 5 Mawrth 2012 ac mae gwybodaeth am ganlyniadau wedi ei ddarparu.

Yn ystod 2012/13 y gofynion lleiaf ynglŷn ag adrodd yn ôl oedd bod y Cyngor llawn yn derbyn yr adroddiadau canlynol :-

- Strategaeth flynyddol y trysorlys o flaen y flwyddyn
- Adroddiadau diweddaru canol y flwyddyn (o leiaf) ar y trysorlys
- Adroddiad blynyddol ar ôl y flwyddyn ac yn disgrifio'r gweithgaredd o'i gymharu â'r strategaeth (yr adroddiad hwn).

Mae'r amgylchedd rheoleiddol yn rhoi'r cyfrifoldeb i Aelodau i adolygu a sgriwtineiddio polisi a gweithgareddau rheoli trysorlys. O'r herwydd, mae'r adroddiad yma'n bwysig gan ei fod yn darparu manylion am y sefyllfa alldro ar gyfer gweithgareddau trysorlys ac mae'n tynnu sylw at cydymffurfiaeth â pholisïau'r Cyngor a gymeradwywyd yn flaenorol.

Mae'r Cyngor hwn hefyd yn cadarnhau ei fod wedi cydymffurfio gyda'r gofynion o dan y Côd i'r Pwyllgor Archwilio sgriwtineiddio'r holl adroddiadau rheoli trysorlys uchod cyn eu cyflwyno i'r Cyngor llawn.

Cafwyd hyfforddiant i aelodau ar faterion rheoli trysorlys yn ystod mis Hydref 2012 er mwyn cefnogi rôl sgriwtini aelodau'r Pwyllgor Archwilio.

Yn ystod 2012/13, cydymffurfiodd y Cyngor â'r anghenion deddfwriaethol a rheoleiddiol. Mae'r dangosyddion pwyllog a thrysorlys gwirioneddol allweddol sy'n manylu ar effaith gweithgareddau cyfalaf yn ystod y flwyddyn gyda chymaryddion, fel a ganlyn:-

| Dangosyddion pwyllog a thrysorlys gwirioneddol | 2011/12 Gwirioneddol £000 | 2012/13 Gwreiddiol £000 | 2012/13 Gwirioneddol £000 |
|---|---|---|---|
| Gwariant Cyfalaf Gwirioneddol | 21,619 | 27,800 | 25,428 |
| Cyfanswm gofynion ariannu Cyfalaf: | | | |
| • Dim-CRT | 78,849 | 85,300 | 81,347 |
| • CRT | 21,811 | 28,400 | 25,062 |
| • Cyfanswm | 100,660 | 113,700 | 106,409 |
| Dyled Allanol | 96,103 | 113,717 | 96,097 |
| Buddsoddiadau * | | | |
| • Mwy na blwyddyn | - | - | - |
| • O dan flwyddyn | 16,152 | 25,932 | 13,468 |
| • Cyfanswm | 16,152 | 25,932 | 13,468 |

**amcangyfrifon a gwirioneddol, nid dangosydd pwyllog*

Gellir gweld dangosyddion pwyllog a thrysorlys eraill ym mhrif gorff yr adroddiad hwn. Mae'r Swyddog Adran 151 hefyd yn cadarnhau y benthycwyd arian i bwrpas cyfalaf yn unig ac na chafodd y terfynau benthyca statudol (y terfyn awdurdodedig), eu torri.

Gwelwyd yr un amgylchedd heriol yn ystod blwyddyn ariannol 2012/13 â'r blynyddoedd cynt, sef dychweliadau isel ar fuddsoddiadau a risg gwrthbarti yn parhau.

**Argymhellion**

Argymhellir bod y Pwyllgor:-

**(i)** Yn nodi'r dangosyddion pwyllog a thrysorlys gwirioneddol am 2012/13 yn yr adroddiad hwn.

**(ii)** Yn ystyried yr adroddiad rheoli trysorlys blynyddol am 2012/13 a'i gyflwyno ymlaen i'r Cyngor Sir gyda unrhyw sylwadau.

**Atodiadau:**

Atodiad 1 - Crynodeb o Werth y Portffolio
Atodiad 2 - Graddfeydd Credyd Gwrthbartïon Buddsoddi, fel ar 31 Mawrth, 2013
Atodiad 3 - Graddfeydd Credyd Cyfatebol
Atodiad 4 - Yr Economi a Graddfeydd Llog – Sylwebaeth gan Sector

**Papurau Cefndirol:**

Strategaeth Rheoli Trysorlys 2012/13
Dangosyddion Pwyllog 2012/13

## 1. CYFLWYNIAD

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys ac yn crynhoi'r swyddogaethau/gweithgareddau/ canlyniadau canlynol ym mlwyddyn ariannol 2011/12:-

- Gweithgaredd Cyfalaf yn ystod y flwyddyn;
- Effaith y gweithgaredd hwn ar ddyled waelodol y Cyngor (y Gofyniad Cyllido Cyfalaf);
- Adrodd yn ôl am y dangosyddion pwyllog a thrysorlys sydd eu hangen;
- Sefyllfa gyffredinol y trysorlys gan nodi sut y mae'r Cyngor wedi benthyca mewn perthynas â'r ddyled hon a'r effaith ar falansau buddsoddi;
- Crynodeb o symudiadau'r gyfradd log am y flwyddyn;
- Gweithgareddau manwl o ran dyledion; a
- Gweithgareddau buddsoddi manwl.

## 2. GWARIANT AC ARIANNU CYFALAF Y CYNGOR 2012/13

**2.1** Mae'r Cyngor yn ymgymryd â gwariant cyfalaf ar asedau tymor hir. Fe all y gweithgareddau hyn fod naill ai:-

- Wedi eu cyllido ar unwaith trwy ddefnyddio adnoddau cyfalaf neu refeniw (derbyniadau cyfalaf, grantiau cyfalaf, cyfraniadau refeniw ac ati) nad ydynt yn cael effaith ar angen y Cyngor i fenthyca; neu
- Wedi eu cyllido trwy fenthyca: gallai hynny fod trwy fenthyca wedi ei gynllunio neu fel arall. Os nad oes digon o gyllid ar gael, neu os gwneir penderfyniad i beidio defnyddio adnoddau, bydd y gwariant cyfalaf yn creu'r angen i fenthyca.

**2.2** Mae'r gwariant cyfalaf gwirioneddol yn ffurfio un o'r dangosyddion pwyllog sydd eu hangen. Mae'r tabl isod yn dangos gwariant cyfalaf gwirioneddol a sut y cafodd ei ariannu.

**<u>GWEITHGAREDD CYFALAF</u>**

| | 2011/12 Gwirioneddol (£m) | 2012/13 Amcangyfrif (£m) | 2012/13 Gwirioneddol (£m) |
|---|---|---|---|
| Gwariant Cyfalaf heb fod yn CRT | 13 | 18 | 17 |
| Gwariant Cyfalaf CRT | 9 | 10 | 9 |
| **Cyfanswm Gwariant Cyfalaf** | **22** | **28** | **26** |
| Cyllidwyd trwy: | | | |
| • Derbyniadau Cyfalaf | 1 | 1 | 1 |
| • Grantiau Cyfalaf | 10 | 11 | 12 |
| • Refeniw | 3 | 2 | 3 |
| **Gwariant Cyfalaf heb ei ariannu** | **8** | **14** | **10** |

## 3. ANGEN CYFFREDINOL Y CYNGOR I FENTHYCA

**3.1** Mae angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca ar gyfer gwariant cyfalaf yn cael ei alw yn Ofyniad Ariannu Cyfalaf (CFR). Mae'r ffigwr hwn yn fesur o sefyllfa'r Cyngor o ran dyledion. Mae'r CFR yn deillio o weithgaredd cyfalaf y Cyngor a pha adnoddau a ddefnyddiwyd i dalu am y gwariant cyfalaf. Mae'n cynrychioli gwariant cyfalaf 2012/13 a oedd heb ei ariannu (gweler y tabl uchod), a gwariant cyfalaf nas ariannwyd neu wariant net o flynyddoedd blaenorol nad ydynt eto wedi cael eu talu trwy refeniw neu adnoddau eraill.

**3.2** Rhan o weithgareddau trysorlys y Cyngor yw mynd i'r afael â'r gofynion cyllido o ran yr angen hwn i fenthyca. Gan ddibynnu ar y rhaglen gwariant cyfalaf, mae gwasanaeth y trysorlys yn trefnu sefyllfa ariannol y Cyngor er mwyn sicrhau bod digon o arian ar gael i gyfarfod â'r cynlluniau cyfalaf a'r gofynion mewn perthynas â llif arian. Gellir cael yr arian hwn trwy fenthyca gan gyrff allanol (fel y Llywodraeth, trwy'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) neu'r marchnadoedd arian), neu trwy ddefnyddio adnoddau arian dros dro o fewn y Cyngor.

**3.3 Gostwng y CFR**

**3.3.1** Ni chaniateir i anghenion benthyca'r Cyngor (CFR) godi am byth. Mae yna reoliadau statudol yn eu lle i sicrhau bod asedau cyfalaf yn gyffredinol yn cael eu codi ar refeniw dros fywyd yr ased. Mae'n rhaid i'r Cyngor godi tâl refeniw blynyddol a elwir yn isafswm darpariaeth refeniw - MRP er mwyn gostwng y CFR. I bob pwrpas, ad-daliad yw hwn o'r angen i fenthyca. Mae hyn yn wahanol i'r trefniadau rheoli trysorlys sy'n sicrhau bod arian ar gael i gwrdd ag ymrwymiadau cyfalaf. Yn ogystal, gellir benthyca dyled allanol neu ei thalu'n ôl ar unrhyw adeg, ond nid yw hyn yn newid y CFR.

**3.3.2** Gellir gostwng cyfanswm y CFR hefyd drwy:-

- ddefnyddio adnoddau cyllido cyfalaf ychwanegol (megis derbyniadau cyfalaf sydd heb eu defnyddio); neu
- godi mwy na'r tâl refeniw statudol (MRP) ym mhob blwyddyn trwy Ddarpariaeth Refeniw Wirfoddol (VRP).

**3.3.3** Cafodd Polisi MRP 2012/13 y Cyngor (fel sy'n ofynnol dan gyfarwyddyd LLCC) ei gymeradwyo fel rhan o adroddiad strategaeth rheoli trysorlys 2012/13 ar 5 Mawrth 2012.

**3.3.4** Dangosir isod CFR y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ac mae'n cynrychioli dangosydd pwyllog allweddol. Mae hyn yn cynnwys unrhyw PFI a chynlluniau prydlesu ar y fantolen a fyddai'n cynyddu anghenion benthyca'r Cyngor, y CFR. Nid oedd cynlluniau o'r fath yn ystod y flwyddyn.

| CFR Cronfa'r Cyngor | 2011/2012 Gwirioneddol (£m) | 2012/2013 Cyllideb (£m) | 2012/2013 Gwirioneddol (£m) |
|---|---|---|---|
| Balans agoriadol | 79 | 80 | 79 |
| Ychwanegu gwariant cyfalaf heb ei gyllido (fel uchod) | 4 | 8 | 6 |
| Llai MRP/VRP* | (4) | (3) | (4) |
| Balans Cau | 79 | 85 | 81 |

| CFR CRT | 2011/2012 Gwirioneddol (£m) | 2012/2013 Cyllideb (£m) | 2012/2013 Gwirioneddol (£m) |
|---|---|---|---|
| Balans agoriadol | 19 | 24 | 22 |
| Ychwanegu gwariant cyfalaf heb ei gyllido (fel uchod) | 4 | 6 | 4 |
| Llai MRP/VRP* | (1) | (2) | (1) |
| Balans Cau | 22 | 28 | 25 |

**Yn cynnwys defnydd gwirfoddol o dderbyniadau cyfalaf*

**3.3.5** Mae'r gweithgaredd benthyca yn cael ei gyfyngu gan ddangosyddion pwyllog ar gyfer benthyca net a'r CFR, a chan y trothwy a awdurdodwyd.

**3.4 Benthyca net a'r CFR -** er mwyn sicrhau bod lefelau benthyca yn bwyllog dros y tymor canolog rhaid i fenthyca allanol y Cyngor, net o fuddsoddiadau, fod i bwrpas cyfalaf yn unig. I bob pwrpas, golyga hyd nad yw'r Cyngor yn benthyca i gefnogi gwariant refeniw. Ni ddylai benthyca net, ac eithrio yn y tymor byr, fod yn uwch na'r CFR am 2012/13 yn ogystal â'r newidiadau a ddisgwylir i'r CFR dros 2013/14 a 2014/15. Mae'r dangosydd hwn yn caniatáu peth hyblygrwydd i'r Cyngor fenthyca ymlaen llaw i'w anghenion cyfalaf yn 2012/13. Mae'r tabl isod yn nodi sefyllfa fenthyca net y Cyngor yn erbyn y CFR. Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio gyda'r dangosydd pwyllog hwn.

**3.4.1** Dylid nodi fod y dangosydd yma'n newid i gymharu benthyca gros i'r CFR gydag effaith o 2013/14; disgwylir i hyn ddarparu dangosydd mwy priodol.

| | 31 Mawrth 2012 Gwirioneddol (£m) | 31 Mawrth 2013 Gwreiddiol (£m) | 31 Mawrth 2013 Gwirioneddol (£m) |
|---|---|---|---|
| Sefyllfa Benthyca Gros | 96.1 | 113.7 | 96.1 |
| Sefyllfa benthyca Net | 79.9 | 87.8 | 82.6 |
| CFR | 100.7 | 113.7 | 106.4 |

**3.4.2** Fel rhan o'r broses o gyllido gwariant cyfalaf ar gyfer 2012/13, defnyddiwyd benthyciadau i gyllido'r bwlch rhwng yr adnoddau a oedd ar gael (derbyniadau cyfalaf, grantiau cyfalaf, cyfraniadau cyfalaf a chyfraniadau refeniw) llai arian wrth gefn a'r gwariant cyfalaf. Yn ychwanegol at hyn, oherwydd y cyfraddau BBGC sydd ar gael a chyfraddau'r farchnad ar gyfer buddsoddiadau, penderfynwyd, yn y tymor byr o leiaf, i barhau i fewnoli benthyciadau er mwyn sicrhau'r incwm net uchaf posib ac i finimeiddio risg gwrthbarti. Mabwysiadwyd yr un strategaeth ar gyfer 2011/12 pan ddaru'r CFR newid o fod 4.9m yn is na'r benthyca allanol (31 Mawrth 2011) i fod £4.6 yn uwch na'r benthyca allanol. O ganlyniad i barhau â'r Strategaeth yma, cynyddodd y bwlch rhwng CFR a benthyca allanol yn ystod 2012/13 o £10.3m. Mae'r benthyca net cyfredol yn llai na'r rhagweliad CFR am y 2 flynedd dilynol.

**3.5** Y dangosyddion eraill yn ymwneud â dyled yw:

**3.5.1** **Y trothwy awdurdodedig** - y trothwy awdurdodedig yw'r "cyfyngiad benthyca fforddiadwy" sy'n angenrheidiol yn unol ag adran 3 Deddf Llywodraeth Leol 2003. Nid oes gan y Cyngor rym i fenthyca uwchlaw'r lefel hon. Mae'r tabl isod yn dangos bod y Cyngor wedi llwyddo i gadw o fewn y trothwy awdurdodedig o ran benthyciadau gros yn ystod 2012/13.

**3.5.2** **Y terfyn gweithredol** - y terfyn gweithredol yw'r sefyllfa fenthyca a ddisgwylir ar gyfer y Cyngor yn ystod y flwyddyn. Mae cyfnodau lle mae'r sefyllfa wirioneddol naill ai yn is neu'n uwch na'r terfyn yn dderbyniol ar yr amod nad yw'n mynd dros y trothwy awdurdodedig.

**3.5.3** **Costau ariannu gwirioneddol fel cyfran o'r ffrwd refeniw net** - mae'r dangosydd hwn yn nodi'r patrwm o ran cost cyfalaf (benthyca a chostau ymrwymiadau tymor hir arall llai incwm buddsoddi) yn erbyn y ffrwd refeniw net.

| | 2012/13 |
|---|---|
| Cyfyngiad awdurdodedig | £123.0m |
| Sefyllfa o ran uchafswm benthyciadau gros | £96.1m |
| Terfyn Gweithredol | £118.0m |
| Sefyllfa benthyca gros ar gyfartaledd | £96.1m |
| Costau ariannu fel cyfran o ffrwd refeniw net - CF | 5.99% |
| Costau ariannu fel cyfran o ffrwd refeniw net – CRT | 16.19% |

Ar y fantolen, byddai prydlesu hefyd yn cyfrif yn erbyn y terfynau awdurdodedig. Awdurdodwyd ail set o derfynau, yn rhoi sgôp am £2m o brydlesu. Nid oedd gofyn am hyn yn y flwyddyn.

## 4. SEFYLLFA TRYSORLYS AR 31 MAWRTH 2013

**4.1** Roedd ffigyrau buddsoddi a benthyca'r Cyngor ar ddiwedd blynyddoedd ariannol 2012/13 a 2011/12 fel a ganlyn:-

| | 31 MAWRTH 2012 | | | 31 MAWRTH 2013 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | Graddfa Cyfartalog (%) | Aeddfedr-wydd Cyfartalog (bl) | £000 | Graddfa Cyfartalog (%) | Aeddfedr-wydd Cyfartalog (bl) |
| Dyled: Holl Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (holl graddfeydd sefydlog) | 96,102 | 5.53 | 26.5 | 96,096 | 5.53 | 26.5 |
| Buddsoddiadau (y cyfan < I flwyddyn a reolir yn fewnol ac ar gyfradd sefydlog | 5,000 | 1.32 | | 10,000 | 1.63 | |
| Adneuon (yr holl dim rhybudd ac a reolir yn fewnol) | 11,151 | 0.77 | | 3,468 | 0.79 | |
| Sefyllfa Net | 79,951 | | | 82,628 | | |

Mae'r rhain yn cael eu dangos ym mantolen y Cyngor fel "gwerth teg": gweler dadansoddiad manylach yn Atodiad 1.

**4.2** Dadansoddir benthyca ymhellach drwy gyfnodau aeddfedu:-

| | 31 MAWRTH 2012 | | 31 MAWRTH 2013 | | Cyfyngiadau | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £m | % o'r cyfanswm | £m | % o'r cyfanswm | % o'r cyfanswm (Uchel) | % o'r cyfanswm (Isaf) |
| Cyfanswm benthyciadau | 96.1 | 100 | 96.1 | 100 | | |
| Llai na 12 mis | 0.0 | 0 | 6.5 | 7 | 20% | 0% |
| 12 mis ac o fewn 24 mis | 6.5 | 7 | 0.0 | 0 | 20% | 0% |
| 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | 0.0 | 0 | 5.5 | 6 | 50% | 0% |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 20.1 | 21 | 16.8 | 17 | 75% | 0% |
| 10 mlynedd a mwy | 65.5 | 72 | 67.2 | 70% | 100% | 0% |

**4.3** Parhaodd y raddfa benthyca gyfartalog o'r portffolio benthyca yn gyson yn ystod y flwyddyn gan nad oedd benthyciad yn aeddfedu, ni aildrefnwyd unrhyw ddyled a ni cymerwyd unrhyw fenthyciad newydd. Ni aildrefnwyd unrhyw ddyled yn ystod y flwyddyn gan ei fod yn anhyfyw oherwydd y 1% gwahaniaethol cyfartalog rhwng graddfeydd benthyca newydd PWLB a graddfeydd ad-dalu'n fuan.

**4.4** Mae rhan o adneuon y Cyngor yn cael eu dal mewn cyfrifon adneuon dim rhybudd sy'n talu llog ar raddfeydd sy'n agos ar y gyfradd sylfaenol bresennol (£3.5m ar 0.79% (31 Mawrth 2012: £11.2m ar 0.77%). O'r adneuon sy'n weddill, roedd £10m yn cael eu dal am gyfnodau o lai na blwyddyn ar gyfradd gyfartalog o 1.63% (31 Mawrth 2012: £5m ar 1.32%).

## 5. STRATEGAETH TRYSORLYS AM 2012/13

**5.1** Roedd ein strategaeth trysorlys ar gyfer 2012/13 a fabwysiadwyd ar 5 Mawrth 2012, yn seiliedig ar y disgwyliad y byddai cyfraddau buddsoddi, yn y tymor canol yn is na chyfraddau benthyca tymor hir ac felly, o ran cael gwerth gorau, gellid gwneud hynny trwy ohirio benthyca allanol newydd a benthyca'n fewnol. Yn ychwanegol, mabwysiadwyd y strategaeth yma i finimeiddio risgiau gwrthbartïon. Roedd rhaid bod yn ofalus gyda'r strategaeth hon, a monitor cyfraddau llog y farchnad yn rheolaidd a chymryd agwedd ymarferol o ran amgylchiadau newidiol i sicrhau nad oedd unrhyw gostau tymor hir yn gorbwyso unrhyw enillion tymor byr yn sgil peidio ag allanoli.

**5.2** Roedd y sefyllfa economaidd fel y cafodd ei hamlinellu yn Atodiad 4 a graddfeydd PWLB fel y cant eu dangos yn Atodiad 4. Roedd y cyfraddau hyn yn ffafrio'r strategaeth fewnoli ac o'r herwydd ni ailraglennwyd unrhyw ddyledion (ni aeddfedodd unrhyw ddyled yn y flwyddyn).

## 6. BUDDSODDI

**6.1** Parhaodd y sail ar raddfa hanesyddol isel o 0.5% drwy gydol y flwyddyn; bellach mae wedi aros yr un fath ers pedair mlynedd. Yn ystod y flwyddyn, gwthwyd yn ôl disgwyliadau'r farchnad am gychwyn y tynhau ariannol hyd at gychwyn 2015 ar y gynhara. Arweiniodd y Cynllun Cyllido i Fenthyca tuag at cwymp sydyn yng ngraddfeydd adneuon yn ail hanner y flwyddyn.

**6.2** Ar ben y dychweliadau buddsoddi cymharol isel oedd y pryderon parhaus ynghylch gwrthbartïon, yn amlycaf oedd argyfwng dyled sofran ardal yr Ewro, a oedd yn bryder drwy gydol y flwyddyn.

**6.3** Y strategaeth fuddsoddi ddisgwyliedig oedd cadw at adneuon tymor byrrach (hyd at 364 diwrnod) er cadwyd y gallu i fuddsoddi hyd at gyfnodau hwy (er ni defnyddwyd). Disgwyliais i falansau arian parod o £40m fod ar gael ac yn amrywio rhwng £25m a £45m. Gosodwyd y gyllideb ar 0.83% neu £332k ar ôl addasu ar gyfer graddfeydd uwch ar fuddsoddiadau presennol. Fel y mae'n digwydd, cafwyd dychweliad o £249k (1.03%) ar falansau a oedd ar gyfartaledd, yn £24.0m. Canlyniad o barhau i fewnoli benthyca oedd cyfartaledd balans arian parod is na'r gyllideb. Roedd y dychweliad uwch na chyllidebwyd i'w liniaru i raddfeydd gwell na'r disgwyl ar fuddsoddiadau tymor sefydlog.

**6.4** Nid yw perfformaid y buddsoddiad yn erbyn y feincnod wedi ei fesur eto, gyda'r dychweliad i'w gyflwyno erbyn Gorffennaf yma. Byddwn yn ardodd ar y materion neilltuol yn hwyrach yn y flwyddyn.

## 7. DIOGELWCH AC ANSAWDD CREDYD

**7.1** Ni chafodd unrhyw un o'r sefydliadau yr oedd gennym fuddsoddiadau ynddynt unrhyw anhawster i ad-dalu buddsoddiadau a llog ar amser ac yn llawn yn ystod y flwyddyn.

**7.2** Yn ystod 2012/13, parhaodd graddfeydd credyd i fod yn wael ar draws amrediad o'n gwrthbartïon arferol, gan gynnwys y cymdeithasau adeiladu. Ers diwedd 2008, bu'n gynyddol anodd adneuo gyda gwrthbartïon priodol. Ym mis Rhagfyr 2008, cafwyd ganiatâd gan y Cyngor i ymestyn yr hyblygrwydd gyda gwrthbartïon i ddelio gyda newidiadau yn y farchnad; roedd hyn yn cynnwys y gallu i fuddsoddi'r cyfan o'n gwarged gyda'r llywodraeth ganolog os bydd angen. Lledaenwyd y rhestr ymhellach yn Ebrill 2010 i gynnwys sefydliadau gwladol a sefydliadau rhannol wladol (ac ym Mawrth 2012, cafodd y rhestr hon ei chymeradwyo, heb unrhyw newidiadau ar gyfer 2012/13). Roedd penderfyniadau blaenorol wedi ymestyn hyblygrwydd i fuddsoddi gydag awdurdodau lleol. Oherwydd ein bod wedi mabwysiadu dull o wrando ar gyngor arbenigwyr, ac oherwydd ein bod wedi cymryd i ystyriaeth dueddiadau'r farchnad ac wedi bod yn wyliadwrus, roedd modd i ni wella ansawdd credyd o fewn rhestrau gwrthbartïon cyfredol.

**7.3** Effaith ymarferol y polisïau hyn oedd fel a ganlyn: Yn ystod y flwyddyn parhawyd i ddefnyddio cyfrifon dim rhybudd gyda sefydliadau blaenllaw ar y stryd fawr (Santander, HSBC a Bank of Scotland) ar gyfer llif arian o ddydd i ddydd.

**7.4** Yn ystod y flwyddyn, aeddfedodd yr unig buddsoddiad tymor sefydlog oedd gennym ar gychwyn y flwyddyn (Royal Bank of Scotland (RBS), £5.0m). Ail-fuddsoddwyd gyda'r RBS, pan aeddfedodd, am 6 mis pellach ar raddfa o 1.16%. Ar yr un dyddiad, buddsoddwyd £5m pellach gyda'r un sefydliad am 364 diwrnod, ar raddfa o 1.68%. Aeddfedodd y buddsoddiad 1.16% yn ystod y flwyddyn ac fe'i ailfuddsoddwyd am 6 mis pellach ar raddfa o 1.58%. Yn bennaf, gwnaed y penderfyniad i fuddsoddi hefo RBS oherwydd eu bod yn un o'r ychydig sefydliadau teilwng o gredyd o ystyried eu cefnogaeth gan llywodraeth y DU. Ni wnaed unrhyw fuddsoddiadau arall yn ystod y flwyddyn

**7.5** Yn ystod 2011/12, israddiwyd statws credyd Santander UK gan ddod â'r sefydliad islaw'r trothwy yn y rhestr benthyca cymeradwyedig. Parhawyd i wneud adneuon gyda Santander yn ystod 2012/13 a oedd yn gyson â'r penderfyniad a wnaed gan y Cyngor Sir ym Mawrth 2012 ac a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio. Gwnaed y penderfyniad yma yng ngoleuni ystyriaethau ehangach o gyflwr y farchnad ac o ystyried barn ymgynghorwyr trysorlyr apwyntiedig yr Awdurdod (Sector Treasury Services). Y sefyllfa cyfredol yw fod graddfeydd tymor byr ar gyfer dau allan o'r tri asiantaeth wedi disgyn i un category yn is na'r lefel arferol ar y rhestr cymeradwyedig. Parheir y graddfeydd tymor hir i fod yn is na'r lefel o'r rhestr cymeradwyedig. Fodd bynnag, yn unol â'r cyngor cyfredol ac ystyriaethau ehangach y farchnad, mae Santander yn parhau i gael ei ddefnyddio ar gyfer adneuon, ar sail galw yn unig.

**CLARE WILLIAMS**
**PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU)**
**SWYDDOG ADRAN 151** **10 GORFFENNAF 2013**

**Atodiad 1**

**Crynodeb Gwerth Portffolio**
**Fel ar 31 Mawrth 2013**

| **ASEDAU ARIANNOL** | **Nominal / Prifswm (£)** | **Gwerth Teg (£)** |
|---|---|---|
| Arian parod (cyfrifon dwyn llog) (1) | 3,468,455 | 3,541,166 |
| Adneuon Tymor Sefydlog (2) | 10,000,000 | 10,141,947 |
| **RHWYMEDIGAETHAU ARIANNOL** | | |
| Benthyciad PWLB - Aeddfedrwydd | 95,815,764 | 122,953,603 |
| Benthyciad PWLB – Blwydd-dal | 280,875 | 470,130 |



**Gwrthbartïon**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **(1)** | Arian parod (Cyfrifon dwyn llog) | | |
| | | Santander | 3,418,352 |
| | | Bank of Scotland | 103 |
| | | HSBC | 50,000 |
| | | | 3,468,455 |
| **(2)** | Adneuon Tymor Sefydlog | | |
| | | Royal Bank of Scotland | 10,000,000 |

**Atodiad 2**

## Graddfeydd Credyd Gwrthbartïon Buddsoddi ar 31 Mawrth 2013

| Sefydliad | Fitch Graddfa Tymor Hir | Fitch Graddfa Tymor Byr | Moody's Graddfa Tymor Hir | Moody's Graddfa Tymor Byr | (S&P) Graddfa Tymor Hir | (S&P) Graddfa Tymor Byr | Lliw Sector | Hyd Awgrymiedig Sector |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Santander Bank Plc | **A** | **F1** | **A2** | **P-1** | **A** | **A-1** | **Gwyrdd** | **3 mis** |
| Bank of Scotland Plc | **A** | **F1** | **A2** | **P-1** | **A** | **A-1** | **Glas** | **12 mis** |
| HSBC Plc | **AA-** | **F1+** | **Aa3** | **P-1** | **AA-** | **A-1+** | **Oren** | **12 mis** |
| The Royal Bank of Scotland Plc | **A** | **F1** | **A3** | **P-2** | **A** | **A-1** | **Glas** | **12 mis** |

- Gellir gweld o'r uchod fod y Bank of Scotland a'r Royal Bank of Scotland wedi cael côd lliw glas gan Sector gan eu bod yn rhannol wladol drwy gydol 2012/13. Golyga hyn eu bod yn gymwys i gael hyd at £10m wedi ei fuddsoddi, hyd at 364 diwrnod, dan y rhestr benthyca cymeradwyedig (drwy graddfa credyd), Adran 4.1 – Si (aiii). Ceir y Rhestr Benthyca yn Atodiad 6 o'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2012/13 / Strategaeth Buddsoddi Blynyddol.

- Yn ogystal, gellir gweld fod HSBC wedi cwrdd â'r criteria credyd ar gyfer buddsoddi drwy gydol y flwyddyn.

- Yr unig sefydliad i beidio cwrdd â'r criteria credyd oedd Santander. Trafodwyd hyn yn Rhan 7.5.

- Yn Atodiad 3 ceir y graddfeydd credyd cyfatebol ar gyfer y 3 asiantaeth credydu y cyfeirwyd atynt uchod.

**Atodiad 3**

## Graddfeydd Credyd Cyfatebol (Fitch, Moodys, S&P)

| Fitch Tymor Hir | Moodys Tymor Hir | S&P Tymor Hir |
|---|---|---|
| AAA | Aaa | AAA |
| AA+ | Aa1 | AA+ |
| AA | Aa2 | AA |
| AA- | Aa3 | AA- |
| A+ | A1 | A+ |
| A | A2 | A |
| A- | A3 | A- |
| BBB+ | Baa1 | BBB+ |
| BBB | Baa2 | BBB |
| BBB- | Baa3 | BBB- |
| **Fitch Tymor Byr** | **Moodys Tymor Byr** | **S&P Tymor Byr** |
| F1+ | n/a | A-1+ |
| F1 | P-1 | A-1 |
| F2 | P-2 | A-2 |
| F3 | P-3 | A-3 |

## THE ECONOMY AND INTEREST RATES

The EU sovereign debt crisis was an ongoing saga during the year. However, the ECB statement in July that it would do "whatever it takes" to support struggling Eurozone countries provided a major boost in confidence that the Eurozone was (at last) beginning to get on top of its problems. This was followed by the establishment of the Outright Monetary Transactions Scheme in September. During the summer, a €100bn package of support was given to Spanish banks. The crisis over Greece blew up again as it became apparent that the first bailout package was insufficient. An eventual very protracted agreement of a second bailout for Greece in December was then followed by a second major crisis, this time over Cyprus, towards the end of the year. In addition, the Italian general election in February resulted in the new Five Star anti-austerity party gaining a 25% blocking vote; this has the potential to make Italy almost ungovernable if the grand coalition formed in April proves unable to agree on individual policies. This could then cause a second general election – but one which could yield an equally 'unsatisfactory' result! This result emphasises the dangers of a Eurozone approach heavily focused on imposing austerity, rather than promoting economic growth, reducing unemployment, and addressing the need to win voter support in democracies subject to periodic general elections. This weakness leaves continuing concerns that this approach has merely postponed the ultimate debt crisis, rather than provide a conclusive solution. These problems will, in turn, also affect the financial strength of many already weakened EU banks during the expected economic downturn in the EU. There are also major questions as to whether the Greek Government will be able to deliver on its promises of cuts in expenditure and increasing tax collection rates, given the hostility of much of the population.

The UK coalition Government maintained its tight fiscal policy stance against a background of warnings from two credit rating agencies that the UK could lose its AAA credit rating. Moody's followed up this warning by actually downgrading the rating to AA+ in February 2013 and Fitch then placed their rating on negative watch, after the Budget statement in March. Key to retaining the AAA rating from Fitch and S&P will be a return to strong economic growth in order to reduce the national debt burden to a sustainable level, within a reasonable timeframe.

2012/13 started the first quarter with negative growth of -0.4%. This was followed by an Olympics boosted +0.9% in the next quarter, then by a return to negative growth of -0.3% in the third quarter and finally a positive figure of +0.3% in the last quarter. This weak UK growth resulted in the Monetary Policy Committee increasing quantitative easing (QE) by £50bn in July to a total of £375bn on concerns of a downturn in growth and a forecast for inflation to fall below the 2% target. QE was targeted at further gilt purchases. In the March 2013 Budget, the Office of Budget Responsibility yet again slashed its previously over optimistic growth forecasts, for both calendar years 2013 and 2014, to 0.6% and 1.8% respectively.

UK CPI inflation has remained stubbornly high and above the 2% target, starting the year at 3.0% and still being at 2.8% in March; however, it is forecast to fall to 2% in three years time. The MPC has continued its stance of looking through temporary spikes in inflation by placing more importance on the need to promote economic growth.

Gilt yields oscillated during the year as events in the ongoing Eurozone debt crisis ebbed and flowed, causing corresponding fluctuations in safe haven flows into / out of UK gilts. This, together with a further £50bn of QE in July and widely expected further QE still to come, combined to keep PWLB rates depressed for much of the year at historically low levels.

Bank Rate was unchanged at 0.5% throughout the year, while expectations of when the first increase would occur were pushed back to quarter 1 2015 at the earliest.

The Funding for Lending Scheme, announced in July, resulted in a flood of cheap credit being made available to banks and this has resulted in money market investment rates falling sharply in the second half of the year. However, perceptions of counterparty risk have improved after the ECB statement in July that it would do "whatever it takes" to support struggling Eurozone countries. This has resulted in some return of confidence to move away from only very short term investing.

***Chart 1: Borrowing Rates 2012-13***






***Chart 2: Investment Rates 2012-13***




***Extracts from report by SECTOR, Treasury Management Consultants***

This page is intentionally left blank